Ariennir gan
Lywodraeth Cymru
Funded by
Welsh Government

# Astudiaeth Ddichonoldeb

## Adolygiad o Ariannu Gwaith Ieuenctid

Cardiff Metropolitan University | Prifysgol Metropolitan Caerdydd
Prifysgol Cymru Y Drindod Dewi Sant
University of Wales Trinity Saint David
Prifysgol Wrecsam
Wrexham University

**Teitl: Astudiaeth Ddichonoldeb o Adolygiad o Ariannu Gwaith Ieuenctid**
**Isdeitl: Cam 1, Adroddiad yr Astudiaeth Ddichonoldeb**

**Awdur(on): Nichola Welton (Prifysgol Cymru Y Drindod Dewi Sant), Darrel Williams (Prifysgol Cymru Y Drindod Dewi Sant), Mandy Robbins (Prifysgol Wrecsam), Robert Leigh (Prifysgol Wrecsam), Louise Cook (Prifysgol Metropolitan Caerdydd), Darren O'Connor (Prifysgol Cymru Y Drindod Dewi Sant), Alex Drury (Prifysgol Wrecsam).**

**Adroddiad Ymchwil Llawn: Welton, N; Williams, D; Robbins, M; Leigh, R; Cook, R; O'Connor, D; and Drury, A. (2023).; *Astudiaeth Ddichonoldeb o Adolygiad o Ariannu Gwaith Ieuenctid.* Cymru, Caerdydd. Llywodraeth Cymru.**

| **Ar gael yn:** | https://repository.uwtsd.ac.uk/id/eprint/2601 |
|---|---|

**Mae'r barnau a fynegir yn yr adroddiad hwn yn rhai'r ymchwilydd ac nid o reidrwydd yn rhai Llywodraeth Cymru**

**Er mwyn cael mwy o wybodaeth cysylltwch â'r tîm ymchwil**

**d.g.williams@uwtsd.ac.uk**

**Prifysgol Cymru Y Drindod Dewi Sant**

**Heol y Coleg**

**Caerfyrddin**

**SA31 3EP**

**neu Gangen Ymgysylltu Ieuenctid Llywodraeth Cymru**

**Youthwork@gov.Wales**

**Cangen Ymgysylltu Ieuenctid**
**Llywodraeth Cymru**
**Parc Cathays**
**Caerdydd**
**CF10 3NQ**

**Cynnwys**


1. Cyflwyniad/Cefndir ..... 1
2. Asesiad Cyflym o'r Dystiolaeth ..... 7
3. Methodoleg ..... 35
4. Canfyddiadau ..... 43
5 Casgliadau ..... 70
6 Argymhellion ..... 79
7 Adran Gyfeiriol ..... 80

Atodiad A - Rhanddeiliaid ..... 85

Atodiad B - Cwestiynau'r Arolwg ..... 86

Atodiad C - Cwestiynau Ansoddol ar gyfer Cyfweliadau / Grwpiau Ffocws ..... 92

Atodiad D – Llyfr Codio Dadansoddiad Ansoddol ..... 104

Atodiad E – Adolygiad Meintiol ..... 106

**Rhestr Tablau a Ffigurau**


Ffigur 3.1: Cyfranogwyr Ymchwil Gwirioneddol – Cyfweliadau / Grwpiau Ffocws / Arolwg ..... 37
Ffigur 3.1b: Sampl - Cyfweliadau / Grwpiau Ffocws, Cyfweliadau Ychwanegol ..... 37
Ffigur 3.2 Nifer y Cyfweliadau, Grwpiau Ffocws a Chyfranogwyr ..... 41
Tabl 4.1: Cyfraddau Twf Cyfansawdd Gwirioneddol Blynyddol Mewn Arian Incwm (2010-11 i 2021-22) ..... 46
Tabl 4.2: Cyfraddau Twf Cyfansawdd Gwirioneddol Blynyddol Mewn Gwariant (2010-11 i 2021-22) ..... 49
Ffigur 4.1: Nifer y Rheolwyr Sy'n Gweithio i Bob Awdurdod Lleol ..... 51
Ffigur 4.2: Nifer y Gweithwyr Craidd Rheng-Flaen ..... 51

Atodiad E.1. Arian Incwm ..... 106
Atodiad E.2. Incwm y Person ..... 109
Atodiad E.3. Data Gwariant ..... 110
Atodiad E.4. Adolygiad Staffio ..... 114
Atodiad E.5. Incwm Adrannol Segmentedig ..... 115
Atodiad E.6. Incwm Ffynonellau Eraill Segmentedig Archwiliad Blynyddol o Waith Ieuenctid ..... 117
Atodiad E.7. Ffracsiwn o Gyfanswm yr Incwm Ffynhonnell Genedlaethol Fesul Awdurdod Lleol ..... 119
Atodiad E.8. Canlyniadau'r Arolwg ..... 121

**Geirfa**

Testun geirfa

| Acronym/Gair allweddol | Diffiniad |
|---|---|
| CYILlC | Cangen Ymgysylltu Ieuenctid Llywodraeth Cymru |
| BGII | Bwrdd Gwaith Ieuenctid Interim |
| MSG | Mudiadau sector gwirfoddol |
| ALl | Awdurdodau lleol |
| SGC | Safonau Galwedigaethol Cenedlaethol ar gyfer Gwaith Ieuenctid |
| ACD | Asesiad Cyflym o'r Dystiolaeth |
| MPD | Mynegai Prisiau Defnyddwyr |
| GCR | Grant Cynnal Refeniw |

## 1. Cyflwyniad/Cefndir

1.1 Mae'r adroddiad hwn yn cyflwyno canfyddiadau cam cyntaf adolygiad o arian gwaith ieuenctid yng Nghymru a gynhaliwyd ar ran Llywodraeth Cymru, Cangen Ymgysylltu ag Ieuenctid (CYILIC). Mae gwaith y Bwrdd Gwaith Ieuenctid Interim yn darparu'r cefndir i'r ymchwil hwn. Yn 2018 gofynnwyd i'r Bwrdd ddatblygu argymhellion ar gyfer sicrhau model cyflawni cynaliadwy ar gyfer gwaith ieuenctid yng Nghymru, a'r argymhellion hyn a symbylodd yr ymchwil hwn. Y pedwerydd o'i 14 argymhelliad oedd cynnal adolygiad annibynnol i ddigonolrwydd, tryloywder, atebolrwydd ac effeithiolrwydd cyllid a gwariant ar wasanaethau gwaith ieuenctid ar draws Llywodraeth Cymru, awdurdodau lleol a mudiadau gwirfoddol, er mwyn asesu sut y darparwyd deilliannau ac effaith ar gyfer pobl ifanc.

### Nodau'r Adolygiad Ariannu.

1.2 Nod yr adolygiad hwn, a gomisiynwyd gan Lywodraeth Cymru, yw cynnal adolygiad o ariannu gwaith ieuenctid ar draws Cymru yn y sectorau gwaith ieuenctid gwirfoddol a chynaledig i helpu cyfrannu at ddatblygu model cyflawni cynaliadwy ar gyfer gwaith ieuenctid yng Nghymru. Bydd yr astudiaeth yn ystyried:

- sut mae trefniadau ariannu presennol yn effeithio ar wasanaethau gwaith ieuenctid ledled Cymru a sut mae unrhyw amrywiadau yn effeithio ar hygyrchedd
- dadansoddiad cost a budd (DCB) i sefydlu effaith ac effeithiolrwydd economaidd ariannu gwaith ieuenctid.

1.3 Cynhelir yr adolygiad mewn tri cham. Ceir crynodeb isod o fanylion y camau hyn, a'u hamcanion.

1.4 Amcanion **Cam 1** oedd cynnig fframwaith ar gyfer camau dilynol yr ymchwil hwn, gan gynnwys:

- sefydlu grŵp llywio

- cynnal asesiad cyflym o dystiolaeth (ACD) o'r llenyddiaeth/ymchwil empiraidd sydd ar gael ar arfer cyfredol perthnasol o ran dadansoddi cyllido a modelau ar gyfer mesur gwerth yn y DG a thu hwnt, gan gynnwys `Ymchwil ar gyfer datblygu strategaeth gwaith ieuenctid' a gomisiynwyd gan Lywodraeth Cymru.
- cynnal astudiaeth ddichonoldeb i sefydlu pa ddata sydd ar gael ac i ba raddau y gall gyflawni gofynion yr ymchwil a fwriedir ar gyfer camau 2 a 3.

1.5 Cafodd **Cam 1** ei gwblhau'n llawn. Fe sefydlwyd grŵp llywio, a chynhaliwyd asesiad cyflym o dystiolaeth (ACD) o lenyddiaeth berthnasol ar fodelau cyfredol o sefydlu manteision cost a gwerth cymdeithasol mewn gwaith ieuenctid ar draws y DG, Gweriniaeth Iwerddon, a'r UE. Cynhaliwyd astudiaeth ddichonoldeb o ardaloedd pedwar awdurdod lleol ac fe gasglwyd y data er mwyn cyfrannu at gamau nesaf yr ymchwil.

1.6 Bydd **Cam 2** yn adolygu'r ffynonellau cyllido sydd ar gael ar gyfer gwaith ieuenctid yng Nghymru ar gyfer y sector gwirfoddol a chynaledig a sut mae'r ffynonellau cyllido hyn yn cael eu dyrannu ar draws ardaloedd 22 awdurdod lleol Cymru. Bydd y cam hwn yn:

- ystyried o ble mae'r cyllid yn dod, sut y ceir gafael arno ac ar beth gaiff yr arian ei wario
- adnabod rhwystrau a heriau wrth geisio cael gafael ar arian, yn enwedig felly ond heb fod yn gyfyngedig i'r sector gwirfoddol.

1.7 Bydd y cam hwn hefyd yn sefydlu sut ddefnyddir yr arian ar gyfer gwaith ieuenctid ar draws y sector gwirfoddol a chynaledig a sut mae amrywiadau yn y ffordd y defnyddir yr arian hwn ar draws ardaloedd awdurdodau lleol yn effeithio ar wasanaethau gwaith ieuenctid. Bydd yn anelu at:

- adnabod pwy sy'n gwneud y penderfyniadau ar y cyllid a ddyrennir
- adnabod i ba raddau y mae gan bobl ifanc lais yn y drefn gyllido

- deall y trefniadau atebolrwydd, llywodraethiant, ac atebolrwydd a'r prosesau adrodd ar gyfer gwaith ieuenctid
- archwilio trefniadau comisiynu/partneriaeth rhwng sectorau gwirfoddol a chynaledig a sut mae hyn yn cael ei drefnu, ei gynllunio a'i fonitro
- creu fframwaith ar gyfer casglu data ynghylch effaith a manteision gwaith ieuenctid er mwyn gallu cynnal dadansoddiad cost a budd yng Ngham 3.

1.8 Bydd **Cam 2** yr adolygiad hefyd yn cynnwys casglu data ar gyfer ardaloedd pob un o'r 22 awdurdod lleol. Bydd hyn yn cynnwys data a gyhoeddwyd yn ogystal â data o arolwg a gynlluniwyd at ddibenion yr adolygiad hwn ac o gyfweliadau a grwpiau ffocws gyda rhanddeiliaid allweddol yn y sectorau ieuenctid gwirfoddol a chynaledig.

1.9 Bydd **Cam 3** yn ceisio darparu tystiolaeth am argraff ac effeithiolrwydd economaidd cyllid yn y sectorau gwaith ieuenctid gwirfoddol a chynaledig trwy ddadansoddiad cost a budd, gan amlygu tystiolaeth o arfer da.

**Trosolwg o'r Adroddiad**

1.10 Yn gyntaf mae'r adroddiad yn amlinellu'r dystiolaeth o asesiad cyflym o dystiolaeth yn cyfrannu at gamau 1-3 yr ymchwil. Yn ail, darperir trosolwg o'r fethodoleg a'r samplo a ddefnyddiwyd ar gyfer yr astudiaeth ddichonoldeb. Yn drydydd, cyflwynir y canfyddiadau o'r data a gasglwyd. Trafodir y casgliadau y deuir iddynt o'r dystiolaeth a gasglwyd yn yr astudiaeth ddichonoldeb hon, ac yn olaf awgrymir argymhellion ar gyfer camau 2 a 3 yr adolygiad cyllido.

1.11 I gwblhau'r cyflwyniad hwn trafodir trosolwg o barafedrau gwaith ieuenctid gan ddefnyddio ei seiliau deddfwriaethol. Mae hyn yn darparu'r cyd-destun ar gyfer yr astudiaeth ddichonoldeb hon ac ar gyfer camau 2 a 3 yr adolygiad cyllido.

**Diffinio Gwaith Ieuenctid**

1.12 Mae'r gwasanaeth ieuenctid ar draws Cymru yn cynnwys ystod eang ac amrywiol o fudiadau ac mae'n ffurfio'r 'fframwaith ar gyfer darparu gwaith ieuenctid ac fe'i gwneir yn bennaf trwy'r awdurdod lleol (y sector cynaledig), mudiadau ieuenctid gwirfoddol cenedlaethol a lleol (y sector gwirfoddol), ac mae'r ddau sector yn aml yn gweithio'n agos gyda'i gilydd' (Cymdeithas Llywodraeth Leol Cymru, dim dyddiad, np). Mae'r gwasanaeth ieuenctid yn system a ddiffiniwyd yn glir ac a gydnabyddir trwy ddeddfwriaeth, adroddiadau o bwys gan lywodraeth a thrwy werthuso arfer hanesyddol a chyfoes. Gwaith ieuenctid yw'r broses sy'n digwydd o fewn y fframwaith a ddarperir gan y gwasanaeth ieuenctid ac mae'n cynnwys ystod eang o ddulliau ac yn datblygu perthnasoedd cadarnhaol ac ystyrlon yn seiliedig ar gasgliad pendant o egwyddorion a phwrpasau.

1.13 Derbynnir yn gyffredinol fod y cyd-destun polisi ar gyfer gwaith ieuenctid yng Nghymru yn cael ei ddarparu'n bennaf gan: Cyfarwyddiadau a chanllawiau Llywodraeth Cymru yn Ymestyn Hawliau (2002); Y Ddeddf Dysgu & Sgiliau (2000); Y Strategaeth Genedlaethol ar gyfer Gwaith Ieuenctid (2019) a Gwaith Ieuenctid yng Nghymru: Egwyddorion a Phwrpasau (2022). Mae hefyd yn elwa o'r Safonau Galwedigaethol Cenedlaethol ar gyfer Gwaith Ieuenctid (NOS) (2019).

1.14 Bydd ein hymchwil yn cydnabod, fel y nodwyd gan Estyn, y defnyddir y term 'gwaith ieuenctid' i ddisgrifio'r math o waith gyda phobl ifanc a gynhelir o fewn fframwaith y gwasanaeth ieuenctid. Fodd bynnag, cydnabyddir hefyd fod y term gwaith ieuenctid yn cael ei gamgymryd yn aml gyda gwaith generig gyda phobl ifanc trwy ddisgrifiadau fel gwasanaethau ar gyfer pobl ifanc a gwasanaethau gwaith ieuenctid. Gall hyn arwain at ideolegau a blaenoriaethau croes (Estyn, 2018). Er mwyn ymateb i hynny, cynhelir ein hymchwil o fewn athroniaeth glir iawn, sef archwilio beth all y gwasanaeth ieuenctid yn y sectorau gwirfoddol a chynaledig ei gyflawni trwy eu harfer gwaith ieuenctid. Er mwyn cyflawni hyn, mae'n bwysig cydnabod fod arfer gwaith ieuenctid

yn seiliedig ar gasgliad clir o nodweddion. Mae'r nodweddion hynny'n cynnwys yn benodol:

- ymglymiad gwirfoddol gan bobl ifanc sydd wedi dewis cymryd rhan yn y broses; ei fod yn oed benodol, yn anelu at bobl ifanc 11-25 oed
- ei fod yn defnyddio methodoleg addysg anffurfiol/dysgu anffurfiol.
- ei fod yn gweithio mewn ffordd sy'n rhoi pobl ifanc yn gyntaf
- dynesiad cyffredinol (Llywodraeth Cynulliad Cymru, 2007).

1.15 Mae'r Safonau Galwedigaethol Cyffredinol ar gyfer Gwaith Ieuenctid yn cyfeirio at ddatblygiad holistaidd pobl ifanc, gan gydnabod y gall datblygiad personol, cymdeithasol ac addysgol gynnwys hefyd, er enghraifft, datblygiad corfforol, gwleidyddol ac ysbrydol. Dyma barafedrau'r fethodoleg gwaith ieuenctid y bydd ein hymchwil yn eu harchwilio. Wedi cael dealltwriaeth glir o seiliau gwaith ieuenctid, mae'n rhaid deall y cyd-destun sefydliadol y cynhelir y gwaith hwn oddi fewn iddo. Prif bwrpas yr ymchwil hwn fydd ymchwilio pa mor effeithiol y mae gwaith ieuenctid, wedi'i ddarparu drwy'r gwasanaeth ieuenctid yn ei holl ffurfiau, yn cefnogi pobl ifanc i ddatblygu'n holistaidd, trwy weithio gyda nhw i hwyluso eu datblygiad personol, cymdeithasol ac addysgol, i'w galluogi i ddatblygu eu llais, dylanwad, a lle mewn cymdeithas a chyflawni eu llawn botensial (Community Learning and Development Scotland, 2019, t. 4).

1.16 Mae gwaith ieuenctid yn hyblyg yn ei hanfod, mae'n defnyddio egwyddorion addysg ffurfiol ac anffurfiol ac yn hynny o beth mae'n gweithio gyda phobl ifanc a chymunedau i ddatblygu rhaglenni gwaith sy'n seiliedig ar gyd-destunau, anghenion datblygu, diddordebau ac yn bwysig iawn, y pethau sy'n tanio pobl ifanc. O'r herwydd, dylid bod yn hyblyg wrth ddatblygu arfer gwaith ieuenctid yn lleol. Cafodd dulliau gwaith ieuenctid nodweddiadol eu cofnodi gan Estyn (2006) ac mae'r rhain yn cynnwys:

- gwaith mewn canolfannau

- gwaith datgysylltiedig, allgymorth a symudol
- arbenigeddau cwricwlwm fel y celfyddydau a diwylliant, cymorth cyntaf, chwaraeon, iechyd ac ati
- gwasanaethau gwybodaeth, cyngor, arweiniad a chynghori
- gwaith prosiect
- gwaith preswyl
- darpariaeth wedi'i thargedu ar gyfer grwpiau penodol
- gwaith cydweithiol
- dulliau ar gyfer ymgynghori â phobl ifanc
- darparu cyfleoedd ar gyfer gwirfoddoli
- addysg gyfoed
- gweithredu cymunedol
- cyfrannu at wneud penderfyniadau
- profiadau rhyngwladol
- gwaith un ac un.

1.17 Efallai na fydd gwaith ehangach gyda phobl ifanc o fewn cwmpas yr astudiaeth hon o reidrwydd, ond pan mae'n amlwg o'r data a gasglwyd byddwn yn adrodd arno.

1.18 Cafeat yr astudiaeth hon, ac un a gydnabyddir mewn astudiaethau tebyg eraill, (Youth Link Scotland: National Youth Agency for Scotland (2016) yw, er y gallwn ddiffinio gwaith ieuenctid o safbwynt polisi yng Nghymru, gall diffinio gwaith ieuenctid o brofiad unigolion / mudiadau amrywio.

## 2. Asesiad Cyflym o Dystiolaeth

2.1 Edrychodd yr Asesiad Cyflym o Dystiolaeth (ACD) ar y dystiolaeth sydd ar gael ar gostau a manteision gwaith cymdeithasol a gynhaliwyd yng ngwledydd Prydain a thu hwnt. Hefyd, mae adroddiadau perthnasol o Gymru wedi helpu cyfrannu at y corff tystiolaeth sydd ar gael mewn cyd-destun Cymreig. Bydd canlyniad yr ACD yn cyfrannu at gamau dilynol yr ymchwil.

2.2 Canolbwyntiodd methodoleg ein ACD ar gwestiynau proses, cwestiynau gweithredu ac ar gwestiynau yn edrych ar ganfyddiadau economaidd ymchwil perthnasol. Cwestiwn cyffredinol yr ACD oedd edrych ar sut mae gwaith cymdeithasol yn cael ei gyllido yn y sectorau gwirfoddol a chynaledig. Casglodd yr ACD dystiolaeth ar:

- ystyr a natur gwaith cymdeithasol yn y sectorau gwirfoddol a chynaledig, cyfraniad pobl ifanc at wneud penderfyniadau a damcaniaethau sy'n sail i'r cyd-destun hwn.
- mesuriadau o'r holl gysyniadau hyn
- y mathau o astudiaethau all helpu mynd i'r afael â'r cwestiynau hyn.

Er mwyn rhychwantu llenyddiaeth berthnasol ar gyfer testun yr ACD, defnyddiwyd ffrâm ymchwil hyblyg, agored ar gyfer ystyried:

- adnabod llenyddiaeth gwaith ieuenctid gan gynnwys o'r sector gwirfoddol, y sector cynaledig, mewn darpariaeth wedi'i thargedu neu ddarpariaeth gyffredinol neu fynediad agored.
- ymchwil a gynhaliwyd yn bennaf yng ngwledydd Prydain ond hefyd yng Ngweriniaeth Iwerddon, Ewrop a thu hwnt
- ymchwil a gyhoeddwyd yn y 15 mlynedd diwethaf
- dulliau cymysg, astudiaethau ansoddol a meintiol
- sut mae lleisiau pobl ifanc yn cael gwrandawiad.

2.3 Roedd y chwiliad yn cynnwys llyfrau, cyfnodolion, erthyglau, cronfeydd data electronaidd, ac adroddiadau ysgrifenedig eraill oedd ar gael ac a oedd yn bodloni ein meini prawf. Roedd hyn yn dilyn y strategaeth a amlinellwyd yn y pecyn gwaith ACD perthnasol (Gwasanaeth Sifil, 2014). Defnyddiodd tîm yr ACD broses dau-gam o ddewis astudiaethau i'w cynnwys, gan adolygu crynodebau yn y lle cyntaf os oeddent ar gael ac yna'r adnodd llawn. Defnyddiwyd meini prawf pendant i'n galluogi i adnabod astudiaethau uwch eu hansawdd o gymharu ag astudiaethau gwannach. Buom yn edrych ar:

- Ansawdd methodolegol pob astudiaeth
- Perthnasedd y cynllun ymchwil ar gyfer ateb ein cwestiwn ACD
- Perthnasedd ffocws yr astudiaeth ar gyfer ateb y cwestiwn ACD

Roedd termau chwilio'r ACD yn cynnwys:

- effaith gymdeithasol gwaith ieuenctid
- dadansoddiad cost a budd o waith ieuenctid
- adenilliad cymdeithasol gwaith ieuenctid ar y buddsoddiad
- gwerth gwaith ieuenctid
- mesur effaith gwaith ieuenctid
- gwerth economaidd gwaith ieuenctid
- gwerthusiad o waith ieuenctid.

2.4 Mae canlyniadau'r ACD yn dangos mai cyfyngedig yw'r dystiolaeth ynghylch effeithiolrwydd gwaith ieuenctid mynediad agored lle y mae cymryd rhan yn fater gwirfoddol i'r person ifanc. Codwyd cwestiynau yn y llenyddiaeth am 'effeithiolrwydd' ac 'effaith' gwaith ieuenctid yn fwy cyffredinol (Youth Investment Fund, 2021) a sut ellir deall y buddion sy'n deillio o waith ieuenctid. Mae Duffy wedi dadlau, mewn erthygl yn Youth and Policy Journal, o gofio ei natur gymhleth, ac ystod yr amrywolion sy'n effeithio ar ei ddeilliannau, er enghraifft yr ardal mae'n gweithredu ynddi, y math o bobl ifanc dan sylw, fod gallu gwaith

ieuenctid i arddangos effeithiolrwydd economaidd amlwg ar sail dadansoddiad cost a budd yn gyfyngedig (Duffy, 2017, p.45-61). Fe nodwyd yn 2012 fod y dystiolaeth ynghylch effaith gwaith ieuenctid yn gyfyngedig a darniog (Mundy-McPherson, Fouche and Elliot, 2012). Fodd bynnag, fwy a mwy mae ymchwilwyr yn defnyddio dulliau gwahanol o asesu buddion gwaith ieuenctid (Youth Link Scotland, 2020) wrth ymateb i'r cwestiynau hyn.

2.5 Cafodd dwy brif thema eu hadnabod o'r ACD hwn. Yn gyntaf, tystiolaeth sy'n ein helpu i ddeall gwerth economaidd a gwerth cymdeithasol ehangach gwaith ieuenctid ac, yn ail, trosolwg o fethodolegau a ddefnyddiwyd i gynnal ymchwil ansawdd uchel o'r math yma.

**Tystiolaeth ymchwil o werth economaidd a gwerth cymdeithasol ehangach Gwaith Ieuenctid**

2.6 Mae'r astudiaethau yr edrychwyd arnynt yn yr ACD hwn yn canolbwyntio ar geisio meintioli gwerth economaidd gwaith ieuenctid trwy ddefnyddio methodolegau megis dadansoddiad cost a budd (CBA) ac Ad-daliad Cymdeithasol ar Fuddsoddiad (SROI) a chynnwys amser gwirfoddolwyr. Fodd bynnag, ni wnaeth yr ACD adnabod unrhyw astudiaethau oedd yn ystyried materion cynaliadwyedd mwy hirdymor modelau darparu a chyllido gwaith ieuenctid, neu sut ellid eu gwella, sef un o nodau'r adolygiad hwn. Mae themâu sydd i'w gweld yn yr ymchwil presennol a adolygwyd yn yr ACD hwn yn dangos fod angen cael gwell dealltwriaeth o'r mecanweithiau cyllido ac o'r trosolwg strategol o waith ieuenctid. Mae tystiolaeth yn awgrymu hefyd fod yna botensial yn y dyfodol i archwilio effaith economaidd a chymdeithasol gwaith ieuenctid yn y sectorau gwirfoddol a cynaledig.

**Methodolegau a ddefnyddiwyd**

2.7 Cafodd enghreifftiau o sut ddefnyddiwyd dulliau CBA neu SROI yn y gorffennol i arddangos effaith a gwerth economaidd ar draws nifer o astudiaethau eu cofnodi yn yr ACD hwn er mwyn llunio methodoleg

oedd yn ceisio gwerthuso costau a manteision ystod o ymyriadau a ddarperir gan y gwasanaeth ieuenctid yng Nghymru. Trwy ddefnyddio trefn o'r fath gellir gwneud amcaniad ynghylch gwerth ac argraff gymdeithasol gwaith a wnaed gan y gwasanaeth ieuenctid yng Nghymru. Fel y dangoswyd yn nifer o'r astudiaethau, mae gwaith ieuenctid yn faes bras. Mae'n hollbwysig felly fod unrhyw ddull o amcanu gwerth cymdeithasol yn cynnig eglurder ynghylch cwmpas, a chyfyngiadau astudiaeth o'r fath, o gofio cymhlethdod ac amrywiaeth y sector, a'r ffynonellau cyllido niferus y mae'n eu denu.

2.8 Mae'r holl astudiaethau'n defnyddio dulliau cymysg neu luosog o gasglu data, er enghraifft dulliau ansoddol a meintiol o gasglu a dadansoddi data, dadansoddi dogfennau ac adolygu data gwerthuso ac ymchwil lleol a chenedlaethol sydd ar gael yn barod. Rydym felly'n cymeradwyo'r agwedd bragmataidd a ddefnyddiwyd yn yr adolygiad hwn gan ei fod yn rhoi'r cyfle i ymchwilio'r cyd-destunau cymhleth y mae gwaith ieuenctid yn digwydd oddi fewn iddynt ac yn arwain at well dealltwriaeth o effeithiolrwydd, tryloywder ac effaith cyllido.

2.9 Ynghyd â'r prif astudiaethau, a gafodd eu blaenoriaethu ar gyfer yr ACD, cyfeiriwyd y tîm adolygu at astudiaethau ac adolygiadau ychwanegol. Cawsant eu hystyried, ond at ddibenion yr ACD hwn rydym wedi parhau i ganolbwyntio ar yr astudiaethau ag iddynt gyd-destun cenedlaethol. Cafwyd eithriadau, a barodd inni ystyried astudiaethau ac adolygiadau ychwanegol. Roedd y tîm yn gwerthfawrogi'r cyfle i ymateb i'r ceisiadau hyn, a chafodd yr astudiaethau hyn eu hadolygu yn fanwl. Er bod pob un o'r astudiaethau ychwanegol hyn yn ddefnyddiol mewn gwahanol ffyrdd, teimlwyd y dylai'r ACD barhau i ganolbwyntio ar yr astudiaethau sy'n ystyried cyd-destunau cenedlaethol gan y byddai'n fwy cyson a chydnaws â nodau datganedig yr ACD a'r adolygiad yn gyffredinol. Fodd bynnag, mae'n bwysig pwysleisio fod yr astudiaethau ychwanegol hyn yn cynnig gwerth a gwybodaeth ychwanegol mewn gwahanol ffyrdd, ac efallai y cânt eu cynnwys yng nghamau nesaf yr adolygiad. Yr eithriad yma yw'r

asesiad o werth economaidd Urdd Gobaith Cymru (Ymchwil Arad, 2018). Cafodd hwn ei ymgorffori yn yr adolygiad fel ffactor pwysig yn natblygiad ‘ffordd Gymreig’ sy’n ymgorffori dulliau ymchwil cymysg a thrylwyr.

**Archwilio astudiaethau o Weriniaeth Iwerddon**

2.10 Cylch gorchwyl yr astudiaeth hon ‘Assessment of the economic value of Youth Work’ (National Youth Council of Ireland, 2012) oedd cynnig amlinelliad o gyd-destun economaidd gwaith ieuenctid yng Ngweriniaeth Iwerddon; adolygu’r ymchwil sy’n cofnodi’r profiad rhyngwladol a chenedlaethol o waith ieuenctid a’i effaith economaidd; a darparu dadansoddiad cost a budd o gostau a buddion Gwaith Ieuenctid yng Ngweriniaeth Iwerddon.

2.11 Mae’r astudiaeth, er nad yw’n darparu templed union ar gyfer yr adolygiad presennol o waith ieuenctid yng Nghymru, yn dangos y gellir amcanu effaith economaidd a chymdeithasol gwaith ieuenctid trwy ddefnyddio dull CBA. Mae’n dilyn felly fod yna rai elfennau allweddol o ran y dulliau a ddefnyddir i gyfrifo buddion uniongyrchol ac anuniongyrchol gwaith ieuenctid. Allwedd hyn yw sicrhau eglurder ynghylch ehangder y gweithgarwch sy’n cael ei ystyried yn waith ieuenctid. Bydd yr adolygiad o arian gwaith ieuenctid yng Nghymru yn galw am ddiffiniad clir o’r mathau o weithgarwch sy’n ffurfio gwaith ieuenctid. Felly, gall yr astudiaeth o’r Iwerddon helpu cyfrannu at ddatblygu dull sy’n cwmpasu CBA ar gyfer amlygu buddion economaidd, er gwaetha’r ffaith y gall yr astudiaethau wahaniaethu o ran ffocws cyffredinol mewn rhai ffyrdd.

2.12 At ddibenion cyd-destunol, mae’r astudiaeth yn cynnig dadansoddiad annibynnol sy’n dangos y credir fod 53 y cant o’r bobl ifanc sy’n manteisio ar waith ieuenctid yn Iwerddon o dan anfanteision economaidd neu gymdeithasol, a bod pobl ifanc yng Ngweriniaeth Iwerddon mewn mwy o berygl o e.e., fod yn ddiwaith, statws NEET,

tlodi, ac eithrio cymdeithasol nac mewn gwledydd eraill yn yr UE. Cynhwysir hefyd resymwaith am asesu buddion economaidd gwaith ieuenctid dros gyfnod deng mlynedd yr astudiaeth. Hanfod y rhesymwaith hwn yw amcan o'r deilliannau tebygol i'r bobl ifanc sy'n manteisio ar neu'n rhan o raglenni cyfiawnder, iechyd a lles, a'r costau dilynol i'r wladwriaeth pe na bai'r rhaglenni hyn yn bodoli.

2.13 Mae'r astudiaeth yn ceisio darparu DCB o waith ieuenctid yng Ngweriniaeth Iwerddon, gan asesu'r ad-daliad cyffredinol ar y cyllid. Wrth wneud hynny mae'n honni ei fod yn llenwi bwlch, gan amlygu natur ansoddol astudiaethau blaenorol. Rhennir y DCB yn ddau faes. Y meysydd hynny yw'r hyn a elwir yn fuddion uniongyrchol, sef gwerth economaidd gwirfoddoli a chyflogaeth am dâl, ac 'effeithiau lluosyddol' gwariannau mudiadau ieuenctid. Yr ail yw'r buddion anuniongyrchol, sy'n darparu manylion costau y mae'r wladwriaeth yn eu hosgoi oherwydd bodolaeth rhaglenni a chefnogaeth i bobl ifanc, o gymharu â'r costau i'r wladwriaeth pe na bai'r rhaglenni a'r gefnogaeth hynny ar gael. Rhennir y buddion anuniongyrchol yn fuddion cyfiawnder, iechyd, lles, ac addysg, sy'n rhoi amcan o gyrhaeddiad y ddarpariaeth hon.

2.14 Yna mae'r astudiaeth yn ystyried beth fyddai'r deilliannau tebygol i bobl ifanc sy'n cymryd rhan mewn rhaglenni cyfiawnder, iechyd a lles ar gyfer pobl ifanc, â'r costau i'r wladwriaeth pe na bai'r rhaglenni a'r gefnogaeth hynny ar gael. Cyfrifir y 'costau cysgodol' ar gyfer y rhaglenni hyn ar 150% o gyllid gwasanaethau cyhoeddus y rhaglenni er mwyn gallu meintioli'r buddion sy'n deillio ohonynt. Cyflwynir model gwrthffeithiol neu gyfeiriol i gynnig amcan o'r sefyllfa fwyaf tebygol pe na bai rhaglenni neu weithgareddau ar gael. Er enghraifft, ar gyfer rhaglenni ym maes cyfiawnder cyflwynir hyn ar ffurf arbedion i'r wladwriaeth trwy osgoi costau oherwydd bodolaeth y ddarpariaeth hon. Gwneir hyn trwy gymryd costau'r rhaglenni a'u cymharu gyda chost 2 y cant o bobl ar y rhaglen yn cael eu derbyn i ganolfan gadw (amcangyfrif o €5.1 miliwn y flwyddyn). Ar gyfer buddion iechyd rhaglenni gwaith ieuenctid, rhoddir amcan o'r arbedion i'r wladwriaeth trwy osgoi costau

oherwydd bodolaeth rhaglenni ym maes iechyd, trwy gyfrifo costau 4 y cant o'r sawl sydd ar y rhaglen yn cael eu derbyn i ganolfannau trin glasoed.

**Archwilio astudiaethau o'r Alban**

2.15 Dywedir mai prif bwrpas yr astudiaeth 'The Social and Economic Value of Youth Work in Scotland' (YouthLink Scotland, 2016) yw dangos gwerth gwaith ieuenctid, ac wrth wneud hynny gydnabod ei wir effaith o gymharu ag ymyriadau cyhoeddus a gwirfoddol eraill. Mae hefyd yn ceisio rhoi adborth i weithwyr ieuenctid gwirfoddol a phroffesiynol ar werth eu gwaith. Yn olaf, mae'n mynd ati i amlygu camau pellach y gellir eu cymryd i adnabod pa fath o arferion gwaith ieuenctid penodol sy'n arwain at effaith hirdymor.

2.16 Mae'r adroddiad yn dangos fod peth budd mewn defnyddio'r dulliau SROI a ddefnyddir gan bawb bron erbyn hyn (de St Croix, 2017), yn un peth gan eu bod yn dangos fod gwaith ieuenctid yn gwneud cyfraniad economaidd mewn nifer o feysydd polisi cyhoeddus. Yn hynny o beth mae'r gyfatebiaeth gydag astudiaeth 'Assessment of the economic value of Youth Work' (National Youth Council of Ireland, 2012) ac astudiaethau tebyg yn helpu sefydlu naratif ar gyfer cyfraniad gwaith ieuenctid, a'r peuoedd polisi cyhoeddus y mae'n gweithredu ynddynt. Fel gyda'r astudiaeth o'r Iwerddon mae'n cynnig sawl awgrym o ran datblygu dull o feintioli gwerth economaidd a chymdeithasol gwaith ieuenctid. Mae'r cyfyngiadau datganedig o ran yr ymchwil a gynhaliwyd yn cyferbynnu gyda'r astudiaeth a gomisiynwyd gan Lywodraeth Cymru, sy'n ceisio cynnig darlun manylach o wasanaethau gwaith ieuenctid yng Nghymru.

2.17 O ran cwmpas a chyfyngiadau'r astudiaeth o'r Alban, dywed yr awduron ei bod yn ceisio darlunio sefyllfa gyffredinol, yn hytrach na darparu asesiad manwl a thrylwyr. Mae'r astudiaeth yn cydnabod heriau arwyddocaol, yn bennaf felly nad oes gan waith ieuenctid effaith gyffredinol a thebyg ar bawb sy'n cymryd rhan ynddo; fod diffinio gwaith

ieuenctid yn anodd, nid o reidrwydd o ran polisi, ond o ran y profiad unigol ohono; a bod gwasanaethau gwaith ieuenctid wedi newid gydag amser, felly gallai'r effaith ar oedolion ddeng mlynedd ar hugain yn ôl, er enghraifft, fod yn wahanol iawn i'r profiad heddiw.

2.18 Defnyddiodd yr astudiaeth nifer o ddulliau a dynesiadau. Mae'r rhain yn cynnwys:

- arolwg o oedolion a'u profiad hanesyddol o waith ieuenctid
- adolygiad o astudiaethau gwaith ieuenctid SROI eraill
- arolwg o weithwyr ieuenctid gwirfoddol
- ymchwil desg
- modelu effeithiau posib gan ddefnyddio data cyhoeddedig cadarn.

2.19 Mae'r astudiaeth yn defnyddio diffiniad Youth Link Scotland o waith ieuenctid: `youth work is an educational practice contributing to young people's learning and development. The young person takes part voluntarily and is recognised as an active partner. The relationship and dialogue rhwng the young person and youth worker is central to the learning process. Youth work takes place in a variety of settings including community venues, uniformed groups, schools, youth cafes and on the street.'  Gwahaniaethir rhwng gwaith ieuenctid cyffredinol a gwaith ieuenctid wedi'i dargedu. Mae'r gwaith cyffredinol yn golygu fod gweithwyr ieuenctid yn gweithio gydag ystod eang o bobl ifanc o ardal arbennig neu o gwmpas gweithgaredd penodol, ac mae gwaith wedi'i dargedu yn golygu fod gweithwyr ieuenctid yn gweithio gyda grŵp targed penodol sydd fel arfer yn cael eu hystyried yn grŵp 'risg' mewn rhyw ffordd.

2.20 Mae'r dull SROI a ddefnyddiwyd gan yr astudiaeth yn ceisio cofnodi holl gostau'r mewnbynnau i ymyriad, ac yna rhoi gwerth i'r holl fuddion. Wrth wneud hynny mae'n cynnig amcan o'r buddion ehangach yn hytrach na chanolbwyntio ar gyflawni nodau penodol. Archwilir y deilliannau hyn o safbwyntiau rhanddeiliaid, gan gydnabod fod natur gyfyngedig yr astudiaeth yn golygu na ellid cynnal ymchwil gwreiddiol.

Mae'r astudiaeth wedi dibynnu felly ar adolygu astudiaethau a gynhaliwyd yn barod, oedd yn cynnwys dros ugain o adroddiadau gwerthuso gan ddefnyddio methodoleg SROI. Dywed yr adroddiad er hynny y cynhaliwyd rhywfaint o ymchwil gwreiddiol trwy arolwg poblogaeth. Canfu'r arolwg fod gwaith ieuenctid yn adeiladu ystod o sgiliau a galluedau meddal, yn bennaf felly o ran hyder a chymhelliant. Mae'r astudiaeth yn honni fod gwaith ieuenctid wedi newid bywydau 1 o bob 10 o boblogaeth Yr Alban, gan y bu gwaith ieuenctid, i 'leiafrif arwyddocaol' o fwy nac 1 oedolyn o bob 10 yn Yr Alban, ei fod hefyd yn dangos:

- fod 13.3 y cant o oedolion yn honni fod gwaith ieuenctid yn bwysig iawn yn cyflawni eu nodau bywyd
- yr amcangyfrifir fod yr enillion ychwanegol y gellir eu priodoli i ddeilliannau meddal rhwng £4,906 a £6,091 yr unigolyn, a bod hynny'n creu gwerth blynyddol yn seiliedig ar enillion yn unig rhwng £2,200 a £3,000 miliwn **(y ffigyrau a ddefnyddir yw'r rhain yn y ddogfen wreiddiol)**
- mai cyfrifiad cyfanswm gwerth gwaith cymdeithasol yn Yr Alban yw £7 am bob £1 o arian cyhoeddus a fuddsoddwyd a gwerth SROI cyffredinol yn amrywio o £656 miliwn i £1,312,000,000 **(y ffigyrau a ddefnyddir yw'r rhain yn y ddogfen wreiddiol).**

**Archwilio astudiaethau o'r Undeb Ewropeaidd**

2.21 Mae'r astudiaeth 'Working with Young People: The value of Youth Work in the EU' (Comisiwn Ewropeaidd, 2014) yn cydnabod yr angen am well dealltwriaeth o'r cyfraniad a wneir gan waith ieuenctid yn yr UE, a'i werth i fywydau pobl ifanc. Mae hefyd yn dangos prinder data ynghylch gwaith ieuenctid ar draws yr UE ac mae wedi ceisio elwa ar lenyddiaeth berthnasol, mapio cyd-destunau cenedlaethol, ac ymgysylltu â rhanddeiliaid, ynghyd â dadansoddiad o arfer llwyddiannus.

2.22 Er nad yw’r astudiaeth yn ceisio meintioli gwerth economaidd neu gymdeithasol i waith ieuenctid, mae’n cynnig trosolwg o rai materion a thueddiadau allweddol ynghylch gwaith ieuenctid ar draws sawl gwlad Ewropeaidd, allai fod yn berthnasol yn y cyd-destun Cymreig.

2.23 Mae’r rhai perthnasol yn cynnwys rhai datblygiadau pwysig o ran, trefniadau ariannu, a statws cyfreithiol gwaith ieuenctid yn aelod wladwriaethau’r UE. Gall hyn helpu meithrin dealltwriaeth o sut all esblygiad gwasanaethau gwaith ieuenctid yng Nghymru gael ei effeithio gan dueddiadau ehangach yn fwy cyffredinol. O ran cyllid ac ariannu, ceir ffocws ar y symiau o arian a ddarparwyd ar gyfer gwaith ieuenctid dros y ddegawd flaenorol. Mae’r adroddiad yn elwa o waith Fyfe a Moir (2013) sy’n tynnu sylw at dueddiad yng ngwledydd Prydain i fecanweithiau cyllido fynd yn llai hyblyg gydag amser, a mynd yn gysylltiedig â deilliannau mesuradwy, yn ogystal â chael eu targedu fwyfwy at grwpiau penodol o bobl ifanc, yn aml y rhai sy’n wynebu risg. Mae’r astudiaeth yn tynnu sylw at Jeffs a Smith (2008) a ddangosodd fod gwaith ieuenctid wedi dod o dan bwysau allanol i drefnu arfer o gwmpas targedau a deilliannau. Mynegir pryder y gallai hyn arwain at golli annibyniaeth o ran arfer gwaith ieuenctid wrth i amodau cyllido fynnu gweithgareddau mwy strwythuredig, mwy o atebolrwydd, ac adrodd ar ddeilliannau. Mae’r adroddiad hwn yn ddefnyddiol gan ei fod yn amlygu rhai tueddiadau diweddar mewn gwaith ieuenctid. Maent yn cynnwys ffocws ar ddeilliannau a safonau mesuradwy, symudiad tuag at waith ieuenctid yn seiliedig ar dystiolaeth, gwaith ieuenctid wedi’i dargedu ar grwpiau penodol, pwyslais ar ddatblygu sgiliau addysgol a marchnad waith pobl ifanc, a mwy o ffocws ar waith ieuenctid yn seiliedig ar ymyriadau sy’n targedu materion penodol y mae pobl ifanc yn eu hwynebu. Dangosodd dadansoddiad o flaenoriaethau polisïau ieuenctid a rhaglenni cyllido llywodraeth ar y pryd y prif feysydd canlynol: targedu pobl ifanc dan anfantais, gwaith ieuenctid a chyfleusterau ieuenctid ataliol, sicrhau gwaith ieuenctid o ansawdd,

arfer seiliedig ar dystiolaeth a datblygu system neu seilwaith i gefnogi gwaith ieuenctid.

2.24 Yn gyffredinol, mae’r astudiaeth yn dangos pwysigrwydd cynyddol gwaith ieuenctid ac amlygrwydd ar yr agenda gwleidyddol. O safbwynt cyllido, mae’r astudiaeth yn cyfeirio at newidiadau i drefniadau a blaenoriaethau cyllido a wnaed dros y degawd diwethaf sydd wedi cynnwys pwyslais cryfach ar waith ieuenctid seiliedig ar ymyriadau ac ar grwpiau targed penodol o bobl ifanc, neu waith ieuenctid i fynd i’r afael mater penodol. Mae’r adroddiad yn cynnwys enghreifftiau penodol o wahanol aelod wladwriaethau’r UE i helpu gwneud y pwynt fod yna bwyslais cynyddol ar weithgareddau yn arwain at fwy o gyfleoedd addysgol a gwaith. Mae’r tueddiad hwn wedi arwain at ddatgysylltiad rhwng pwrpasau datganedig cyffredinol gwaith ieuenctid a’i rôl yn meithrin cyfalaf cymdeithasol a dynol, yn ôl yr awduron. Mae’r astudiaeth yn amlygu hefyd y ffaith fod mudiadau ieuenctid yn gorfod cystadlu yn erbyn ei gilydd am gyllid, a sut all hynny atal cydweithio. Dangosir hefyd fod newidiadau i drefniadau cyllido cyhoeddus wedi arwain at dorri gwasanaethau prif ffrwd fyddai wedi darparu ar gyfer pobl ifanc, ac at greu disgwyliad fod gwaith ieuenctid yn cael ei weld fwyfwy fel ffordd o lenwi’r bwlch a lanwyd yn y gorffennol gan wasanaethau prif ffrwd. Mae’r astudiaeth yn amlygu sut mae darparu tystiolaeth o lwyddiant er mwyn cael gafael ar gyllid, yn hytrach na bod gweithgareddau’n cael eu cyllido yn y lle cyntaf, yn gallu bod yn arbennig o anodd i fudiadau bychain nad oes ganddynt fodd i rag-gyllido gweithgareddau. Unwaith eto, gall y canfyddiadau hyn fod yn ddefnyddiol wrth edrych ar drefniadau cyllido yn y cyd-destun Cymreig.

2.25 O ran y fethodoleg, roedd hyn yn cynnwys adolygiad o’r hyn a wyddom yn barod a beth yw’r bylchau yn ein gwybodaeth ar fater pobl ifanc yn yr UE. Cafodd cyd-destun cenedlaethol gwaith ieuenctid ei fapio gyda phob aelod wladwriaeth trwy archwilio diffiniadau, fframweithiau cyfreithiol, sefyllfa gweithwyr ieuenctid, rôl, gwerth ac effaith gwaith ieuenctid. Cynhaliwyd sesiwn ymgysylltu â rhanddeiliaid i rannu

gwybodaeth ac arbenigedd, ac fe gynhwyswyd astudiaethau enghreifftiol o fentrau a gweithgareddau yn archwilio'r storïau y tu ôl i'w llwyddiant yn yr astudiaeth. Er mwyn archwilio gwerth gwaith ieuenctid ymhob un o'r 27 aelod wladwriaeth edrychodd yr astudiaeth ar:

- adroddiadau cenedlaethol ar waith ieuenctid a throsolwg cynhwysfawr o draddodiad, datblygiad, fframwaith cenedlaethol, trefniadau llywodraethiant, a fframwaith polisi ar gyfer gwaith ieuenctid, ynghyd â gwybodaeth ynghylch rôl gweithwyr ieuenctid, gwerth a deilliannau gwaith ieuenctid ymhob gwlad
- saith ar hugain o astudiaethau enghreifftiol manwl
- trosolwg o'r ffactorau llwyddiant allweddol oedd yn gysylltiedig â'r astudiaethau enghreifftiol
- set o gasgliadau ar arferion, polisïau a rhaglenni gwaith ieuenctid llwyddiannus.

2.26 Gwnaed hyn trwy gyfuniad o ymchwil desg, ymgynghori â rhanddeiliaid, ymweliadau â darpariaeth ieuenctid, a sesiwn undydd ryngweithiol wyneb yn wyneb wedi'i thargedu at arbenigwyr gwaith ieuenctid. Roedd y sawl a gymerodd ran yn dod o lywodraethau cenedlaethol, cynrychiolwyr mudiadau ieuenctid a Sefydliadau Llywodraeth Genedlaethol, gweithwyr ieuenctid, ymchwilwyr, a chynrychiolwyr pobl ifanc. Cwblhawyd cyfanswm o 159 o gyfweliadau, ac roedd rhwng tri a saith cynrychiolydd o bob aelod wladwriaeth. Roedd yr astudiaethau enghreifftiol yn cynnwys 14 o astudiaethau enghreifftiol hir ac 13 o astudiaethau enghreifftiol 'ciplun'. Y bwriad yma oedd adnabod y ffactorau allweddol mewn gwaith cymdeithasol, deall pam roeddent yn llwyddiannus, a sut mae gwaith ieuenctid yn creu gwerth ychwanegol ac o dan ba amgylchiadau mae gwaith ieuenctid yn llwyddiannus. Datblygwyd casgliad o feini prawf sgrinio i adnabod astudiaethau enghreifftiol posib, a gafodd wedyn eu dosbarthu yn ôl system tair haen.

2.27 Mae cydnabyddiaeth nad yw'r rhain yn cynnig trosolwg cynhwysfawr o weithgarwch gwaith ieuenctid yn yr UE, ond eu bod yn ddarlun o'r hyn sy'n digwydd.

2.28 O ran diffinio gwaith ieuenctid, mae'r astudiaeth yn barnu mai ei dair nodwedd graidd yw fod ganddo ffocws ar bobl ifanc, ei fod yn cynnig datblygiad personol a'i fod yn seiliedig ar gyfranogiad gwirfoddol.

2.29 Yn ôl yr astudiaeth mae gwaith ieuenctid yn ceisio hyrwyddo datblygiad personol gan roi sylw arbennig i hunan-benderfyniad, hunan-hyder, hunan-barch, a chymdeithasoli. Dylai datblygiad personol feithrin ymrymuso, ymryddhad, goddefgarwch, a chyfrifoldeb. Mae'r rhain yn arwain at gymryd rhan mewn cymdeithasau democrataidd, atal ymddygiad peryglus, a chynhwysiant a chydlynedd cymdeithasol.

2.30 Mae'r astudiaeth yn cynnig teipoleg er mwyn cofnodi'r mathau o weithgarwch gwaith ieuenctid a ffocws gwaith ieuenctid. Mae'r deipoleg hon yn cynnwys dwy echel, gyda'r bwriad o gofnodi'r rhan fwyaf o weithgarwch gwaith ieuenctid. Mae'r echel gyntaf yn ymwneud â gweithgareddau gwaith ieuenctid. Ar un pen yr echel ceir y grŵp targed penodol, ac ar y pen arall mae gwasanaethau cyffredinol. Mae'r ail echel yn ymwneud ag amcanion gwaith ieuenctid ac ar un pen y sbectrwm mae'n cynnwys nod cyffredinol datblygiad personol ac ar y pen arall ffocws ar y materion penodol iawn y mae'n dymuno rhoi sylw iddynt. Gallai fersiwn wedi'i haddasu o'r model hwn fod yn ddefnyddiol mewn trafodaethau ynghylch prif bwrpas a phwrpas eilaidd a darpariaeth wedi'I thargedu a darpariaeth gyffredinol.

2.31 Mae'n ddiddorol nodi fod yr astudiaeth yn dangos y bu cynnydd yn y galw dros y degawd blaenorol, a symudiad tuag at broffesiynoli a gweithwyr ieuenctid wedi'u proffesiynoli, ynghyd â mwy o bwyslais ar gydweithio gyda rhanddeiliaid eraill. Fodd bynnag, mae'r astudiaeth yn dangos hefyd y bu gostyngiad yn yr un cyfnod yn y cyllid pwrpasol a ddarparwyd ar gyfer gwaith ieuenctid, a gostyngiad yn y mathau mwy traddodiadol o waith ieuenctid. Efallai ei bod werth rhoi ystyriaeth i

ddatblygiadau o’r fath wrth ystyried cyd-destun gwaith ieuenctid yng Nghymru. Mae hefyd yn amlygu tyndra, neu ddatgysylltiad posib, rhwng pwrpas a chenhadaeth gwaith ieuenctid ar y naill law, a disgwyliadau o ran deilliannau ar y llall. Mae pryder fod disgwyl cynyddol i waith ieuenctid gyflawni’r hyn oedd yn y gorffennol yn gyfrifoldeb sectorau polisi eraill. Er bod ymwybyddiaeth gynyddol o gyfraniad posib gwaith ieuenctid, mae’r adroddiad yn dangos nad yw trefniadau cyllido wedi ymateb yn ddigonol i hynny.

2.32 Mae Hoyla (2012) yn cyflwyno trosolwg o waith ieuenctid yn y Ffindir, yr amcanion, seiliau cyfreithiol a’r esblygiad trwy newidiadau deddfwriaethol. Mae’r erthygl yn cyfeirio at enghreifftiau o fodelau gwahanol o waith ieuenctid y gellid eu hystyried yn rhan o adolygiad o gyllid gwaith ieuenctid yng Nghymru.

2.33 Gwneir y pwynt yn gynnar yn yr erthygl am bwysigrwydd cyfranogiad gwirfoddol pobl ifanc fel y sylfaen ar gyfer gwaith ieuenctid yn y Ffindir. Mae’n elwa ar waith Siurala (2001), cyn Gyfarwyddwr Ieuenctid yn Helsinki, sy’n diffinio gwaith ieuenctid fel rhywbeth sy’n cefnogi twf at ddinasyddiaeth a datblygu’r sgiliau ar gyfer dinasyddiaeth weithredol trwy annog pobl i chwarae rhan yn y farchnad waith, bywyd diwylliannol, a gwneud penderfyniadau cyhoeddus; trwy greu cyfleoedd i drafod materion fel hunaniaeth, gwybodaeth a materion moesol; a thrwy ymarfer a datblygu pedagogeg gyfranogol.

2.34 Er 1972 bu deddfwriaeth benodol ar waith yn y Ffindir ar gyfer gwaith ieuenctid, yn gyntaf trwy’r *Ddeddf ar Gymunedau Ieuenctid a Chymorthdaliadau Gwladwriaethol ar gyfer Gwaith Ieuenctid Dinesig*. Roedd hyn yn cynnwys Pwyllgorau Ieuenctid Dinesig yn gweithredu ar lawr gwlad, pwyllgorau gwaith ieuenctid rhanbarthol yn gyrff arbenigol, a Phwyllgorau Ieuenctid Cenedlaethol yn gweithredu o dan y Weinyddiaeth Addysg. O dan y Ddeddf, darparwyd cymorthdaliadau gwladwriaethol ar gyfer trefnu gwaith ieuenctid i awdurdodau lleol. Roedd y cymorthdaliadau gwladwriaethol hyn yn talu am gyflogau gweithwyr ieuenctid, costau rhentu cyfleusterau ieuenctid, a chostau

adeiladu a chynnal a chadw cyfleusterau ieuenctid. Mae deddfwriaeth yn y Ffindir yn caniatáu i awdurdodau lleol benderfynu sut i drefnu gwaith ieuenctid, ac nid yw'r cymorthdaliadau ond yn talu am ran o gostau gwneud hynny.

2.35 Mae Nieminen (2007) yn cyflwyno fframwaith damcaniaethol sylfaenol ar gyfer gwaith ieuenctid yn y Ffindir, gan elwa o waith nifer o awduron allweddol. Dywed mai prif swyddogaeth gwaith ieuenctid yw cymdeithasoli: helpu pobl ifanc i ddod yn aelodau o gymdeithas a diwylliant. Mae ail swyddogaeth yn ymwneud â ffurfio hunaniaeth pobl ifanc. Y drydedd swyddogaeth yw gwneud yn iawn am unrhyw ddiffygion a welwyd yn y ddwy swyddogaeth gyntaf, ac mae'r bedwaredd swyddogaeth yn ymwneud ag adnoddau a dyrannu. Yna mae'r astudiaeth yn elwa ar waith Haimalainen (2007) trwy amlygu pwysigrwydd pedagogeg gymdeithasol trwy gynnig sylfaen ddamcaniaethol gadarn ar gyfer gwaith ieuenctid. Gwneir y pwynt fod y gweithgareddau addysgol yn elfen nodweddiadol o fethodoleg gymdeithasol-bedagogegol o gefnogi unigolion, cymunedolrwydd, hunan-fyfyrdod, ac egwyddorion dysgu trwy brofiad.

2.36 Felly, mae rôl gwaith ieuenctid yn bwysig yn pwysleisio'r berthynas rhwng y dysgwr a'r byd o'u cwmpas a gall fod yn gymorth gwerthfawr gyda datblygiad personol ac addysg ffurfiol pobl ifanc yn yr ysgol. Mae cyfranogiad cymdeithasol a rheoli bywyd yn rhannau annatod o ddinasyddiaeth weithredol a mabwysiadu egwyddorion democrataidd. Mae Haimalainen (2007) hefyd yn gosod addysg ieuenctid yng nghyd-destun seicioleg gadarnhaol gan ei fod yn cefnogi twf personol wrth anelu at adeiladu hunaniaeth. Mae'r astudiaeth yn cyfeirio hefyd at bwysigrwydd cysyniad normaleiddio mewn pedagogeg gymdeithasol, fel ffordd o adfer cyfleoedd i bobl ifanc allai fod wedi colli rheolaeth o'u bywydau neu sy'n wynebu problemau eraill (Eriksson a Markstrom, 2000). Mae'r papur yn dadlau fod yr holl elfennau hyn yn nodweddion hanfodol o waith ieuenctid ac addysg ieuenctid. Mae'r papur yn cyfeirio at y gwahanol lwybrau sydd ar gael er mwyn ennill cymwysterau

proffesiynol trwy raglenni gradd, ôl-radd a galwedigaethol. Mae disgwyl i'r sawl sy'n ennill cymwysterau proffesiynol allu dysgu, ysbrydoli, cymell, ac addysgu, yn ogystal â threfnu gweithgareddau sy'n anelu at nodau a chynnig profiad (Makela, 2006). Mae'r astudiaeth yn barnu fod datblygu deddfwriaeth yn rheoli gwaith ieuenctid wedi gosod y seiliau ar gyfer gwaith ieuenctid yn y Ffindir heddiw.

**Archwilio Astudiaethau o Gymru**

2.37 Comisiynwyd 'Ymchwil i gyfrannu at ddatblygu'r strategaeth gwaith ieuenctid' gan Lywodraeth Cymru ac fe'i cynhaliwyd gan Wavehill Consulting yn 2020. Roedd gan yr ymchwil ddau brif amcan. Y cyntaf oedd hyrwyddo dealltwriaeth o natur ymyriadau gwaith ieuenctid effeithiol. Roedd hyn yn golygu casglu a chyflwyno tystiolaeth gyfredol am yr amrywiaeth o fodelau arfer gwaith ieuenctid o ansawdd sydd ar gael ar draws Cymru. Yr ail amcan oedd gweithio gyda'r Bwrdd Gwaith Ieuenctid Interim i ddatblygu damcaniaeth newid ar gyfer y strategaeth gwaith ieuenctid yn seiliedig ar y wybodaeth a gasglwyd trwy'r amcan cyntaf.

2.38 Mae'r canfyddiadau a amlinellir yn yr astudiaeth hon yn arddangos angen i gynnal adolygiad cyllido gwaith ieuenctid yng Nghymru. Amlygodd anghysonderau ar draws awdurdodau lleol ynghylch natur gwasanaethau gwaith ieuenctid a'r cyllid sydd ar gael a materion ynghylch argaeledd cyllid. Datblygodd yr astudiaeth ddamcaniaeth gan honni ei bod yn adnabod nifer o'r blaenoriaethau tybiedig y mae angen eu hystyried i gefnogi'r gwaith o ddatblygu model darparu mwy cynaliadwy ar gyfer gwaith ieuenctid yng Nghymru.

2.39 Defnyddiodd yr astudiaeth gymysgedd o ddulliau yn cynnwys cyfweliadau gyda rhanddeiliaid allweddol, a chanfyddiadau o ymchwil desg. Cynhaliwyd cyfanswm o 60 o gyfweliadau manwl gyda rhanddeiliaid, tri gweithdy damcaniaeth newid gydag aelodau'r Bwrdd Gwaith Ieuenctid Interim, grwpiau cyfrannu at y strategaeth, a grwpiau Gorchwyl & Gorffen, a dau weithdy damcaniaeth newid gyda

chynrychiolwyr pobl ifanc. Cynhaliwyd adolygiad llenyddiaeth yn edrych ar y prif themâu ymchwil, ynghyd ag adolygiad o ddata o'r sector a gasglwyd gan Lywodraeth Cymru.

2.40 Ymhlith y prif ganfyddiadau o'r ymchwil ynghylch natur gwasanaethau gwaith ieuenctid yng Nghymru yw fod y darlun yn anghyflawn. Er bod creu trosolwg o'r sector cynaledig yn bosib, roedd cael dealltwriaeth gynhwysfawr o'r hyn sy'n cael ei ddarparu ar draws y sector gwirfoddol yn llawer mwy heriol. O'r herwydd, cyflwynodd yr astudiaeth argymhelliad ynghylch yr angen i Lywodraeth Cymru ehangu cwmpas y data sy'n cael ei gasglu am waith ieuenctid yng Nghymru i gynnwys yr holl fudiadau gwaith ieuenctid.

2.41 Dangosodd y darlun a gafwyd o'r sector cynaledig beth anghysondeb ar draws awdurdodau lleol o ran maint a natur y gwasanaethau gwaith ieuenctid, nifer y bobl ifanc sy'n manteisio arno, a faint o arian sydd ar gael i'w gynnal. Roedd yr anghysondeb yn arbennig o amlwg mewn gwasanaethau gwaith ieuenctid yn y Gymraeg, lle y mae rhai awdurdodau lleol yn cynnig eu holl ddarpariaeth trwy gyfrwng y Gymraeg tra nad oes gan eraill unrhyw ddarpariaeth o gwbl. Cyflwynodd yr astudiaeth argymhelliad y dylid cynnwys gwybodaeth ynghylch gwasanaethau gwaith ieuenctid yn y Gymraeg yn y data a gesglir gan Lywodraeth Cymru.

2.42 Dywed yr astudiaeth y daeth materion ynghylch argaeledd cyllid i'r golwg trwy'r cyfweliadau gyda rhanddeiliaid, yn enwedig felly yn sgil y toriadau ar gyllid. Canlyniad hynny oedd bod llawer yn teimlo bod disgwyl iddynt wneud mwy gyda llai. Mae'r astudiaeth yn dangos peth rhwystredigaeth ar ran rhanddeiliaid o ran y pwyslais cynyddol ar waith wedi'i dargedu, ar draul gwasanaethau gwaith ieuenctid cyffredinol. Yn ogystal â semanteg, lleisir rhwystredigaeth nad yw gwaith ieuenctid yn cael ei wahaniaethu'n ddigonol o fathau eraill o weithio gyda phobl ifanc wrth ei esbonio mewn dogfennaeth strategol. Er hynny, datgelodd yr astudiaeth fod y rhan fwyaf o randdeiliaid yn fodlon â'r diffiniadau o waith ieuenctid a gynhwyswyd mewn dogfennau megis Gwaith

Ieuenctid yng Nghymru: Egwyddorion a Phwrpasau ac yn y Safonau Galwedigaethol Cenedlaethol (SGC). Mae'r adroddiad yn cyflwyno argymhelliad, yn seiliedig ar y dystiolaeth hon, ynghylch comisiynu ymchwil i'r cyfraniad a wneir gan waith ieuenctid mynediad agored, ond ar yr amod y byddai hyn yn sail i gyfiawnhau gwariant arno, yn y lle cyntaf.

2.43 Yna mae'r astudiaeth yn argymell y dylai Llywodraeth Cymru gymryd camau i sicrhau bod cynnig cyffredinol cyson mynediad agored ar gael i bobl ifanc ledled Cymru. Amlygwyd materion ynghylch darparu gwasanaethau gwaith ieuenctid yn lleol, yn enwedig felly wedi i fforymau strategol megis y Partneriaethau Plant a Phobl Ifanc ddod i ben. Mae'r adroddiad yn cyflwyno argymhelliad i Lywodraeth Cymru i ystyried sut orau y gellid gwella hyn.

2.44 Datblygodd y ddamcaniaeth newid fel rhan o'r broses ymchwil ac arweiniodd y gweithdai at adnabod nifer o flaenoriaethau tybiedig sydd eu hangen i gefnogi model darparu mwy cynaliadwy ar gyfer gwaith ieuenctid yng Nghymru. Roedd y cyntaf ohonynt yn awgrymu cryfhau'r seiliau deddfwriaethol ar gyfer gwaith ieuenctid. Un o'r agweddau allweddol yn hynny o beth oedd *clustnodi* cyllid ar gyfer gwaith ieuenctid mynediad agored. Roedd hefyd yn cynnwys sefydlu isafswm safonau ar gyfer gwasanaethau gwaith ieuenctid y byddai'n rhaid i awdurdodau lleol gadw atynt.

2.45 Nodwyd fod ffurfio Corff Cynrychioliadol Cenedlaethol ar gyfer gwaith ieuenctid a sicrhau rôl y Bwrdd Interim yn agweddau allweddol o'r arweinyddiaeth sydd ei hangen ar gyfer y sector. Byddai'r Corff Cynrychioliadol yn gweithredu ar lefel genedlaethol ar ran y sectorau cynaledig a gwirfoddol. Rôl y Corff Cynrychioliadol fyddai sicrhau gwell cydlynu, comisiynu gwasanaethau gwaith ieuenctid, cymryd cyfrifoldeb am sicrhau ansawdd, datblygu'r gweithlu, ac am ddenu cyllid allanol. Ar lefel fwy lleol, roedd gwella'r cydlynu ar wasanaethau ieuenctid a mwy o gydweithio rhwng awdurdodau lleol a'r sector gwirfoddol yn cael eu hystyried yn flaenoriaeth. O ran y gweithlu gwaith ieuenctid, roedd y

meysydd blaenoriaeth yn cynnwys ffocws ar sicrhau ei fod yn cael ei ddatblygu'n briodol i ddarparu gwaith ieuenctid o ansawdd uchel, a bod y gweithlu'n adlewyrchu demograffeg amrywiol Cymru. Roedd y blaenoriaethau eraill yn cynnwys gwneud gwell defnydd o ddata i lenwi bylchau yn y ddarpariaeth i ddiwallu anghenion lleol a gwella'r gwaith cynllunio ac adnoddi darpariaeth a gofalu fod pobl ifanc yn cyfrannu ar y lefel strategol.

2.46 Nod yr asesiad o werth economaidd Urdd Gobaith Cymru (Ymchwil Arad, 2018) oedd dangos gwerth economaidd cenedlaethol yr Urdd, ar draws holl weithgareddau'r mudiad. Mae'r rhain yn cynnwys yr Eisteddfod, yr Adran Chwaraeon, yr Adran Maes yn canolbwyntio ar weithgarwch rhanbarthol a chymunedol, a thair canolfan Llangrannog, Glan-llyn, a Chaerdydd.Mae'r adroddiad hwn yn awgrymu y gallai mesur effeithiau cymdeithasol a budd economaidd gwaith ieuenctid yr Urdd, er nad yw'n ffocws eu hymchwil, fod yn ganolbwynt ar gyfer astudiaeth bellach. Mae'r astudiaeth yn ddefnyddiol felly wrth sefydlu dangosyddion y gellir eu defnyddio i werthuso effeithiolrwydd economaidd gweithgareddau mudiad gwirfoddol mawr.

2.47 Edrychodd y fethodoleg a ddefnyddiwyd ar dri chategori o werth economaidd. Roedd y cyntaf yn edrych ar effeithiau uniongyrchol, yn cwmpasu gwariant uniongyrchol ar gyfer gweithgareddau adrannau'r Urdd ar nwyddau, gwasanaethau, a chyflogau staff. Edrychodd wedyn ar effeithiau anuniongyrchol, gan ganolbwyntio ar incwm a gwariant a gynhyrchwyd gan Eisteddfodau lleol a chenedlaethol yr Urdd, gweithgareddau chwaraeon, clybiau a chystadlaethau'r mudiad, a'r canolfannau. Yn olaf, rhoddodd yr astudiaeth ystyriaeth i effeithiau symbyledig, neu'r cyfraniadau i incwm a gwariant trwy gadwyn gyflenwi'r mudiad, oherwydd ei weithgareddau craidd. Cyfrifwyd yr effaith economaidd trwy ddefnyddio'r Effaith Lluosogydd Keynesaidd, gan roi ystyriaeth i'r incwm a gynhyrchwyd ar gyfer busnesau eraill oherwydd gwariant gan yr Urdd. Mae'r adroddiad yn dadlau fod y ffigyrau ar gyfer gwerth economaidd a ddeilliodd o'r asesiad hwn yn

adlewyrchu'r effaith economaidd mwyaf y mae disgwyl i gyfraniad y mudiad i'r economi ei greu.

2.48 Roedd y canfyddiadau yn seiliedig ar flwyddyn ariannol 2017/18, ac eithrio Eisteddfod yr Urdd a gymerwyd allan o ddata ar gyfer ymwelwyr ag Eisteddfod 2018 ym Mrycheiniog a Maesyfed. Mae'r astudiaeth yn cynnwys ymchwil sylfaenol ac eilaidd, data incwm a gwariant gan yr Urdd a rhanbarthau lleol, arolwg o gyflenwyr, arolwg staff, ac arolwg o ymwelwyr ag Eisteddfod yr Urdd 2018. Defnyddiwyd y data gwariant i adnabod yr effaith uniongyrchol yng Nghymru yn ogystal ag yn ardaloedd lleol y canolfannau. Rhoddwyd ystyriaeth hefyd i niferoedd ymwelwyr â'r Eisteddfod a data gwario canolog, yn ogystal ag amcangyfrif o wariant ymwelwyr yng nghanolfannau'r Urdd, gweithgareddau chwaraeon ac eisteddfodau lleol.

2.49 Defnyddiwyd data o arolwg staff yr Urdd i amcangyfrif pa gyfran o'r incwm a dderbyniwyd gafodd ei wario yng Nghymru ac yn eu hardaloedd lleol. Casglwyd data gwario oddi wrth chwe deg saith o'r 238 o gyflenwyr yr Urdd yng Nghymru, a 73 o'r 305 o aelodau'r staff.

2.50 Mae'r astudiaeth yn amlygu effeithiau ehangach gweithgarwch yr Urdd, gan nodi cyfraniadau a wneir i nifer o amcanion polisi llywodraeth, yn benodol felly flaenoriaethau strategol ar gyfer hyrwyddo'r Gymraeg. Er nad yw hyn yn rhan o gyfrifiad gwerth economaidd, mae'r adroddiad yn dangos gwerth cymdeithasol amlwg i nifer o amcanion strategaeth Cymraeg 2050. Mae'r rhain yn cynnwys hyrwyddo'r defnydd o'r Gymraeg ymhlith plant a phobl ifanc mewn ystod eang o gyd-destunau diwylliannol, cymdeithasol a hamdden; annog arferion iaith cadarnhaol ymhlith plant a phobl ifanc; darparu cyfleoedd i blant a theuluoedd ddefnyddio'r Gymraeg y tu allan i'r ysgol; datblygu sgiliau Cymraeg y gweithlu gwaith ieuenctid; a sicrhau bod ystod eang o weithgareddau diwylliannol a hamdden ar gael trwy gyfrwng y Gymraeg.

2.51 Mae'r adroddiad yn tanlinellu fod gwaith ieuenctid yn agwedd allweddol ar weithgarwch yr Urdd, gan nodi fod ei werth economaidd yn fater

sydd tu hwnt i gwmpas yr astudiaeth hon. Mae er hynny'n cyflwyno nifer o astudiaethau gwahanol, a thrafodir nifer ohonynt gan yr adolygiad hwn, sy'n dadlau y dylid rhoi ystyriaeth i'r agwedd hon wrth asesu gwerth yr Urdd i economi Cymru. Gallai cyfraniadau posib gynnwys lleihau'r perygl o ddisgyblion yn cael eu heithrio o'r ysgol, diweithdra ieuenctid, troseddu ieuenctid, a thangyflawni addysgol ymhlith pobl ifanc yng Nghymru. Mae'n awgrymu y gallai meintioli effeithiau cymdeithasol a buddion economaidd gwaith ieuenctid gan yr Urdd fod yn ffocws ar gyfer astudiaeth bellach. Mae'r astudiaeth hefyd yn amlygu gweithgarwch yr Urdd o ran prentisiaethau ar gyfer pobl ifanc, gan ddangos y cyflogwyd tri deg chwech o bobl ifanc yn brentisiaid yn 2017/18, gan osod targed o gynyddu hyn i gant erbyn 2022, a dod yn brif ddarparydd prentisiaethau yn y Gymraeg yng Nghymru.

2.52 Mae Prosiect Ysbrydoli Wrecsam a Sir y Fflint (Cynghorau Sir Wrecsam a Sir y Fflint 2021) yn cefnogi pobl ifanc 11-18 oed a chanddynt ymddygiadau hunan-niweidio. Ei brif ffocws yw rhoi'r wybodaeth a'r sgiliau i bobl ifanc gadw'n ddiogel, adeiladu gwytnwch a llesiant.

2.53 Dechreuodd y prosiect yn 2006 yn bartneriaeth rhwng Bwrdd Iechyd Prifysgol Betsi Cadwaladr (BIPBC) a Chyngor Bwrdeistref Sirol Wrecsam. Cafodd ei ariannu gan Gronfa'r Loteri Fawr. Roedd yn defnyddio dulliau gwaith ieuenctid i gefnogi pobl ifanc a dderbyniwyd i Ysbyty Maelor oherwydd ymddygiadau hunan-niweidio neu risgiau hunan-laddiad. Gweithiodd gweithwyr ieuenctid y prosiect yn agos gyda staff yr ysbyty a CAMHS, ac roedd cefnogaeth y prosiect yn parhau yn y gymuned wedi iddynt gael eu rhyddhau o'r ysbyty. Mae'r prosiect wedi esblygu ac erbyn hyn mae'n cynnal rhaglenni mewn ysgolion ac yn cefnogi pobl ifanc gyda rheoli diabetes. Erbyn hyn mae arian gan Gyngor Sir y Fflint yn galluogi Ysbrydoli i gefnogi pobl ifanc o Sir y Fflint.

2.54 Mae'r fethodoleg a ddefnyddiwyd gan awdurdodau lleol Wrecsam a Sir y Fflint i werthuso'r prosiect yn dangos posibiliadau modelau amgen o asesu gwerth ac effaith gymdeithasol yn y sector gwaith ieuenctid. Bwriedir i'r deipoleg gostio ddangos effaith a gwerth cymdeithasol nifer o ymyriadau gwahanol gan ddefnyddio methodoleg Awdurdod Cyfunol Manceinion Fawr (GMCA) i gynnig 'teimlad' cyffredinol o'r adenilliad ar y buddsoddiad. Cefnogwyd y gwaith o ddatblygu model y GMCA gan nifer o adrannau llywodraeth ganol (GMCA, 2023), ac fe'i mabwysiadwyd yn ganllawiau ategol i Lyfr Gwyrdd Trysorlys EM (gov.uk) yn 2014. Un o fanteision y fethodoleg yw ei bod yn cwmpasu'r gronfa ddata cost fesul uned, sy'n mynd trwy broses sicrhau ansawdd ac yn cael ei ddiweddaru'n rheolaidd, gyda throsolwg gan adrannau llywodraeth ganol (GMCA, 2023).

2.55 Roedd y data ansoddol a meintiol yn dangos deilliannau o bwys i bobl ifanc. Roeddent yn cynnwys:

- gwella hyder a hunan-barch pobl ifanc
- llai o ddigwyddiadau hunan-niweidio a llai o bobl ifanc yn cael eu derbyn i ysbytai oherwydd hunan-niweidio
- pobl ifanc yn dysgu sut i reoli risg
- galluogi pobl ifanc i gymryd rhan mewn gweithgareddau grŵp
- helpu pobl ifanc i oresgyn symbyliadau ffobig a gorbryderon sy'n cyfyngu ar eu gallu i weithredu a datblygu o ddydd i ddydd
- pobl ifanc yn cael gwell rheolaeth ar eu hemosiynau a gwell perthnasoedd gyda'u teuluoedd
- pobl ifanc a chanddynt hanes o ymddygiad gwrth-gymdeithasol neu anghenion camddefnyddio sylweddau yn priodoli newidiadau cadarnhaol i'r cysylltiad a gawsant gydag Ysbrydoli.

2.56 Roedd y dulliau meintiol yn cynnwys arolwg o bobl ifanc fu'n rhan o'r prosiect i gasglu barn ar ddeilliannau ac unrhyw feysydd y gellid eu gwella. Cynhaliwyd adolygiad desg o fonitro data ac adroddiadau gwerthuso blaenorol hefyd. Datblygwyd offeryn arolwg i gasglu data ar

20 person ifanc. Gwnaed hyn i gyfrannu at ddatblygu'r dadansoddiad costio yn y lle cyntaf, ond hefyd i driongli mewnwelediadau am ddeilliannau y gellid eu priodoli i Ysbrydoli, a newidiadau mewn hwyliau, gweithredu gwybyddol ac ymddygiadol.

2.57 Mae'r dadansoddiad costio yn cynnig 'teimlad' o'r adenilliad ar y buddsoddiad. Mae'n ystyried deilliannau caled penodol e.e. newidiadau o ran derbyniadau i ysbytai, camddefnyddio cyffuriau ac alcohol, llai o bobl yn hunan-niweidio, neu derbyn cyfleoedd gwaith neu addysg. Mae'n priodoli newidiadau i fewnbwn Ysbrydoli. Dywed y gwerthusiad fod y ffigwr yn un ceidwadol gan nad yw ond yn ystyried achosion a gaewyd yn llwyddiannus, ac nid unrhyw ddeilliannau sy'n digwydd yn ystod gwaith achos, neu achosion a gaewyd am resymau eraill. Nid yw data ynghylch effeithiau rhaglenni llesiant emosiynol a gyflwynir mewn ysgolion, a gwella gwytnwch ariannol mewn teuluoedd yn cael eu cynnwys ychwaith. Nid yw data ynghylch galwadau am ambiwlansys yn cael eu cynnwys. O ran mesur newidiadau mewn hwyliau ac ymddygiad, defnyddiodd y prosiect y Raddfa Ymdopi ar gyfer Plant a Phobl Ifanc (CSCY), gan ail-adrodd asesiadau gwaelodlin wrth gau achosion. Amlygwyd gwelliannau o ran datrys problemau, hwyliau, manteisio ar wasanaethau cymorth, a llai o gamymddygiad. Roedd deilliannau eraill y prosiect yn cynnwys llai o ddefnydd o gyffuriau ac alcohol, llai o dderbyniadau i ysbytai, ar gyfer hunan-niweidio, a llai o dderbyniadau i wasanaethau iechyd meddwl Haen 4.

2.58 Y deipoleg gostio a ddefnyddir yw un y Weinyddiaeth Dai, Cymunedau a Llywodraeth Leol ar gyfer y gyfrifiannell teuluoedd cythryblus. Diweddarwyd cronfa ddata cost fesul uned Awdurdod Cyfunol Manceinion Fawr (GMCA) yn yr Haf 2022. Fe'i datblygwyd gyntaf yn 2012 i gynorthwyo partneriaid i ddiwygio'r ffordd y maen nhw'n darparu gwasanaethau cyhoeddus. Mae'n cynnwys costau ar draws sawl thema gan gynnwys troseddu, addysg a sgiliau, cyflogaeth ac economi, yr amgylchedd, tân, iechyd, tai, a gwasanaethau cymdeithasol. Rhennir y costau yn dri math o werthoedd:

- Gwerth ariannol: costau ar werthoedd sy’n cael eu gosod ar asiantaethau sector cyhoeddus ac sy’n ymwneud â gwariant cyhoeddus.
- Gwerth economaidd: costau neu arbedion sy’n cael eu gosod ar unigolion, gweithwyr, neu’r economi ehangach.
- Gwerth cymdeithasol: enillion ehangach i unigolion a/neu cymdeithas, megis gwelliannau mewn iechyd a llesiant, llai o lygredd awyr neu well deilliannau amgylcheddol, gwell mynediad at drafnidiaeth neu wasanaethau cyhoeddus, a gwell diogelwch/llai o droseddu.

2.59 Mae’r adroddiad yn cynnig darlun cadarnhaol o Ysbrydoli gan ddweud ei fod yn cyfrannu at ddeilliannau cadarnhaol o bwys i bobl ifanc, yn deillio o’r data ansoddol a meintiol. Atgyfnerthir y neges hon yn y dadansoddiad o’r adroddiadau monitro a’r hyn a elwir yn ddadansoddiadau manwl o 20 achos a gaewyd.

2.60 Dywedodd y gwerthusiad fod y prosiect wedi cyfrannu at wella hunan-hyder, hunan-barch, ac ymdeimlad o berthyn. Roedd y themâu hyn i’w gweld hefyd yn y cyfweliadau gyda thîm y prosiect a phartner sefydliadau, oedd hefyd yn cyfeirio at wella hwyliau, llai o orbryder, cymdeithasu a gwneud ffrindiau. Dywedodd ymatebwyr fod y gweithwyr yn gyfeillgar ac yn bobl y gellid ymddiried ynddynt, a’u bod yn gallu ymgysylltu’n gyflym gyda phobl ifanc, a bod hyn yn un o brif gryfderau’r prosiect. Ar gyfer y bobl ifanc, roedd hyn yn un o brif nodweddion y prosiect, o gymharu â gwasanaethau eraill yr oeddent wedi’u defnyddio. Roedd gweithio mewn ffordd oedd yn cael ei harwain gan bobl ifanc, tra ar yr un pryd yn cydnabod a meithrin cryfder, galluoedd a diddordebau pobl ifanc, ynghyd â natur wirfoddol yr ymgysylltu yn cael eu hystyried yn gryfderau hefyd.

**Casgliadau**

2.61 Er bod astudiaeth yr UE yn dangos tueddiad cyffredinol tuag at waith wedi'i dargedu, sy'n cael ei atgyfnerthu gan lawer o'r astudiaethau eraill, mae'n ymddangos fod y gwaith wedi'i dargedu yn cynnig ei hun yn fwy hwylus i ymdrechion i fesur cyfraniad gwaith ieuenctid, yn hytrach na gwaith ieuenctid mynediad agored. O feddwl am yr olaf yn arbennig, mae tystiolaeth am effaith a gwerth economaidd yn brin, ac mae'n ymddangos fod hon yn gryn her i'r sector. Mae'r astudiaethau wedi dangos cyfraniad gwaith ieuenctid ar draws meysydd polisi cyhoeddus. Fodd bynnag, efallai y bydd diffyg digon o ddata am effaith gwaith ieuenctid cyffredinol o gymharu â gwaith wedi'i dargedu, yn arwain parhad y tueddiad hwnnw tuag at beth sy'n symlach i wneuthurwyr polisi ei fesur, wrth ymateb i graffu ynghylch pwysau ar y pwrs cyhoeddus.

2.62 Yn ogystal â'r cyferbyniad hwn yn y ffordd y caiff darpariaeth gyffredinol ac ymyriadau wedi'u targedu eu mesur, mae nifer o'r astudiaethau yn cyfeirio at rôl y gwasanaeth ieuenctid yn gwneud yn iawn am doriadau i wasanaethau eraill. Gellir ystyried hyn yn ddarlun o hyblygrwydd a chymhwysedd gwasanaeth sy'n canolbwyntio ar ac yn cael ei arwain gan bobl ifanc.

2.63 Er y cynhwysir peth data cychwynnol yn yr astudiaeth o'r Iwerddon ynghylch anghenion pobl ifanc yng Ngweriniaeth Iwerddon, o gymharu ag aelod wladwriaethau eraill yn yr UE, prin yw'r ymdrechion i weld a yw'r cyllid a neilltuir yn ddigonol i sicrhau darpariaeth briodol i ddiwallu'r anghenion hynny. Nid yw'r astudiaeth yn ystyried y berthynas rhwng gwaith ieuenctid a'r iaith Aeleg nac yn edrych ar sut mae un yn effeithio ar y defnydd o'r llall. Mae hon yn agwedd ar waith ieuenctid sydd o bwys arbennig yng Nghymru ac mae'n ymddangos ei bod yn cyfrannu at ddatblygu ffordd arbennig o weithio sy'n adlewyrchu ei natur unigryw o ran gwasanaethau gwaith ieuenctid y dylid ei hystyried yng nghyd-destun yr asesiad o werth economaidd yr Urdd (2018). Mae adroddiad yr Urdd yn dangos gwerth cymdeithasol amlwg i nifer o amcanion

strategaeth Cymraeg 2050 ac mae'n awgrymu y gallai meintioli effeithiau cymdeithasol a buddion economaidd gwaith ieuenctid gan yr Urdd fod yn ffocws ar gyfer astudiaeth bellach.

2.64 Mae astudiaeth yr UE yn ddefnyddiol yn amlygu ym mha rai o aelod wladwriaethau'r UE y mae gan waith ieuenctid statws mwy diogel a chyfreithiol gadarn, ynghyd â gwybodaeth gyffredinol ynghylch ffynonellau cyllid ar draws aelod wladwriaethau'r UE. Nid yw cwmpas yr astudiaeth yn caniatáu unrhyw archwilio manwl ar ddigonolrwydd dyraniadau cyllidol, na'r hyn fyddai'n cael ei ystyried yn ddigonol i gynnal darpariaeth gyffredinol ac wedi'i thargedu ymhob un o aelod wladwriaethau'r UE. Fodd bynnag, mae'r drefn gyllido a ddefnyddir yn y Ffindir trwy neilltuo ei gwasanaethau ieuenctid a'u lle canolog ym mholisi addysg yn haeddu cael sylw pellach wrth ystyried cyllido gwasanaethau ieuenctid yng Nghymru.

2.65 Mae nifer fechan o astudiaethau yn ffocysu ar feintioli gwerth economaidd gwaith ieuenctid trwy ddefnyddio methodolegau megis CBA ac SROI, a ffactora amser gwirfoddolwyr. Mewn rhai sefyllfaoedd, caiff y cyfrifiad ei amcangyfrif dros gyfnod estynedig o amser. Fodd bynnag, nid yw'r astudiaethau yn ystyried materion cynaliadwyedd hirdymor y gwasanaethau gwaith ieuenctid presennol a'u modelau cyllido, na sut ellid eu gwella. Nid yw prosesau gwneud penderfyniadau ynghylch dyrannu cyllid ar lefelau cenedlaethol, rhanbarthol a lleol yn cael sylw manwl yn yr astudiaethau, er enghraifft sut ddefnyddir data i adnabod meysydd blaenoriaeth, a sut mae'r rhain yn plethu i gynlluniau strategol, cynlluniau, asesiadau o anghenion ac amcanion polisi.

2.66 Pan mae'r adolygiadau yn amlygu rôl mecanweithiau cyllido o safbwynt Cymru nodir argymhellion clir sy'n dangos yr angen am ddealltwriaeth o'r mecanweithiau cyllido ac am drosolwg strategol o waith ieuenctid. Hefyd, y potensial, yn y dyfodol, i archwilio effeithiau economaidd a chymdeithasol yn y sectorau gwirfoddol a chynaledig yng Nghymru.

2.67 Mae rôl pobl ifanc wrth wneud penderfyniadau ar ddyrannu cyllid yn thema amlwg mewn lleiafrif o'r astudiaethau yn unig. Yn astudiaeth ymchwil Llywodraeth Cymru rhoddir mwy o sylw i'r agwedd hon, yn unol ag egwyddorion allweddol gwaith ieuenctid yng Nghymru a atgyfnerthir gan yr UNCRC.

2.68 Mae sawl astudiaeth yn cyfeirio at effaith yr argyfwng ariannol, ynghyd ag at benderfyniadau polisi cyhoeddus ar doriadau ariannol i gyllid mudiadau gwaith ieuenctid. Fodd bynnag, nid yw unrhyw un o'r astudiaethau yn manylu ar hyn, nac ar gwestiynau rôl mudiadau nad ydynt yn cael eu hariannu gan y wladwriaeth, megis rhai yn y sector gwirfoddol, yn llenwi'r bylchau sy'n ymddangos yn y ddarpariaeth.

2.69 Mae themâu digonolrwydd cyllidol a'r mecanweithiau ar gyfer dyrannu cyllid ar lefelau cenedlaethol a lleol yn feysydd allai gael eu harchwilio'n fanwl yn holl gamau'r astudiaeth hon. Mae cwmpas yr astudiaeth yn galluogi archwiliad fanwl o'r fath. Mae hefyd yn golygu y gellir archwilio themâu megis rhan pobl ifanc yn y broses gwneud penderfyniadau ynghylch cyllid ar gyfer gwaith ieuenctid yng Nghymru, ac effeithiau toriadau mewn cyllid cyhoeddus ar gyfer gwaith ieuenctid. Mae'r gymysgedd bragmataidd o ddulliau a ddefnyddir gan y tîm ymchwil yn caniatáu nid yn unig ar gyfer dadansoddiad meintiol o faterion cyllidol o ran y ffordd y mae gwaith ieuenctid yng Nghymru yn cael ei ariannu. Mae hefyd, trwy ddefnyddio dulliau ansoddol, yn caniatáu dealltwriaeth o'r darlun lleol o ran y ffyrdd y caiff y gwasanaeth ieuenctid ei gynnal yn ariannol. Mae'r astudiaeth yn gallu edrych hefyd ar gyllid ar gyfer gwaith ieuenctid yn y sector gwirfoddol ar lefelau cenedlaethol a lleol, gan geisio cael gwell dealltwriaeth o ystod ac amrywiaeth ffynonellau cyllido ar draws y sectorau gwirfoddol a statudol. Wrth wneud hynny, bydd yn adlewyrchu safbwyntiau a phrofiadau'r prif wneuthurwyr polisi, yn ogystal â'r defnyddwyr gwasanaethau, a'r rheolwyr gwasanaethau hynny a effeithir gan eu penderfyniadau. Mae'r astudiaethau sy'n cael eu hystyried yn yr ACD hwn yn cynnig llawer o ran sefydlu naratif o gyfraniad gwaith ieuenctid ar draws nifer o feysydd polisi cyhoeddus.

Mae agweddau o bob un ohonynt all helpu cyfrannu at a llywio'r ffordd yr eir ati i gynnal yr adolygiad hwn o gyllid gwaith ieuenctid. Caiff ehangder a dyfnder arfaethedig yr astudiaeth hon, a'r bwriad i deilwra dynesiad arbennig ar gyfer amgylchiadau gwaith ieuenctid yng Nghymru, eu rheoli gan sefyllfa yr amrywiaeth o bobl ifanc yng Nghymru, gan gynnwys eu hamrywiaeth ieithyddol, a'u hanghenion,. Mae'n ymateb hefyd i'r ffordd yr esblygodd gwasanaethau ieuenctid ar lefel genedlaethol a lleol trwy gydol y cyfnod ers datganoli. Mae'n anelu'n bendant iawn felly at 'ffordd Gymreig': ffordd o weithio sydd yn y lle cyntaf yn defnyddio cymysgedd gwirioneddol o ddulliau ymchwil cymdeithasol yn cyfuno dulliau ansoddol a meintiol i geisio deall y trefniadau ariannol presennol ar gyfer gwaith ieuenctid. Wrth wneud hynny, bydd yn hyrwyddo dealltwriaeth o bensaernïaeth gyllido briodol fyddai'n galluogi gwasanaethau ieuenctid i ddarparu gwasanaeth o ansawdd uchel i bobl ifanc yn unol â'i werthoedd craidd.

# 3. Methodoleg

## Trosolwg

3.1 Mae'r adran hon yn amlinellu'r fframweithiau methodolegol a'r dulliau casglu data a ddefnyddiwyd ar gyfer yr astudiaeth ddichonoldeb.

3.2 Y fframwaith methodolegol cyffredinol a ddefnyddiwyd ar gyfer cynnal yr astudiaeth ddichonoldeb oedd cynllun ymchwil pragmataidd (Creswell, 2017; Feilzer, 2010) sy'n golygu defnyddio dulliau meintiol ac ansoddol o gasglu data yn ogystal â defnyddio sawl dull gwahanol o gasglu data, gan ddarparu casgliad cadarn o ddata sy'n caniatáu archwiliad o'r prosesau cymhleth, deinamig, a chymdeithasol mewn sefyllfa byd go iawn:

> 'The primary goal of pragmatism is to create practical knowledge that has utility for action for making purposeful difference in practice' (Goldkuhl 2012, cyfeirir ato yn Kaushik and Walsh, 2019, t11).

3.3 Y gwahanol ddulliau o gasglu data a ddefnyddiwyd yn yr astudiaeth hon oedd:

- cyfweliadau ansoddol a grwpiau ffocws
- cynnal arolwg a dadansoddiad ansoddol a meintiol o ymatebion
- dadansoddiad meintiol o ddata eilaidd cyhoeddiad ystadegol blynyddol Gwaith Ieuenctid Llywodraeth Cymru (y 'cyhoeddiad ystadegol blynyddol' fel y'i gelwir o hyn ymlaen), dyraniadau grant Strategol i Fudiadau Gwaith Ieuenctid Gwirfoddol (SVYWO) a dyraniadau Grant Cefnogi Ieuenctid.

3.4 Mae'r holl astudiaethau a adolygwyd yn yr ACD yn dangos fod nodau'r astudiaethau ymchwil yn amrywio a'u bod yn defnyddio fframweithiau damcaniaethol gwahanol ar gyfer dadansoddi.

## Astudiaeth Ddichonoldeb

3.5 Er mwyn mynd i'r afael â nodau'r astudiaeth ddichonoldeb, cynhaliwyd ymchwil mewn sampl o ardaloedd pedwar awdurdod lleol. Yr ardaloedd awdurdodau lleol a gynhwyswyd yn yr astudiaeth ddichonoldeb oedd:

i. Wrecsam
ii. Powys
iii. Abertawe
iv. Casnewydd.

3.6 Roedd yr ardaloedd hyn yn cynrychioli cyd-destunau gwahanol yng Nghymru – gwledig, trefol, a maestrefol, ac ystod o ardaloedd daearyddol ar draws Cymru. Roedd y gwaith hwn yn cynnwys awdurdodau lleol a sampl o fudiadau sector gwirfoddol ar lefelau lleol a chenedlaethol. Cynhaliwyd cyfweliadau ychwanegol gyda swyddog Llywodraeth Cymru a chynrychiolydd o Gymdeithas Llywodraeth Leol Cymru (WLGA).

3.7 Nid oes cyfeiriadur hollgynhwysol o wasanaethau gwaith ieuenctid yn yr ardaloedd dan sylw ac o'r herwydd mae'n anodd meintioli cyfanswm yr holl ddarpariaeth mewn ardal. Roedd ein strategaeth samplo yn archwiliol ei natur, ac fe'i cytunwyd gyda swyddogion a'n grŵp llywio. Roedd y strategaeth samplo wreiddiol yn bwriadu targedu pedwar prosiect ymhob gwasanaeth ieuenctid cynaledig a phedwar mudiad sector gwirfoddol yn gweithio o fewn ardal pob awdurdod lleol, er mwyn cael cyfanswm o 32 yn y sampl. Cafwyd anawsterau i ddod o hyd i fudiadau gwirfoddol ym Mhowys, ac roedd cynrychiolwyr mewn nifer fechan o enghreifftiau yn gwrthod cymryd rhan am resymau capasiti a llwyth gwaith. Fodd bynnag, pan gysylltwyd â mudiadau sector gwirfoddol yn yr ardal hon ac os oedd cynrychiolydd lleol y mudiad yn methu cymryd rhan, cymerodd eu cynrychiolydd cenedlaethol ran yn eu lle. Cynhaliwyd cyfweliadau ychwanegol gyda swyddogion Llywodraeth Cymru, y WLGA a mudiadau gwirfoddol cenedlaethol (Ffigur 3.1b).

## Ffigur 3.1: Cyfranogwyr Ymchwil Gwirioneddol – Cyfweliadau / Grwpiau Ffocws / Arolwg

| Ardal Awdurdod Lleol | Mudiad Sector Gwirfoddol | Darpariaeth Gwasanaeth Ieuenctid Statudol |
|---|---|---|
| **Powys** | Cyfwelwyd mudiadau cenedlaethol oherwydd yr heriau y byddai mudiadau MSG llai yn eu hwynebu wrth geisio cymryd rhan yn yr ymchwil. | - Tîm cyffredinol ALl Powys<br>- Rheolaeth a chyllid ALl Powys<br>- Uwch reolwyr ALl Powys<br>- Tîm cynhwysiant Powys |
| **Wrecsam** | - MSG Wrecsam: The Venture<br>- Partneriaeth Ieuenctid a Chwarae MSG Wrecsam<br>- EYST Wrecsam | - Rheolwyr gwasanaeth ieuenctid ALl Wrecsam<br>- Gweithwyr ieuenctid ALl Wrecsam |
| **Abertawe** | - Cyfweliad MAD Abertawe<br>- YMCA Abertawe<br>- Mixtup Abertawe<br>- EYST Abertawe | - Hwb ALl Abertawe (gweithredol)<br>- Rheolydd Hwb ALl Abertawe<br>- Rheolydd Hwb Cymorth Cynnar ALl Abertawe<br>- Swyddogion cyllid ALl Abertawe<br>- Tîm arweinyddiaeth ALl Abertawe |
| **Casnewydd** | - Casnewydd Byw<br>- Mind Casnewydd<br>- Casnewydd Maindee House<br>- EYST Casnewydd | - ALl Casnewydd (Tîm arweinyddiaeth)<br>- ALl Casnewydd (Tîm gweithredol) |
| **Cyfansymiau** | **11** | **12** |

Sylwer: cymerodd pob un ohonynt ran mewn un gweithgaredd ymchwil o leiaf - arolwg, cyfweliad, grŵp ffocws

## Ffigur 3.1b: Sampl - Cyfweliadau / Grwpiau Ffocws, Cyfweliadau Ychwanegol

| **Cyfweliadau Ychwanegol (7)** |
|---|
| Swyddog Llywodraeth Cymru |
| Cynrychiolydd y WLGA |
| CWVYS (cynrychiolydd cenedlaethol) |
| Urdd Gobaith Cymru (cynrychiolydd cenedlaethol) |

| |
|---|
| Gwobr Dug Caeredin (cynrychiolydd cenedlaethol) |
| Boys and Girls Clubs of Wales (cynrychiolydd cenedlaethol) |
| EYST (cynrychiolydd cenedlaethol) |

3.8 Aeth yr astudiaeth ddichonoldeb ymlaen i fapio'r wybodaeth a ddarparwyd ymhob ardal awdurdod lleol ar gyfer y sectorau statudol a gwirfoddol. Cafodd y wybodaeth a ddarparwyd gan y gwahanol sectorau ei thriongli er mwyn ystyried ansawdd a pherthnasedd y wybodaeth er mwyn cyflawni gofynion yr ymchwil yn effeithiol.

3.9 Er mwyn ystyried atebolrwydd am y cyllid sydd ar gael/a wariwyd ar waith ieuenctid yng Nghymru, edrychodd yr astudiaeth ar sut mae penderfyniadau ar gyllid a gwario'n cael eu gwneud trwy'r cwestiynau canlynol:

- Pwy mewn awdurdod lleol/mudiad sector gwirfoddol sy'n cymeradwyo gwariant?
- Sut allen nhw fod yn mapio'r anghenion i sicrhau cydnawsedd gyda'r gyllideb a ddyrannwyd?
- Sut mae pobl ifanc yn helpu llunio'r gyllideb?
- Adnabod systemau atebolrwydd am ddyraniadau arian gwaith ieuenctid - llywodraethiant ac arweinyddiaeth.
    - Yn enwedig felly i'r mudiad sectorau gwirfoddol: Sut maen nhw'n sicrhau y gallant gyflawni gofynion ffynonellau cyllido posib.
    - Sut maen nhw'n gwneud penderfyniadau ar ba gyllid i gynnig amdano – arian craidd/cyllid aelodau/y sector cyhoeddus cyfan / ffynonellau elusennol.
    - Sut mae'r mudiadau'n cael gafael ar gyllid ar lefelau lleol, rhanbarthol a chenedlaethol, gan gynnwys ceisiadau cystadleuol.
    - Adnabod unrhyw heriau wrth ddod o hyd i gyllid ar lefelau lleol, rhanbarthol a chenedlaethol. Chwilio am ffynonellau

cyllid ychwanegol megis cronfeydd elusennol sy'n cael eu defnyddio gan fudiadau.

- Lle'n briodol, ystyried trefniadau adrodd a gwerthuso sy'n adnabod gwerth cymdeithasol gwariant.

**Moeseg/GDPR**

3.10 Ymhob ffordd, cynlluniwyd yr ymchwil i gydymffurfio â phrotocolau ymchwil a amlinellir yn Siartr BERA ar gyfer Staff Ymchwil mewn Addysg (2012) a Chanllawiau Moesegol ar gyfer Ymchwil Addysgol (BERA, 2018). Mae'r holl ymchwil a wnaed gan y tîm ymchwil yn cydymffurfio â safonau moesegol cyfredol, gan gynnwys cydsyniad gwybodus, anhysbysrwydd, preifatrwydd, yr hawl i dynnu'n ôl, a pharch i'r unigolyn. Cafwyd cymeradwyaeth foesegol lawn ar gyfer yr ymchwil trwy Bwyllgorau Moesegol Prifysgol Cymru Y Drindod Dewi Sant a Wrecsam Glyndŵr ac fe gedwir at bolisïau GDPR.

3.11 Mae'r tîm ymchwil hefyd wedi ymrwymo'n llawn i Gonfensiwn y Cenhedloedd Unedig ar Hawliau'r Plentyn. Trwy wneud hynny mae'n cydnabod grym a dilysrwydd llais plant a phobl ifanc (Dahlberg & Moss, 2004; Hammersley, 2015) megis, er enghraifft, trwy sicrhau y ceir cydsyniad gweithredol a gwybodus plant a phobl ifanc.

**Dulliau Meintiol**

3.12 Defnyddiwyd nifer o ddulliau meintiol gwahanol yn yr astudiaeth ddichonoldeb hon. Mae'r adolygiad meintiol yn canolbwyntio ar y setiau data sydd ar gael o'r cyhoeddiad ystadegol blynyddol ar gyfer y sector cynaledig yn unig ac heb gynnwys y sector gwirfoddol; mae'r cyhoeddiad ystadegol blynyddol yn cyflwyno gwybodaeth fanwl am y sector gwaith ieuenctid statudol (a elwir yn gynaledig yn yr astudiaeth hon) yng Nghymru (Llywodraeth Cymru, 2022. Mae dyraniadau grant YSG a SVYWO yn cael eu hystyried hefyd. Hefyd, cynhyrchwyd arolwg i ymchwilio'r cyllid a ddarperir ar hyn o bryd i'r sectorau cynaledig a gwirfoddol yn ardaloedd y sampl.

3.13 Defnyddiwyd ystadegau disgrifiadol wrth ymchwilio data'r cyhoeddiad ystadegol blynyddol rhwng blynyddoedd ariannol 2010-2011 a 2021-22. Bydd yr adolygiad disgrifiadol yn caniatáu i'r astudiaeth hon ymchwilio'r tueddiadau ariannol ac economaidd hydredol yn y sector gwaith ieuenctid cynaledig. Gan fod maint y sampl yn fach yn yr astudiaeth ddichonoldeb, ni fydd modelau data panel effaith gosod a dulliau amcanu gwahaniaeth-mewn-gwahaniaeth yn effeithiol yn amcanu perthynas achosol. Defnyddir dull adolygu disgrifiadol ar gyfer dadansoddi'r YSG a'r SVYWO. Mae hyn yn galluogi'r tîm i ddeall sut mae grantiau yn cael eu dyrannu i'r sector hwn ar hyn o bryd, a beth yw'r effeithiau tebygol ar gyfer y mudiadau hyn.

3.14 Defnyddir dulliau ansoddol a meintiol yn yr arolwg, ac mae sgriptiau'r arolwg a chyfweliadau i'w gweld yn Atodiad B ac C. Danfonwyd yr arolwg at 24 mudiad wedi'u gwasgaru'n gyfartal rhwng ardaloedd y pedwar awdurdod lleol, 11 mudiad sector gwirfoddol ac 13 mudiad sector cynaledig. Derbyniwyd cyfanswm o 8 ymateb, sef cyfradd ymateb o draean. Daeth mwyafrif (6) yr ymatebwyr o'r sector cynaledig, sydd ddim yn cynnig ymateb digon cynrychioliadol o'r sector gwirfoddol. Hefyd, oherwydd maint bychan y sampl yn yr arolwg, mae'n debyg y bydd y canlyniadau'n cael eu heffeithio gan dueddiad sampl ymatebwyr a gwblhaodd yr arolwg. Fodd bynnag, cafodd canlyniadau'r arolwg eu crynhoi at ei gilydd ac adroddir y ffigyrau yn adran y canlyniadau meintiol. Adroddir canlyniadau'r tri maes adolygu meintiol uchod yn Adran 4.

**Dulliau Ansoddol**

3.15 Defnyddiwyd cyfweliadau a grwpiau ffocws lled-strwythuredig yn brif ddulliau casglu data gyda'r sectorau gwirfoddol a chynaledig. Mae Atodiad C yn amlinellu'r cwestiynau ar gyfer y cyfweliadau/grwpiau ffocws ar gyfer y sectorau gwirfoddol a chynaledig.

## Ffigur 3.2 Nifer y cyfweliadau, grwpiau ffocws a chyfranogwyr

| | Nifer a gynhaliwyd (n) | Cyfranogwyr o'r sector gwirfoddol (n) | Cyfranogwyr o'r sector cynaledig (n) |
|---|---|---|---|
| **Cyfweliadau** | 22 | 10 | 10 |
| **Grwpiau ffocws** | 8 | 6 | 14 |

3.16 Mae Ffigur 3.2 yn cyflwyno manylion cynrychiolaeth o'r sectorau gwirfoddol a chynaledig yn y cyfweliadau a'r grwpiau ffocws. Cafodd data o grwpiau ffocws a chyfweliadau a ddangoswyd yn Ffigur 3.2 ei recordio trwy ddefnyddio MS Teams a recordwyr llais, ac roedd ymchwilwyr yn gwneud nodyn o bwyntiau o bwys yn ystod y cyfweliadau a'r grwpiau ffocws. Wedi'r cyfweliadau, cafodd y recordiadau eu gwirio a'u glanhau ar gyfer eglurder cyn cael eu dadansoddi trwy ddefnyddio'r broses isod.

### Dadansoddi Data

3.17 Mabwysiadwyd dull dadansoddi thematig Braun a Clarke (2022; 2006) ar gyfer dadansoddi'r data ansoddol. Mae hyn yn cynnwys chwe cham o ddadansoddi a amlinellir isod.

- **Ymgyfarwyddo â'r set ddata**: Mae'r cam hwn yn golygu darllen ac ail-ddarllen y data, i ymgolli ynddo ac i ddod yn fanwl gyfarwydd â'i gynnwys, a gwneud nodiadau ar eich arsylwadau a mewnwelediadau dadansoddol cychwynnol, o ran pob darn unigol o ddata (e.e., trawsysgrif o gyfweliad) ac ar gyfer y set ddata gyfan.
- **Codio**: Mae'r cam hwn yn golygu cynhyrchu labeli cryno (codau) sy'n cofnodi a chyfleu nodweddion pwysig ar y data allai fod yn berthnasol wrth fynd i'r afael â'r cwestiwn ymchwil. Mae'n golygu codio'r set ddata gyfan, gyda dau gylch neu ragor o godio, ac wedi hynny, casglu'r holl godau a'r holl echdynion data perthnasol at ei gilydd ar gyfer camau dadansoddi diweddarach.

- **Cynhyrchu themâu cychwynnol**: Mae'r cam hwn yn golygu archwilio'r codau a'r data a gasglwyd at ei gilydd i ddechrau datblygu patrymau ystyr ehangach arwyddocaol (themâu posib). Yna mae'n golygu casglu data at ei gilydd sy'n berthnasol i bob thema ymgeisiol, fel y gallwch weithio gyda'r data ac adolygu hyfywedd pob thema ymgeisiol.
- **Datblygu ac adolygu themâu**: Mae'r cam hwn yn golygu cymharu'r themâu ymgeisiol gyda'r data a godiwyd a'r set ddata gyfan, i benderfynu eu bod yn adrodd stori gredadwy o'r data, ac un sy'n mynd i'r afael â'r cwestiwn ymchwil. Yn y cam hwn, caiff themâu eu datblygu ymhellach, sydd weithiau'n golygu eu bod yn cael eu rhannu, eu cyfuno neu eu gwaredu. Yn ein dull TA, caiff themâu eu diffinio'n batrwm o ystyr a rennir sy'n seiliedig ar gysyniad neu syniad canolog.
- **Mireinio, diffinio ac enwi themâu**: Mae'r cam hwn yn golygu datblygu dadansoddiad manwl o bob thema, penderfynu ar gwmpas a ffocws pob thema, penderfynu ar 'stori' pob un. Mae hefyd yn golygu penderfynu ar enw hysbysol ar gyfer pob thema.
- **Ysgrifennu**: Mae'r cam terfynol hwn yn golygu plethu at ei gilydd yr echdynion naratif a data dadansoddol a chyd-destunoli'r dadansoddiad o ran llenyddiaeth gyfredol.

3.18 Cafodd llyfr codio ei ddatblygu, sy'n cynnwys set o themâu rhagosodedig, i helpu gyda'r dadansoddi yn unol ag arfer dadansoddi thematig da (Braun and Clarke, 2006; 2022; 2023) (Atodiad D). Defnyddiodd y llyfr codio y themâu a awgrymwyd gan Lywodraeth Cymru o'r ddogfen fanyleb, data'r cyhoeddiad ystadegol blynyddol, a'r grŵp llywio. Cafodd pob set ddata eu dadansoddi ddwywaith, unwaith trwy ddadansoddi diddwythol gan ddefnyddio'r codau a'r themâu a gafodd eu hadnabod ymlaen llaw, ac unwaith trwy godio agored anwythol er mwyn adnabod unrhyw **themâu ychwanegol.** Bydd y set ddata yn cynnwys y trawsysgrifiadau o'r cyfweliadau a'r grwpiau ffocws.

# 4. Canfyddiadau

## Canfyddiadau Meintiol

4.1 Mae'r canfyddiadau meintiol a gyflwynwyd yn adolygu'r tueddiadau economaidd presennol o ran cyllido gwaith ieuenctid yn y sectorau gwirfoddol a chynaledig. Darperir ystadegau disgrifiadol yn seiliedig ar y setiau data sydd ar gael yn gyhoeddus ar hyn o bryd, gan gynnwys y Grant Cynnal Refeniw (GCR). Dosberthir y GCR gan Lywodraeth Cymru i Awdurdodau Lleol, fel rhan o Setliad Cyllid Llywodraeth Leol. Cyfrifir y GCR ar sail fformiwla sy'n rhoi ystyriaeth i ffactorau megis poblogaethau, demograffeg a gwledigrwydd. Mae Awdurdodau Lleol yn gwario eu cyllideb GCR yn unol â'u blaenoriaethau eu hunain. Mae adran nesaf yr adroddiad yn amlinellu'r canfyddiadau meintiol o dri maes: Yn gyntaf, adolygiad o'r cyhoeddiad ystadegol blynyddol yn manylu ar y sector gwaith ieuenctid cynaledig yng Nghymru a gyhoeddir gan Lywodraeth Cymru. Yn ail, dadansoddiad o ddata sylfaenol o'r arolwg a gasglwyd yn ystod yr astudiaeth ddichonoldeb hon. Yn drydydd, adolygiad o'r dyraniadau grant a wnaed o'r GCI a Grantiau Strategol i Fudiadau Gwaith Ieuenctid Gwirfoddol. Mae'n amlwg o'r ymatebion cyfyngedig i'r arolwg a gafwyd gan fudiadau'r sector gwirfoddol nad yw canlyniadau ein harolwg ond yn darparu data cyfyngedig y gallwn seilio canfyddiadau arno.

## Data'r Cyhoeddiad Ystadegol Blynyddol

4.2 Mae data'r cyhoeddiad ystadegol blynyddol yn casglu at ei gilydd ddata blynyddol ar gyfer y sector gwaith ieuenctid cynaledig gan bob awdurdod lleol yng Nghymru. Cafwyd dau weinyddydd ar gyfer yr archwiliad blynyddol. Casglodd Uned Data Llywodraeth Leol ddata gwaith ieuenctid blynyddol hyd at 31 Mawrth 2010, ac mae Gwasanaethau Gwybodaeth a Dadansoddol Llywodraeth Cymru wedi trefnu casglu'r data er y 1af o Ebrill 2010. Ni ellir cymharu data a gasglwyd cyn 2010-11 gyda data'r archwiliad presennol o waith ieuenctid. Roedd y data a gasglwyd gan yr Uned Data Llywodraeth

Leol yn caniatáu cynnwys aelodau yn eu niferoedd ‘cyrhaeddiad’ (nifer y bobl ifanc y gweithiwyd â nhw o fewn y gwasanaethau gwaith ieuenctid o gymharu â chyfanswm y boblogaeth ieuenctid). Diffiniwyd cyrhaeddiad i olygu ‘pobl ifanc a gofrestrwyd ar systemau Cyrhaeddiad awdurdodau lleol oedd yn weithredol yn ystod y flwyddyn’ (Llywodraeth Cymru, 2022, t. 2). Dywed data’r arolwg o don 2010-11 ymlaen nad yw awdurdodau lleol ond yn cael cynnwys pobl ifanc sydd wedi cofrestru ar y system Cyrhaeddiad. Felly, ar gyfer yr arolwg hwn mae ein cyfnod sampl o’r adolygiad hwn yn cynnwys blynyddoedd ariannol 2010-11 i 2021-22 yn gynwysedig.

4.3 Adolygwyd data’r cyhoeddiad ystadegol blynyddol ar gyfer ardaloedd y pedwar awdurdod lleol a gynhwyswyd yn y cam dichonoldeb hwn - Wrecsam, Powys, Abertawe a Chasnewydd – yn yr astudiaeth hon. Rydym felly’n addasu’r holl werthoedd enwol a adroddwyd yn y cyhoeddiad ystadegol blynyddol yn werthoedd real gan ddefnyddio’r Mynegai Prisiau Defnyddwyr (CPI) a gyhoeddir gan Y Swyddfa Ystadegau Gwladol, ac ail-ddewiswyd 2015 yn flwyddyn sail, oherwydd lefel sefydlog chwyddiant y gellid seilio dadansoddiadau pellach arni. Defnyddir y gwerth real o’r pwynt hwn ymlaen ac mae Atodiad E yn cynnwys y ffigyrau sy’n seiliedig ar y data a addaswyd. Mae’r amrywolion unigol a ddefnyddiwyd yn yr adolygiad hwn yn dilyn y diffiniadau a amlinellwyd gan y cyhoeddiad ystadegol blynyddol.

4.4 Adolygwyd tueddiadau incwm ar gyfer pob awdurdod lleol rhwng 2010-11 a 2021-22. Mae’r ffigyrau a ddangosir yn Atodiad E yn darparu manylion y dadansoddiad a gynhaliwyd. O’r dadansoddiad hwnnw, at ddibenion yr adroddiad hwn tynnwn sylw at y ffaith fod y tueddiad cyntaf yn dangos incwm yn gostwng o holl adrannau awdurdodau lleol i gefnogi gwaith ieuenctid. Er enghraifft, yn Ffigur E.1.2 mae Powys yn dangos cynnydd mawr mewn cyllid adrannol rhwng 2012-13 a 2015-16, yn cyrraedd uchafswm o £407,830 yn 2015-16. Y prif reswm am y codiadau yw cyllid Gwasanaethau Cymdeithasol, sy’n 79.3 y cant o’u cyllideb. Mae’r gostyngiad sy’n dilyn hefyd i’w briodoli i’r toriadau yn

incwm Gwasanaethau Cymdeithasol o £342,861 yn 2016-17 i £1,850 yn 2017-18. Gellir gweld tueddiad cadarnhaol o gyllid yn cynyddu yn Ffigur E.1.3, cyfanswm ffynonellau cenedlaethol, lle y mae'r cyllid yn ystod cyfnod y sampl yn codi ar gyfer yr holl awdurdodau lleol. Digwyddodd hynny oherwydd cyllid ychwanegol o Teuluoedd yn Gyntaf a'r GCI.

4.5 Mae Tabl 4.1 isod yn adrodd ar y cyfraddau twf cyfansawdd blynyddol real mewn incwm ar gyfer cyllid incwm wedi'i segmentu (gwahanol adrannau awdurdodau lleol) ac wedi'i agregu o'r sector cynaledig. Yn y sampl, mae incwm craidd real (hynny yw, cyllid a ddyrannwyd ar gyfer gwasanaethau gwaith ieuenctid o gyllidebau adrannol awdurdodau lleol, ac eithrio ffynonellau allanol wedi addasu ar gyfer chwyddiant) wedi gostwng 8.77 y cant ar gyfartaledd bob blwyddyn rhwng 2010-11 a 2021-22. Gwelwyd gostyngiad yn yr arian craidd a dderbyniodd yr holl wasanaethau ieuenctid yn y sampl oddi wrth yr awdurdod lleol, ac yng Nghasnewydd y gwelwyd y gostyngiad mwyaf ar draws cyfnod y sampl, sef 13.38 y cant, a chan Wrecsam yr oedd y gostyngiad blynyddol lleiaf mewn cyllid craidd, sef 3.05 y cant. Mae cyllid incwm o adrannau awdurdodau lleol (sy'n cynnwys Addysg, Hamdden, Gwasanaethau Cymdeithasol, Prif Weithredwr, a Thai) yn ddigon anwadal ar draws y pedwar awdurdod lleol yn y sampl hwn. Er enghraifft, derbyniodd Abertawe gyfanswm o tua £80,000 mewn cyllid adrannol rhwng 2011-12 a 2013-14, a gafodd ei dorri i £0 wedi hynny. Gwelir twf cadarnhaol mewn cyllid adrannol yn Wrecsam a Chasnewydd o flwyddyn i flwyddyn, sef cyfraddau twf cadarnhaol o 5.29 a 3.23 y cant yn eu tro. Mae'r twf cyllidol hwnnw yn deillio'n bennaf o Addysg sy'n darparu cyllid sylweddol o fewn y ddau awdurdod lleol.

**Table 4.1: Cyfraddau Twf Cyfansawdd Gwirioneddol Blynyddol Mewn Arian Incwm (2010-11 i 2021-22)**

| Awdurdod Lleol | Cyllideb Craidd y Gwasanaeth Ieuenctid | Cyfanswm Adrannau'r Awdurdod Lleol | Cyfanswm ffynonellau incwm eraill | Cyfanswm ffynonellau cenedlaethol | Incwm Loteri | Unrhyw ffynonellau eraill | Cyfanswm Incwm |
|---|---|---|---|---|---|---|---|
| Abertawe | -8.03% | -100.00% | - | 4.28% | - | - | 1.08% |
| Wrecsam | -3.05% | 5.29% | 8.38% | -0.28% | -100% | - | -2.84% |
| Powys | -10.60% | -19.54% | -100% | 13.07% | - | -21.96% | -2.25% |
| Casnewydd | -13.33% | 3.23% | -27.45% | -3.67% | - | - | -6.63% |
| Cyfartaledd | -8.77% | -27.76% | -45.28% | 3.35% | - | - | -2.66% |

Nodyn, gwerth cyfartalog cyfanswm incwm arall. Ffynhonnell: Cyfrifwyd yr holl werthoedd gan yr awdurdod o'r cyhoeddiad ystadegol blynyddol ar y sector gwaith ieuenctid cynaledig yng Nghymru.

4.6 Mae cyfartaledd cyfanswm yr incwm gwirioneddol ar draws awdurdodau lleol yn lleihau o flwyddyn i flwyddyn gan 2.66 y cant rhwng 2010-11 a 2021-22. Yn seiliedig ar y dadansoddiad uchod gwelir mai'r prif reswm am hynny yw'r gostyngiad gwirioneddol mewn cyllid craidd fel y nodwyd yn barod. Mae codiadau yn y cyllid trwy ffynonellau cenedlaethol a ffynonellau adrannol yn lleihau effaith y gostyngiad mewn incwm craidd. Yng Nghasnewydd y gwelwyd y gostyngiad blynyddol mwyaf yng nghyfanswm incwm, sef 6.63 y cant, o gymharu ag Abertawe a gafodd gynnydd blynyddol o 1.07 y cant. Mae gwahaniaethiau yn lefelau incwm yn debygol o effeithio gwasanaethau gwaith ieuenctid.

4.7 Dangoswn incwm adrannol awdurdodau lleol yn ganran o gyfanswm yr incwm adrannol yn Atodiad E.5. Rhennir yr incwm adrannol yn bedwar maes: addysg, hamdden, gwasanaethau cymdeithasol ac arall, a gall ddibynnu ar ba gyfarwyddiaeth sy'n cartrefu'r gwasanaeth ieuenctid cynaledig. Gwelodd awdurdodau Abertawe a Chasnewydd incymau adrannol amrywiol dros y blynyddoedd; addysg sy'n darparu'r gyfran

fwyaf o incwm adrannol, ac mae'n aml yn cyfrif am fwy nac 80 y cant o gyfanswm y cyllid adrannol. Ar y llaw arall, mae Wrecsam a Phowys yn derbyn cyllid gan bob un o'r pedwar maes a enwyd mewn cyfrannau amrywiol ar draws cyfnod y sampl. Mae proffil cyllido Wrecsam yn dangos amrywiadau mawr, a cheir dyraniadau gwahanol bob blwyddyn.

4.8 Mae'r ffigyrau yn Atodiad E.6 yn dangos ffynonellau incwm eraill ar gyfer pob awdurdod lleol yn y sampl hwn, gan gynnwys Iechyd, yr Heddlu, Cynghorau Tref a Chymuned, tîm Troseddu Ieuenctid, Camddefnyddio Sylweddau, a ffynonellau eraill. Yn anffodus, nodir y daw'r gyfran fwyaf o arian o 'ffynonellau eraill', sy'n golygu fod dadansoddi manylion y ffynonellau cyllido yn heriol. Yn olaf, daeth yr heddlu a chamddefnyddio sylweddau yn ddarparwyr cyllid llawer mwy er 2017 ar gyfer Abertawe a Wrecsam. Er y gallai fod cyfatebiaeth rhwng yr angen am y cyllid hwn, ni ellir gweld unrhyw berthynas achosol trwy ddadansoddiad disgrifiadol.

4.9 Yn Atodiad E.7 dangoswn yr incwm Ffynhonnell Genedlaethol ar gyfer pob awdurdod lleol. Yn ein sampl, gwelwn amrywiaeth dda o ffrydiau ariannu yn dod i mewn i bob awdurdod lleol, ond mae hyn yn bennaf o adrannau Llywodraeth Cymru. Mae hyn yn galluogi awdurdodau i ddod yn llai dibynnol ar un ffynhonnell cyllido.

4.10 Cyflwynir ffigyrau gwariant a gymerwyd o'r cyhoeddiad ystadegol blynyddol yn y ffigyrau yn Atodiad E.3, ac maent yn dangos gostyngiad yn y rhan fwyaf o feysydd gwariant awdurdodau lleol. Mae hyn yn ddisgwyliedig o ystyried y gostyngiad mewn arian incwm y cyfeiriwyd ato eisoes.

4.11 Mae'r data gwariant yn Nhabl 4.2 isod yn adrodd ar y cyfraddau twf cyfansawdd blynyddol gwirioneddol ar gyfer pob awdurdod lleol. Roedd cyfanswm y gwariant rhwng 2010-11- a 2021-22 wedi gostwng 3.54 y cant, ac yng Nghasnewydd y gwelwyd y gostyngiadau gwariant mwyaf, sef 6.74 y cant, ac yn Abertawe cynyddodd gwariant gan 1.55 y cant. Er bod incwm a gwariant wedi gostwng ar draws y sampl yn y cyfnod

hwn, mae'r gostyngiad cyfrannol mewn gwariant 0.88 pwynt canran yn fwy na'r gostyngiad cyfatebol mewn incwm.

4.12 Mae rhai posibiliadau allai esbonio'r gwahaniaeth am y ffaith fod incwm a gwariant yn gostwng ar gyfraddau gwahanol. Y cyntaf yw arbedion rhagofalol gan awdurdodau lleol, lle y mae gwariant yn cael ei dorri'n gyflymach nac incwm i sicrhau nad ydynt yn mynd i mewn i ddiffyg. Yn ail, oherwydd ansicrwydd am lefel yr arian grant allai gael ei roi gallai awdurdodau lleol dorri eu costau yn fwy nac incwm i sicrhau y gallant gyflawni eu cyfrifoldebau presennol. Yn olaf, gallai ffactorau eraill megis toriadau gwariant gorfodol, nad ydynt yn gysylltiedig ag incwm, fod yn gyfrifol am y gwahaniaeth hwn hefyd. Oherwydd cwmpas yr astudiaeth ddichonoldeb, ni fydd y gyfatebiaeth rhwng a'r achosion posib am y cyfraddau twf gwahanol mewn incwm a gwariant yn cael eu hymchwilio ymhellach yma, ond cynhelir astudiaethau pellach yng Ngham 2.

## Tabl 4.2: Cyfraddau Twf Cyfansawdd Gwirioneddol Blynyddol Mewn Gwariant (2010-11 i 2021-22)

Mae'r wybodaeth yn Nhabl 4.2 yn seiliedig ar ddata blynyddoedd ariannol ac mae'r holl ganrannau a ddefnyddir yn seiliedig ar rifau go iawn. Daw'r wybodaeth o'r cyhoeddiad ystadegol blynyddol.

| Awdurdod Lleol | Abertawe | Wrecsam | Powys | Casnewydd |
|---|---|---|---|---|
| Costau staffio & rheoli (%) | 2.89 | -1.84 | 0.94 | -6.37 |
| Costau staffio eraill (%) | -9.55 | -6.76 | -9.00 | -13.59 |
| Hyfforddiant Staff (%) | -3.22 | 11.44 | -6.76 | -30.61 |
| Gwariant Cyfalaf (%) | -100 | -100 | -100 | -100 |
| Gwariant adeiladu (%) | -4.34 | 5.01 | -16.19 | -5.96 |
| Adnoddau (%) | -11.62 | -12.69 | -3.34 | -2.55 |
| Cymorth Grant i'r Sector Gwirfoddol (%) | -100 | 9.48 | -4.43 | -100 |
| Grant Refeniw i Bartner (%) | 21.04 | -0.90 | -100 | - |
| Cyfanswm gwariant (%) | 1.55 | -3.04 | -5.93 | -6.74 |

4.13 Mae dadansoddiad o’r datganiad blynyddol yn dangos fod costau staffio wedi codi 2.89 y cant a 0.94 y cant ar gyfer Abertawe a Phowys yn eu tro ac wedi gostwng 1.84 a 6.37 y cant yn flynyddol ar gyfer Wrecsam a Chasnewydd. Priodolir y gwahaniaethau yn y gwariant ar staffio i’r lefelau staffio yn y gwahanol awdurdodau lleol (gweler Ffigurau 4.1 a 4.2 isod). Rhwng 2010-11 a 2020-21 torrodd Wrecsam a Chasnewydd nifer y staff llawn-amser a rhan-amser. Ar y llaw arall, mae Abertawe wedi cynyddu nifer y staff llawn-amser, sy’n cyfateb i’w cynnydd o 2.89 y cant yn eu costau staffio. Mae’r costau hyfforddiant cyfartalog blynyddol wedi gostwng i 7.3 y cant.

4.14 O ran nifer y rheolwyr a gweithwyr craidd rheng-flaen, ym Mhowys y gwelir yr amrywiaeth mwyaf yng nghymarebau rheolwyr i reng flaen o gymharu ag awdurdodau lleol eraill gan y collwyd 10 rheolydd rhwng 2014-2016. Ychydig newid a welwyd yn niferoedd rheolwyr ar draws y rhan fwyaf o awdurdodau lleol yn ystod cyfnod y sampl, ac mae niferoedd yn aros yn weddol gyson heb unrhyw gynnydd na gostyngiad mawr dros gyfnod y sampl. Fodd bynnag, mae nifer y gweithwyr craidd rheng-flaen wedi lleihau’n raddol dros gyfnod y sampl rhwng 2010-11 a 2021-22, er y cafwyd peth cynnydd bychan yn 2014-15 a 2015-16 ar gyfer Abertawe a Phowys. Mae hyn yn dangos fod y gymhareb staff craidd i reolwyr wedi lleihau dros y degawd diwethaf, sy’n golygu fod llai o staff i bob rheolwr.

## Ffigur 4.1: Nifer y rheolwyr yn gweithio i bob awdurdod lleol




Daw'r wybodaeth o'r cyhoeddiad ystadegol blynyddol. Mae rhifau'r blynyddoedd yn cyfeirio at flynyddoedd ariannol. Er enghraifft, mae pwynt data 2021 yn cyfeirio at flwyddyn ariannol 2021-22.

## Ffigur 4.2: Nifer y gweithwyr craidd rheng-flaen



Daw'r wybodaeth o'r cyhoeddiad ystadegol blynyddol. Mae rhifau'r blynyddoedd yn cyfeirio at flynyddoedd ariannol. Er enghraifft, mae pwynt data 2021 yn cyfeirio at flwyddyn ariannol 2021-22.

4.15. Wedi cyflwyno data ar staffio a chostau, bydd adran nesaf yr adroddiad hwn yn cynnwys adolygiad o ganlyniadau'r arolwg meintiol.

4.16. Danfonwyd yr arolwg a ddangosir yn Atodiad B at 24 mudiad wedi'u rhannu'n gyfartal rhwng ardaloedd y pedwar awdurdod lleol, 11 mudiad sector gwirfoddol a 13 mudiad sector cynaledig. Derbyniwyd cyfanswm o naw ymateb ac oherwydd maint bychan sampl yr arolwg, mae'n debygol y bydd y canlyniadau'n cael eu heffeithio gan ba ymatebwyr gwblhaodd yr arolwg. Mae canlyniadau'r arolwg yn cynnwys nifer fechan o ymatebwyr o'r sector gwirfoddol. O'r herwydd, nid oes disgwyl i'r canlyniadau roi darlun gwirioneddol o'r sector gwirfoddol. Fodd bynnag, casglwyd canlyniadau'r arolwg ynghyd, ac adroddir ar y ffigyrau yn adran y canlyniadau meintiol.

4.17. O ran gwasgariad daearyddol, roedd yr ymatebion yn awgrymu fod y rhan fwyaf o gyfranogwyr yn gweithio'n lleol, yn gweithredu'n rhanbarthol, a bod lleiafrif yn gweithredu'n genedlaethol. Mae'r rhan fwyaf o'r cyfranogwyr yn trefnu clybiau ieuenctid all weithredu mewn canolfannau cymunedol lleol, neuaddau neu mewn canolfannau ieuenctid. Mae eraill yn gweithredu mewn ysgolion neu golegau. Mae hanner yr ymatebwyr yn cynnal darpariaeth 'ddatgysylltiedig' neu 'allestyn'. Cynigir y gwasanaethau hyn mewn cymunedau lleol, heb ddefnyddio adeilad; maent yn aml yn cael eu galw'n waith ieuenctid "ar y stryd". Cymorth tai yw'r gwasanaeth a ddefnyddir leiaf, a dim ond hanner y mudiadau oedd yn nodi fod tai yn un o'u nodau.

4.18. O ran sefydlogrwydd cyllido yng Nghymru, mae'r canlyniadau'n awgrymu fod mudiadau gwirfoddol yn fwy tebygol o ystyried fod cyllid yn ansefydlog gan eu bod yn fwy tebygol o ddibynnu ar grantiau amrywiol. Mae'r ymatebion yn dangos hefyd, pan ofynnwyd sut hoffent

wneud trefniadau cyllido yn fwy sefydlog, fod ymatebwyr wedi dweud y gellid cynyddu arian craidd, a bod arian grant yn golygu gorfod newid natur y gwaith gan ddibynnu ar bwy sy'n darparu'r cyllid. (Ffigurau E.8.5 – E.8.7)

> "Mae arian craidd yn hollbwysig ond yn gymharol fach" (ymatebydd i'r arolwg)
>
> "Gallai arian craidd gael ei gynyddu eto" (ymatebydd i'r arolwg)
>
> "Rydym yn aml yn gorfod newid y model gwasanaeth i fodloni meini prawf arian grant, sy'n ansefydlog" (ymatebydd i'r arolwg).

4.19. Pan ofynnwyd am ffynonellau gwybodaeth am gyfleoedd ariannu, cyfeiriodd mudiadau at nifer o ffynonellau gan gynnwys, Prif Swyddogion Ieuenctid, cyfryngau cymdeithasol a Llywodraeth Cymru/awdurdodau lleol (Ffigur E.8.6). Bydd Cam 2 yn darparu rhagor o ddata ar hyn.

4.20. Nodir ymatebion ynghylch y rhwystrau rhag derbyn arian grant yn Ffigur E.8.7. Nodwyd ystod eang o rwystrau. Nododd ymatebwyr fod cylch blynyddol arian grant weithiau'n rhwystr rhag cael sefyllfa gyllido fwy cyson. Nodwn er hynny fod Llywodraeth Cymru fwy a mwy yn darparu grantiau ar gylchoedd ariannu tair blynedd. Yn ail, lefel yr arian craidd a'r amser mae'n gymryd i wneud ceisiadau grant yw'r ail rwystr mwyaf rhag gallu derbyn cyllid ymhlith ein sampl.

**Grant Strategol i Fudiadau Gwaith Ieuenctid Gwirfoddol**

4.21. Mae'r Grant Strategol i Fudiadau Gwaith Ieuenctid Gwirfoddol yn darparu cyllid craidd i fudiadau gwaith ieuenctid gwirfoddol. Mae data a ddarperir gan Lywodraeth Cymru (ond na chaiff ei adrodd oherwydd cyfrinachedd) yn amlinellu'r nodweddion canlynol. Adeg ysgrifennu'r adroddiad hwn, mae 12 mudiad yn derbyn cyllid yn 2022-23 a 2023-24. Cafwyd cynnydd o 5.9 y cant yng nghyfanswm enwol y cyllid o £726,598.30 i £769,470.29 rhwng 2022-23 a 2023-24. Y cyfanswm cyfartalog a dalwyd i bob ceisydd mudiad sector gwirfoddol yn 2022-23

yw £55,892.18, a £59,190.02 yn 2023-24. Oherwydd maint bychan y sampl yn yr arolwg, gwneir mwy o waith ymchwil ar y cyllid Grant Strategol i Fudiadau Gwaith Ieuenctid Gwirfoddol yn y cam nesaf. Hefyd, adeg ysgrifennu'r adroddiad hwn roedd cylch ychwanegol newydd o grantiau SVWYO ar gyfer hyd at £300,000 wedi cael ei agor a chyfeirir at hynny yn yr adroddiad terfynol.

**Canfyddiadau Ansoddol**

4.22 Cynhaliwyd cyfweliadau a grwpiau ffocws gyda chynrychiolwyr mudiadau gwaith ieuenctid sector gwirfoddol ar lefelau lleol a chenedlaethol a'r sector cynaledig ar draws ardaloedd y pedwar awdurdod lleol. (Y bobl a ymatebodd i gyfweliadau oedd gwirfoddolwyr, ymarferwyr, rheolwyr, ac uwch arweinyddion (gweler Ffigur 3.1 uchod). Mae Ffigur 3.2 yn cynnwys manylion am nifer y cyfweliadau, grwpiau ffocws a'r niferoedd ymhob un ohonynt. O'r data ansoddol helaeth a manwl a gynhyrchwyd, bu'n bosib adnabod a chymharu themâu ar draws y grwpiau hyn ac ar draws ardaloedd. Un o gryfderau'r fethodoleg ansoddol oedd awydd mudiadau i gymryd rhan, er enghraifft dyfyniad gan un mudiad gwirfoddol a nodwyd gan sawl un arall hefyd:

> "…rydym yn gobeithio o ddifrif y caiff ein meddyliau a'n sylwadau eu hystyried…" (person a gymerodd ran mewn cyfweliad)

4.23 Mae adran ganlynol yr adroddiad yn dangos y canfyddiadau ansoddol sy'n cael eu grwpio o fewn themâu cyffredinol yr astudiaeth ddi-chonoldeb, sef:

- cyd-destun sefydliadol
- pobl
- asesiad o anghenion
- cyllido mewnol
- gwybodaeth ehangach
- cyllido allanol

- monitro
- cryfderau a gwendidau

Mae pob thema yn adlewyrchu'r darlun cymhleth a rhyng-gysylltiedig o faterion a godwyd gan y sawl a gymerodd ran.

**Cyd-destun sefydliadol**

4.24 **Thema 1. Cyd-destun sefydliadol,—mae'r gwasanaeth ieuenctid yn wasanaeth amrywiol sy'n ceisio ymateb i anghenion cymaint o fudd-ddeiliaid gwahanol mor amrywiol â Llywodraeth Cymru, llywodraeth leol, cymunedau lleol, sefydliadau lleol a chenedlaethol fel ysgolion, y gwasanaeth heddlu a gwasanaethau iechyd**. . Mae'r safbwyntiau amrywiol hyn yn golygu fod pedagogeg gwaith ieuenctid yn cael ei effeithio gan ddylanwadau allanol wrth iddo geisio addasu ac ymateb i ofynion newidiol. Mae'r darn hwn o gyfweliad yn amlygu rhai o brofiadau newidiol pobl ifanc a ddaeth yn rhan o waith ieuenctid:

> 'Dylai ein llwybr atgyfeirio at help cynnar ac yna eu triage arwain at gyfarfodydd partneriaethau adnabod yn gynnar mewn ysgolion a dyna sut rydym yn dod i wybod am bobl ifanc' (gweithiwr ieuenctid yn y sector cynaledig).

4.25 Amlygwyd gofynion newidiol gwaith ieuenctid yn ein hadolygiad o'r cyhoeddiad ystadegol blynyddol, megis er enghraifft symud o ddarpariaeth mewn adeiladau i waith ar y stryd, ac fe gefnogwyd hynny mewn cyfweliadau a grwpiau ffocws o ran newidiadau yn y lleoliadau y mae gweithwyr ieuenctid yn ymgysylltu â phobl ifanc. Soniodd un person a holwyd am y defnydd o offeryn arbed arian er mwyn helpu'r mudiad i gael gwell dealltwriaeth o fuddion gwaith ieuenctid wedi'i dargedu. Defnyddir teclyn osgoi costau i asesu'r costau is sy'n deillio o ymyriadau sydd, er enghraifft, yn lleihau ymddygiad gwrth-gymdeithasol, yn atal camdrin yn y cartref, yn lleihau absenoldebau ysgolion a phobl ifanc yn cael gwaith. Meddai'r sawl a holwyd:

> ‘Pan wnaethom ni’r offeryn arbed arian, gwelwyd ein bod yn arbed £470,000 ar y ddau chwarter yn unig’ (gweithiwr ieuenctid yn y sector cynaledig).

4.26 Mae tystiolaeth o gyfweliadau a grwpiau ffocws yn awgrymu fod yr egwyddorion hyn, a amlygir ym mharagraffau 1.12 i 1.16 yn cael eu hymestyn, er enghraifft, mae’r ystod o leoliadau y mae gwaith ieuenctid yn digwydd ynddynt yn mynd yn fwy a mwy hyblyg ac mae llawer o’r gwaith yn cael ei dargedu at bobl ifanc a chanddynt nodweddion penodol yn hytrach na bod yn gyffredinol neu eu bod yn rhoi sylw i ddatblygiad holistaidd pobl ifanc fel y nodir hynny yn yr NOS. Mae faint o waith cyffredinol mewn canolfannau sy’n digwydd yn lleihau mewn rhai ardaloedd, yn ôl pob tebyg ar yr un pryd ag y mae darpariaeth wedi’i thargedu a’i chynllunio ymlaen llaw ar gyfer grwpiau penodol mewn ysgolion ac iechyd yn cynyddu. Amlygwyd yr hyblygrwydd a welir yn y gwaith:

> ‘Gwnaethom beilot mewn pentref trwy weithgaredd tebyg i gynhwysydd, wyddoch chi, felly symudwch o’ch adeilad. A chynhwysydd cadarn ac anturus, lle y gall pobl ifanc gael gwell ymdeimlad o berchnogaeth. Ni allant ei ddifrodi. Mae’n amhosib ond maen nhw’n hoffi hynny, cadernid y peth, y teimlad tu allan yna ac yn rhan gychwynnol y sesiwn mae’r chwarae, ac yna yn yr ail hanner mae’r sesiwn ieuenctid ond yr un staff sydd yn y ddwy’ (arweinydd sector gwirfoddol).

4.27 Mae ystod eang o fathau gwahanol o waith ieuenctid yn digwydd, ar un pen continwwm o fathau o waith, dywedodd un person o’r sector gwirfoddol a holwyd:

> ‘Rydyn ni’n fath bychan o fudiad datblygu cymunedol a’n bwriad yw dod â phobl ynghyd i greu cyfleoedd ar gyfer gwaith ieuenctid, cyfleoedd ar gyfer prosiectau newydd, ar gyfer plant lle maen nhw’n byw’.

4.28 Mae'r dystiolaeth o'n sampl yn awgrymu, yn yr un modd, yng nghyd-destunau'r sector cynaledig, fod y dulliau a ddefnyddir gan weithwyr ieuenctid yn newid, tuag at fwy o waith un ac un. Mae hyn yn aml yn digwydd wrth ymateb i'r niferoedd cynyddol o bobl ifanc sy'n profi gorbryder ac anawsterau ymddygiadol neu emosiynol, gan ddefnyddio llai o ddulliau cymunedol o wneud gwaith ieuenctid, gwaith grŵp, celfyddydau a diwylliant a chwaraeon neu weithgareddau corfforol yn eu cymunedau. Fe nodwyd fod y Bwrdd Partneriaeth Ranbarthol wedi darparu cyllid mewn un ardal i 'gefnogi pobl ifanc y gwelwyd eu bod angen cefnogaeth trwy ymyriadau emosiynol ac iechyd meddwl, ond oedd yn syrthio rhwng yr asiantaethau cyffredinol a'r asiantaethau gwaith wedi'i dargedu a CAMHS' (gweithiwr ieuenctid yn y sector cynaledig). Canlyniad y sefyllfa honno yw fod gwaith ieuenctid yn llenwi bwlch datblygol yn y ddarpariaeth.

4.29 Gellir disgrifio'r holl ddulliau gwahanol hyn o ddarparu gwaith ieuenctid y daethom ar eu traws yn waith ieuenctid fel y'i nodir yn Gwaith Ieuenctid yng Nghymru, Egwyddorion a Phwrpasau (CWVYS, 2022). Mae gwaith ieuenctid yng Nghymru yn llawn amrywiaeth a dylid dathlu hynny, ond mae'r diffyg cysondeb o ran pwrpas gwaith ieuenctid a'r defnydd amrywiol a wneir ohono yn aml yn seiliedig ar bwrpas y mudiad. Dylanwad arall ar y gwaith yw natur y cyllid sydd ar gael.

4.30 Mae'n ymddangos o'n grwpiau sampl fod gwaith ieuenctid wedi dod yn ymateb cyffredin i broblemau cymdeithasol, er enghraifft pryderon gyda chyfiawnder ieuenctid mewn cymuned, ffurfio hunaniaeth, cynhwysiant neu bryderon am dai neu iechyd meddwl pobl ifanc, neu'n ymateb i ryw fath o her neu drawma personol. O'r herwydd, mae natur penodol cyllid grant sy'n canolbwyntio ar dargedau yn ei dro yn gallu dylanwadu ar brif bedagogeg gwaith ieuenctid, gan ddod yn bedagogeg argyfwng yn hytrach na'r pwrpas a nodwyd iddo sef bod yn broses o addysg bersonol a chymdeithasol fel y'i diffinnir yn y Safonau Galwedigaethol Cenedlaethol ar gyfer Gwaith Ieuenctid (CLD Scotland, 2019). Meddai un person a gymerodd ran:

> ‘Rydym wedi comisiynu elusen yn y gorffennol i ddarparu gwasanaeth digartrefedd i bobl ifanc ar ein rhan. Fy nealltwriaeth i yw ei fod yn cael ei adolygu ar hyn o bryd. Nid yw’n dilyn felly y bydd yn parhau [fel y mae], ond felly y bu pethau am yr ychydig flynyddoedd diwethaf’ (Rheolydd sector cynaledig).

4.31 Mae mudiadau sector gwirfoddol cenedlaethol a lleol yn cyflawni rôl hollbwysig yn arweinyddiaeth a chyflwyno gwaith ieuenctid ledled Cymru, gan gyfrannu at gynllunio, darparu a gwaith partneriaeth. Mae’n bwysig nodi tystiolaeth gan swyddogion fod Llywodraeth Cymru fwy a mwy yn darparu cyllid mewn cylchoedd dwy neu dair blynedd. Er gwaethaf hynny, dywedodd un rheolydd:

> ‘Rydym yn ceisio cael cymysgedd o ran incwm a chyllid, ac allwn ni ddim dibynnu, er ein bod yn hynod ddiolchgar amdano, allwn ni ddim dibynnu ar gyllid Llywodraeth Cymru oherwydd pwy a ŵyr. Nid yw hwnnw byth ond yn ddangosol, nid yw ond ar gael o flwyddyn i flwyddyn. Ymm, felly does gennym ni mo’r moethusrwydd o gynllunio ymhellach na hynny ymlaen’ (Rheolydd sector gwirfoddol).

### Mae pobl yn ymateb i newid sylweddol

4.32 **Thema 2. Mae pobl yn ymateb i newid sylweddol,— roedd pobl a gyfwelwyd o’r sectorau gwirfoddol a chynaledig yn gyson yn cydnabod yr heriau sy’n dod yn sgil llymder ariannol, o ad-drefnu sefydliadol, yr anawsterau presennol wrth i gostau byw godi a heriau parhaus Coronafeirws (COVID-19). Mae’n ymddangos fod canlyniadau’r ffactorau hyn yn heriol i’r bobl sy’n gweithio yn y gwasanaeth ieuenctid.**

4.33 Mae data’n dangos fod y Grant Cefnogi Ieuenctid yn cael ei ddefnyddio i gefnogi llawer o fudiadau sector gwirfoddol, lle’r oedd perthnasoedd sefydlog yn aml yn bod rhwng y gwasanaeth ieuenctid cynaledig a

darparwyr. Gall gor ddibyniaeth ar arian grant gyfyngu ar allu mudiadau i adeiladu gweddillion ariannol, ac mae hynny'n gallu ychwanegu at deimladau o ansicrwydd.

4.34 Mae data cyfweliadau yn dangos fod pobl brofiadol yn deall pwysigrwydd brocera gwleidyddol, pwysigrwydd bod yn rhan o'r datblygiadau polisi ac arfer diweddaraf, ond fod hynny'n creu ei heriau ei hun, a phwysigrwydd rhwydweithiau pobl ac adeiladu perthnasoedd gwaith effeithiol. Un sylw cefnogol a wnaed oedd:

> 'Felly os oes mecanwaith sy'n helpu lliwio'r amgylchedd, yn broffesiynol neu'n wleidyddol, rydym bob tro'n ceisio gweithio mor galed ag y gallwn' (Rheolydd sector gwirfoddol).

4.35 Mae tystiolaeth yn dangos y gall gweithwyr ieuenctid cymwysedig drafod yr angen am eu gwaith yn glir a chynnig ymateb creadigol i'r anghenion maen nhw'n eu hadnabod ymhlith pobl ifanc. Er enghraifft, wrth drafod ei gwaith, dywedodd un person a gyfwelwyd:

> 'pan roedd ganddon ni adeilad iawn i'r clwb ieuenctid, gallwn fod yn fwy rhydd, ond erbyn hyn mae'n rhaid imi gyfaddef fod rhaid imi fod yn llawer mwy dychmyglon gan mai dim ond un gofod bach sydd gennym. Ond rydw i'n ceisio bwrw eu hanghenion. Er enghraifft, heno rydyn ni'n gwneud sgiliau bywyd, ac rydw i'n mynd i wneud peiriant golchi dillad cardfwrdd a'u dysgu am lwythi golchi a phethau felly. Ac arian. Rydyn ni'n mynd i siarad am arian heno. Mae'n fater o geisio'i wneud yn hwyl. Ond dim ond un ystafell sydd ganddon ni' (Gweithiwr ieuenctid yn y sector cynaledig).

### Asesiad o anghenion

4.36 **Thema 3. Asesiad o anghenion**,**— mae cyfweliadau'n cefnogi'r canfyddiad fod asesiad o anghenion yn digwydd ar bob lefel o'r gwasanaeth,** ar lefel Llywodraeth Cymru:

> 'rydym yn gofyn i awdurdodau lleol, mudiadau, CWVYS ac ETS gyflwyno cynllun gwaith a byddem yn disgwyl fel rhan o'r

cynllun gwaith hwnnw eu bod wedi gwneud rhyw fath o asesiad o beth yw eu blaenoriaethau' (swyddog Llywodraeth Cymru).

4.37 Yn ogystal â'r arbenigeddau digidol, dywedodd un mudiad fod eu cefnogaeth i bobl ifanc yn cael ei deilwra i'r angen:

> 'rydyn ni'n gwneud llawer o gynnal iechyd meddwl, ar ôl y pandemig yn enwedig, COVID, gorbryder iechyd meddwl a chynhwysiant cymdeithasol. Ac rydyn ni'n gwneud llawer o waith gyda phobl ifanc sy'n cael eu haddysgu gartref. A'r bobl sydd ddim yn mynd i gael y cymwysterau TGAU traddodiadol. Felly rydyn ni'n mynd i ysgolion, gwneud rhywfaint o TGAU cerddoriaeth, felly gweithdai DJ' (Gweithiwr ieuenctid yn y sector gwirfoddol).

4.38 Yn ein sampl, mae'n ymddangos fod yna ddealltwriaeth fod yna, ar y lefel gymunedol, ddiffyg asesiadau o'r angen am waith ieuenctid, diffyg datblygiad holistaidd ar gyfer pobl ifanc. Gallai hynny fod oherwydd y ffocws cynyddol ar waith wedi'i dargedu a nodwyd eisoes. Mae anghenion yn cael eu hadnabod o rwydweithiau, asiantaethau atgyfeirio ac nid yn bennaf gan weithwyr ieuenctid mewn cymunedau, er enghraifft:

> 'Llwyth o rwydweithiau gwahanol rydyn ni arnyn nhw, sy'n ein helpu i adeiladu darlun, fel bod ein holl waith ymgynghori gyda'r cyfranogwyr o'u cwmpas nhw. Felly mae ein hadborth, ein cynlluniau gweithredu, ein monitro cydraddoldebau. Mae'r cyfan yn troi o gwmpas y bobl sy'n dod yma' (Gweithiwr ieuenctid yn y sector cynaledig).

4.39 Gwnaed nifer o sylwadau am effeithiau parhaus cyfnodau clo Covid ar bobl ifanc, ac mae hyn yn awgrymu fod angen trefn gyllido fwy cyson a hirdymor, ac nid adeg argyfwng yn unig, ac fe nodwyd:

> 'Dyw'r plant yna ddim yn iawn ar hyn o bryd. Allwn ni ddim dweud, iawn, mae popeth yn iawn', ac fe nododd cydweithwyr yn y sector cynaledig 'ein bod wedi cael mewnlifiad enfawr o

> bobl ifanc ers COVID', ac maen nhw'n dal i'w chael yn anodd wyddoch chi, y blynyddoedd deg ac unarddeg sy'n mynd i mewn i'w blwyddyn olaf, ond ble mae'r gydnabyddiaeth eu bod wedi colli blynyddoedd 8 a 9 hefyd? Maen nhw'n ei chael yn anodd, mae 'na banig ac maen nhw'n poeni am hynny ac rydyn ni yma i'w cefnogi i fynd drwy hynna i gyd' (Gweithiwr ieuenctid yn y sector gwirfoddol).

### Cyllido Mewnol

4.40 **Thema 4 Cyllido mewnol,—Mae cysyniad cyllid craidd yn bwysig yn y sectorau gwirfoddol a statudol**. Mae hwn yn ddyfyniad nodweddiadol o'r sector gwirfoddol:

> 'Rydyn ni'n gwneud arolygon ac maen nhw i gyd yn dod yn ôl yn dweud arian craidd, os gwelwch yn dda, gan mai dyna'r peth anoddaf i'w wneud. A dyna'r peth sy'n gwneud inni deimlo mor ddiflas wrth geisio cael arian craidd, ac mae'r holl gyrff cyllido'n dweud, o wel, mae hynna'n ddiddorol iawn'' (Rheolydd sector gwirfoddol).

4.41 Clywsom hyn dro ar ôl tro yng nghyfweliadau'r sector gwirfoddol, pan ofynnwyd i fudiadau beth ellid ei wella am eu sefyllfa gyllido. Cyfeiriwyd yn gyson at ba mor anodd yw cyrraedd sefyllfa gynaliadwy oherwydd bod cyn lleied o ffynonellau cyllid craidd yn y system gyllido bresennol.

### Gwybodaeth Ehangach

4.42 **Thema 5**. **Gwybodaeth ehangach,— cyfeiriodd y gweithlu at hyfforddiant ac at ddiffyg adnoddau addas i gefnogi hyfforddiant.**

4.43 Nodwyd fod yr angen am ystod ehangach o lwybrau ar gyfer cymhwyso'n weithiwr ieuenctid yn broblem, yn enwedig felly i bobl ifanc sydd eisiau ymuno â'r proffesiwn. Mae'r enghraifft hon yn dangos yr

angen parhaus am gyfleoedd hyfforddi ar lefelau gwahanol mewn gweithlu sy'n newid:

> 'Felly mae ganddon ni ddau sydd â gradd meistr mewn gwaith ieuenctid, mae ganddon ni dri sydd ar lefel 3 ac yna mae'r gweddill ar lefel 2. Rydyn ni wedi penodi pum person newydd yn y chwe mis diwethaf. Felly rydyn ni'n aros i'w cael nhw i gyd at ei gilydd i wneud y cymhwyster ar lefel 2' (Rheolydd yn y sector cynaledig).

**Cyllido Allanol**

4.44 **Thema 6. Cyllido Allanol,—ceir cydnabyddiaeth eang i bwysigrwydd y Grant Cynnal Refeniw fel agwedd allweddol ar gyfer cyllido gwaith ieuenctid yng Nghymru**. Rhoddir sawl teitl gwahanol i'r grant, gan gynnwys grant craidd awdurdodau lleol a'r grant cynnal refeniw. Roedd y grant hwn yn ffocws un cyfweliad yn arbennig, gyda swyddog y WLGA. Mae'r darn canlynol yn crynhoi un agwedd o'r cyfweliad hwnnw:

> 'Y term cywir ar gyfer y cyllid (RSG) hwn yw 'Cyllid Allanol wedi'i Agregu' sy'n golygu'r gefnogaeth ar gyfer gwariant refeniw lleol gan Lywodraeth Cymru ac mae'n cynnwys grant fformiwla. Mae grant fformiwla'n cynnwys y grant cynnal refeniw (RSG), a rhan ddosbarthadwy trethi heb fod yn rhai domestig (NDR). Mae lefel y cyllid hwn yn cael ei gyfrifo fel rhan o broses yr asesiad gwario safonol er mwyn sefydlu anghenion a darganfod faint o adnoddau sydd ar gael [cydraddoli anghenion a chydraddoli adnoddau'. Mae'r asesiad hwn yn rhoi ystyriaeth i 'Ffigyrau poblogaeth, niferoedd disgyblion cyfredol a'r mathau o bethau yr ydych chi'n tybio allai greu angen mewn ardaloedd unigol. Hefyd, addasiadau ar gyfer amddifadedd gan fod yr angen wastad yn uwch mewn ardaloedd difreintiedig. 'Mae'r fformiwla hefyd yn rhoi

ystyriaeth i aneconomïau maint', er enghraifft, costau cymharol uwch yn deillio o ddarparu gwasanaethau mewn ardaloedd gwledig. Cynhelir yr Asesiad Gwario Safonedig gan yr 'is-grŵp dosbarthiad, a gadeirir gan swyddog Llywodraeth Cymru ac aelodau'r pwyllgor yw cyfarwyddwyr cyllid, cynrychiolydd Cymdeithas Llywodraeth Leol Cymru, gweision sifil ac aelodau annibynnol (darn o gyfweliad gyda swyddog y WLGA).

4.45 **Thema 6. Defnyddir sawl ffynhonnell o gyllid allanol i gyllido gwaith ieuenctid**. Fe nodwyd mewn dau gyfweliad fod pum cyngor cymuned yn ardal un awdurdod lleol wedi gwneud cyfraniadau sylweddol at gyllido gwaith ieuenctid yn eu wardiau. Mae data cyfweliadau yn awgrymu hefyd fod y model cyllido hwn yn sicrhau bod y gwaith ieuenctid a wneir yn seiliedig ar flaenoriaethau lleol, y tu hwnt i gwmpas yr RSG ac mae'n cael ei ystyried yn gymharol gyson a rhagweladwy, ac mewn rhai achosion bu ar waith ers mwy nac 20 mlynedd:

> 'mae'n cael ei gydnabod ers tro byd fod y cynghorau cymuned blaengar yn ariannu gwaith ieuenctid, felly mae o leiaf, o leiaf hanner dwsin sy'n dal i wneud'. (Rheolydd sector gwirfoddol).

4.46 Mae mwy o arian grant ar gael gan Lywodraeth Cymru, yn benodol ar gyfer gwaith ieuenctid, ac mae hyn yn cael ei groesawu'n fawr gan fudiadau gwaith ieuenctid. Fodd bynnag, canlyniad anuniongyrchol i hynny yw ymdeimlad cyffredin o ansicrwydd ymhlith ein sampl a bod gwasanaethau ieuenctid cynaledig yn addasu eu strategaethau, fel y gwelir yn y sylw

> 'Rwy'n credu fod llawer o'r grantiau a'r cyllid yr arferai'r awdurdod lleol ei ddosbarthu, erbyn hyn mae ganddyn nhw adrannau yn yr awdurdod lleol sy'n cael yr arian yn eu lle' (Rheolydd sector gwirfoddol).

4.47 Mae cyllid, sut mae'n cael sicrhau, sut mae'n cael ei ddefnyddio a sut mae'r defnydd ohono'n cael ei fonitro wedi bod yn bwnc pwysig trwy

gydol y gwaith maes. Roedd y maes hwn yn gymhleth, ac roedd cyllid yn cael ei ystyried yn fregus. Soniodd mudiadau sector gwirfoddol am y chwilio parhaus am ffynonellau cyllid addas, a dywedodd un person a holwyd:

> ‘Pe bai yna strategaeth gyllido gan awdurdodau lleol a Llywodraeth Cymru, wel, ie. Pryd fyddai potiau o arian ar gael, ar beth fydden nhw, y dyddiadau cau ymlaen llaw’ (Gweithiwr ieuenctid yn y sector gwirfoddol)

4.48 Ond mewn awdurdodau lleol roedd prosesau pennu cyllidebau a threfniadau comisiynu cymhleth ar waith yn aml. Dangosir y cymhlethdod hwnnw yn y dyfyniad canlynol:

> ‘Rwyn credu eu bod nhw (cyllid Llywodraeth Cymru) wedi cynnig (dyraniadau dangosol) dros dair blynedd yn ddiweddar. ‘Dydw i ddim yn credu y gallen ni elwa o hynny gan fod ein ffrydiau ariannu yn dod o leoedd eraill (nid ydynt yn gydnaws). Felly mewn gwirionedd, (i dalu costau cyflog) aelodau staff, mae’n anodd iawn, chi’n gwybod gyda’r ffrydiau ariannu yn dod i mewn bob yn dipyn o flwyddyn i flwyddyn’ (Gweithiwr ieuenctid yn y sector cynaledig).

4.49 Dangosodd ein hymchwil, o ddadansoddiad o’r cyhoeddiad ystadegol blynyddol ac o’r arolwg, y cafodd llymder cyllidol effaith sylweddol ar faint o arian sydd ar gael i’r gwasanaeth ieuenctid yn y sectorau gwirfoddol a cynaledig, a dywedodd un person a gyfwelwyd wrthym:

> ‘mewn termau real.. syrthiodd y gyllideb yn raddol’ o 2010, ‘ac yna syrthiodd yn weddol gyflym, o 2014 i 2017’ ac ‘yn raddol dechreuodd y cyllid sefydlogi wrth inni fynd i mewn i 2018/19, ac yn 2019/20 rydyn ni’n dechrau gweld twf gwirioneddol’ (Swyddog y WLGA).

4.50 Mae dadansoddiad o ddata o gyfweliadau yn dangos fod yna safbwyntiau gwahanol o fewn y sector ynghylch a ddylai’r Grant Cynnal

Refeniw (RSG) gael ei neilltuo, a dywedodd un arweinydd yn y sector gwirfoddol:

> ‘mae ganddoch chi’r grant cynnal refeniw, sy’n amlwg yn gorfod cael ei neilltuo’, er, ‘Rwy’n deall safbwynt yr awdurdod lleol yn iawn, oherwydd pe bai hynna’n cael ei wneud yn gyfraith, byddai’n rhaid inni dorri rhywbeth’ (Rheolydd sector gwirfoddol).

4.51 Ar y llaw arall, rydym hefyd wedi clywed rhai yn sôn am y ffordd mae’r RSG yn cael ei ddyrannu:

> ‘Mae’n fater o atebolrwydd democrataidd. Yn y pendraw maen nhw [awdurdodau lleol] yn gorfod penderfynu pa adnodd sy’n mynd i ba wasanaethau yn eu hardaloedd, gan fod ganddyn nhw’r darlun ehangach yma o sut mae’r gwasanaethau hynny, y gwasanaethau ieuenctid, yn ffitio gyda gwasanaethau eraill fel addysg a gwasanaethau cymdeithasol hefyd’ (Swyddog y WLGA).

4.52 Roedd pobl a holwyd yn y sector gwirfoddol yn credu’n gryf fod angen adeiladu cyweithfeydd, gyda CWVYS ond hefyd gyda’r gwasanaeth ieuenctid cynaledig yn lleol, a dywedodd un person a gyfwelwyd:

> ‘Felly ie, dim ond trwy’r rhwydweithiau y mae e mewn gwirionedd. Doeddwn i ddim yn gwybod nes imi ymuno â CWVYS fod cyfleoedd yn cael eu rhannu mewn ffyrdd eraill, a ffyrdd o fynd o’i chwmpas hi. Ond a bod yn onest, maen nhw i gyd yn arwain at sefydlu perthynas gyda phrif swyddogion ieuenctid y gwasanaeth ieuenctid mewn un ffordd neu’r llall.’ (Gweithiwr ieuenctid yn y sector gwirfoddol).

4.53 Mae sicrhau cyllid hirdymor cyson a chynaliadwy yn her i fudiadau yn y sectorau gwirfoddol a chynaledig, ac yn aml mae cyllidwyr yn gofyn am geisiadau am grantiau sy’n dangos blaengaredd, ac mae hyn yn tanseilio gwaith sydd eisoes yn llwyddo. Dywedodd un person a gyfwelwyd:

> 'Felly'r her inni yw cyllid hirdymor yn amlwg, a chyllid dros sawl blwyddyn yn arbennig, iawn. Dyna un o'n prif strategaethau ac un o'n nodau yw bod yn elusen gynaliadwy.' (Rheolydd sector gwirfoddol).

4.54 Byddai cynllunio strategol mwy hirdymor rhwng awdurdodau lleol a Llywodraeth Cymru yn gymorth mawr, o ran gwneud grantiau ar gael i fudiadau gwirfoddol, fel bod mudiadau'n cael rhybudd ymlaen llaw ac yn gallu paratoi. Cadarnhaodd un enghraifft yr awydd am gyllid mwy hirdymor: 'Mae cyllid Teuluoedd yn Gyntaf wedi mynd o 3 i 5 mlynedd "sy'n gam mawr ymlaen" (Gweithiwr ieuenctid yn y sector cynaledig).

4.55 Fodd bynnag, roedd y rhan fwyaf o ymatebion yn adlewyrchu rhai o anfanteision tybiedig arian grant, er enghraifft:

> 'Mae arian grant yn gallu bod braidd yn annifyr…mae'n gyllid blynyddol. Mae cyllid tymor byr yn anodd o ran sicrwydd swyddi, ac mae hyn yn effeithio ar nifer y ceisiadau am swyddi sy'n rhai tymor byr' (Gweithiwr ieuenctid yn y sector cynaledig).

**Monitro**

4.56 **Thema 8. Monitro,—mae trefniadau ar waith ymhob un o'r pedwar awdurdod lleol a astudiwyd yma i wneud cais am, gweinyddu a monitro effaith arian grant**. Fe nodwyd mewn un cyfweliad:

> 'Mae ganddon ni hwb comisiynu canolog, ac mae'n edrych ar y gwasanaethau cymdeithasol yn eu crynswth. Ond rydyn ni'n rhoi llawer o arian addysg drwy hwnnw. Felly mae ganddon ni un hwb Comisiynu. Felly mae ein holl botiau allanol yn mynd i mewn i hwnnw ac yna rydyn ni'n mynd i weithio fel rhyw fath o arbenigwyr testunol ar grantiau er mwyn gweithio allan sut maen nhw'n cael eu dosbarthu' (Rheolydd yn y sector cynaledig).

4.57 Yn ein sampl, dywedodd un mudiad gwirfoddol cenedlaethol eu bod yn gorfod adrodd ar eu cyllid Grant Cefnogi Ieuenctid i 22 awdurdod lleol ar wahân. Fe nodwyd mewn cyfweliad gyda rheolydd sector gwirfoddol:

> 'Felly rydw i'n adrodd i'r Prif Swyddog Ieuenctid. Yna mae'r Prif Swyddog Ieuenctid yn adrodd i Lywodraeth Cymru, ac maen nhw'n darllen fy adroddiad 22 gwaith' (Rheolydd sector gwirfoddol).

4.58 Mae prosesau monitro yn amrywio ac yn aml yn ddigon cymhleth, ac mae'r sawl sy'n derbyn grantiau mewn cylch o adroddiadau chwarterol. Dangosir hynny gan yr achos hwn:

> 'Ydy, mae'n hunllef, a byddai'n braf iawn, ond fydd e byth yn digwydd, pe bai'r holl gyllidwyr yn dod at ei gilydd ac yn dweud, dyma'r adroddiadau yr ydyn ni am i'r sector cyfan weithio tuag atynt.' (Gweithiwr ieuenctid yn y sector gwirfoddol).

**Cryfderau a Gwendidau**

4.59 **Thema 9. Cryfderau a Gwendidau, —mae hyblygrwydd y gwasanaeth ieuenctid a'r ffordd y mae'n ymateb i anghenion newidiol cymdeithas a phobl ifanc yn cael ei ystyried yn gryfder**. Fodd bynnag, gall hyn greu problemau gan fod yr ymatebion hyn yn aml yn adlewyrchu safbwynt meddyginiaethol, dan arweiniad oedolion, er enghraifft, dull therapiwtig o drin pobl ifanc yn dioddef trawma a chaledi:

> 'Wyddoch chi, efallai fod y bobl ifanc angen peth cefnogaeth gyda materion ymddygiad, ar, yn amlwg, wyddoch chi, gyda'r peth NEET hefyd, mae'n fater o gael gwared â'r rhwystrau sy'n atal pobl ifanc rhag gallu manteisio ar y gwasanaethau prif ffrwd' (Gweithiwr ieuenctid yn y sector cynaledig).

4.60 Er y gall yr ymatebion hynny fod yn werthfawr, nid yw'n amlwg ai'r gweithiwr ieuenctid oedd y person gorau i wneud y gwaith pwysig hwnnw, ac mae'r hyfforddiant hwn yn adlewyrchu'r ffaith y rhoddir sgiliau gwerthfawr a gwybodaeth am ddulliau iechyd a gofal cymdeithasol pan fod prif swyddogaeth gweithiwr ieuenctid yn un addysgiadol. Cadarnhawyd hynny mewn un cyfweliad:

> 'rydyn ni wedi gwneud cymaint o hyfforddiant ar bob math o bethau. Ysgolion sy'n gwybod am drawma, modelau adfer wedi trawma, rydyn ni'n gwneud bob math o hyfforddiant, yr holl hyfforddiant magu plant, yr holl bethau hynny wyddoch chi' (Gweithiwr ieuenctid yn y sector cynaledig).

4.61 Mae ein cyfweliadau'n dangos fod pobl ifanc yn aml yn rhan o'r broses godi arian, gan gynnwys gwneud ceisiadau am grantiau. Mae'n amlwg hefyd ei bod yn ymddangos fod pobl ifanc yn chwarae llai o ran wrth i faint y cais am grant gynyddu. Fe ddywedwyd:

> 'Yn bendant yn y rhai llai, rydyn ni'n gwneud cryn dipyn ohonynt, fel y Grant Cefnogi Ieuenctid sy'n dod o'r cyngor. Maen nhw tua £500, £1,000, y math yna o arian ac mae'n rhaid i'r ceisiadau gynnwys sylwadau a safbwyntiau pobl ifanc' (Rheolydd sector gwirfoddol).

4.62 Mae ein sampl yn cynnwys enghreifftiau o rai mudiadau gwaith ieuenctid sector gwirfoddol yn cynhyrchu incwm o ffynonellau yn hytrach na grantiau. Mae hyn yn gryfder ac mae'n eu gwneud yn fwy cynaliadwy. Dywedodd un person a holwyd:

> 'Rwy'n credu ein bod mewn safle cryfach na rhai mudiadau gan fod gennym ffrwd incwm hefyd [yn ogystal ag arian grant] ac mae hynny'n rhywbeth sy'n ein gwneud yn fudiad hyfyw' a 'dyw hynny ddim yn rhywbeth y dylem gywilyddio yn ei gylch ' (Rheolydd sector gwirfoddol).

4.63 Mae'r gwasanaeth ieuenctid ar draws y genedl yn llwyddo i sicrhau ystod eang o grantiau ar gyfer gwaith ieuenctid. Er bod hyn yn gryfder,

mae hefyd yn golygu treulio cryn dipyn o amser ar waith gweinyddol er mwyn cyflawni gofynion y grantiau yn llwyddiannus**.** Dywedodd cynrychiolydd un mudiad cymunedol sector gwirfoddol wrthym mewn cyfweliad:

> ‘Ar gyfer y flwyddyn ariannol hon, ar ddiwedd ein blwyddyn ariannol, bydd gennym 11 grant gwahanol’ (Rheolydd sector gwirfoddol).

4.64 Nid mudiadau lleol yw’r unig rai s’n wynebu trefniadau cyllido ansicr, dywedodd cynrychiolydd un mudiad cenedlaethol: ‘gadewch inni ddweud ein bod yn gweithio gyda hyd at tua 10 llinyn o gyllid prosiect, er bod hynny’n amrywio, ond rydyn ni i gyd yn cyflwyno ceisiadau drwy’r amser. Weithiau mewn consortia’ (Rheolydd sector gwirfoddol).

4.65 Mae mudiadau gwirfoddol cenedlaethol yn dweud eu bod yn derbyn grantiau bloc ail-adroddol gan gyrff cenedlaethol gan gynnwys Cyngor Chwaraeon Cymru mewn cylch 4 blynedd sy’n cael ei ystyried yn rhagweladwy a dibynadwy, yn groes i rai cynlluniau grantiau eraill sy’n defnyddio cylchoedd byrrach. Hefyd, mae’r cysylltiadau uniongyrchol gyda’r mudiadau yn cael eu gweld yn ffyrdd effeithiol o weithio.

4.66 Mae’r llwyth gwaith gweinyddol sy’n rhan o gynnig a chyfrif am lawer o grantiau bychain yn her ac mae’n aml yn cymryd ymarferwyr cymwysedig a phrofiadol i ffwrdd o waith wyneb yn wyneb gyda phobl ifanc.

## 5 Casgliadau

5.1 Mae'r casgliadau hyn yn rhoi ystyriaeth i ddata o'r gwaith meintiol ac ansoddol a gynhaliwyd yn ystod Cam 1. Nod yr ymarferiad dichonoldeb hwn oedd cynnal **archwiliad cychwynnol** o ba ddata sydd ar gael ac i ba raddau y gall gyfrannu at y gwaith i'r dyfodol o gynnal yr ymchwil yn llwyddiannus ar draws gweddill Cymru. Mae'r astudiaeth ddichonoldeb yn dangos y bu modd casglu ystod o dystiolaeth trwy ddefnyddio dulliau ansoddol a meintiol o gasglu data. Mae hyn yn awgrymu'n gryf felly fod digon o dystiolaeth ar gael i ddiwallu gofynion cwmpas llawn yr ymchwil arfaethedig wrth inni symud ymlaen.

5.2 Bydd yr adran hon yn cynnwys crynodeb o'r dystiolaeth o'r ymchwil a gynhaliwyd fel rhan o'r astudiaeth ddichonoldeb gychwynnol hon—yn seiliedig ar dystiolaeth amrywiol: adolygiad cyflym o'r llenyddiaeth a gyhoeddwyd, gan gynnwys ystod o ddogfennau a ddarparwyd inni yn ystod y gwaith maes, data'r arolwg a'r cyfweliadau a'r grwpiau ffocws a gynhaliwyd gyda'r gwasanaeth ieuenctid gwirfoddol a chynaledig. Mae'r ymchwil wedi adnabod rhai themâu cychwynnol a chymhleth allweddol sy'n adlewyrchu amrywiaeth gwaith ieuenctid o'r sampl o wasanaethau ieuenctid gwirfoddol a chynaledig y daethpwyd ar eu traws. Un amod i'w ystyried yw mai astudiaeth ddichonoldeb oedd hon, ac o'r herwydd bydd llawer o'r materion a gafodd eu hadnabod yn cael eu harchwilio a'u cadarnhau ymhellach yng nghamau nesaf yr ymchwil.

5.3 Mae'r canfyddiadau o'n hymchwil cychwynnol ar draws ardaloedd pedwar awdurdod lleol yng Nghymru yn y sectorau gwirfoddol a chynaledig yn dangos fod y gwasanaeth ieuenctid yn wasanaeth amrywiol sy'n ymateb i anghenion llawer o randdeiliaid gwahanol. Rhanddeiliaid mor amrywiol â Llywodraeth Cymru, llywodraeth leol, cymunedau lleol, mudiadau lleol a chenedlaethol megis ysgolion, yr Heddlu a'r gwasanaethau iechyd. Mae'r safbwyntiau amrywiol hyn yn dangos fod pedagogeg gwaith ieuenctid yn dibynnu ar nifer o ddylanwadau gwahanol wrth iddo geisio addasu ac ymateb i ofynion

newidiol.  Mae mudiadau'n profi'r pwysau hyn mewn sawl ffordd, er enghraifft o natur byrdymor grantiau a sut mae'r cylch blynyddol hwn yn dylanwadu ar staff, sydd yn ei dro yn effeithio ar gysondeb a chynaliadwyedd y gwasanaeth i bobl ifanc. Gwaethygir hyn ymhellach gan y gostyngiad blynyddol yn nifer y staff rheng flaen ar draws y pedwar awdurdod lleol yr edrychwyd arnynt yn yr arolwg hwn.

5.4 Mae safbwyntiau gwahanol o fewn y sector ynghylch a ddylai cyllid gwaith ieuenctid fod yn rhan o'r RSG neu a ddylid ei dynnu allan a'i neilltuo yng nghyllidebau awdurdodau lleol. Mae barnau cryf ar ddwy ochr y drafodaeth hon, yn ymwneud yn bennaf â ble a phryd y gwneir penderfyniadau am gyllid lleol ar gyfer gwaith ieuenctid ac a yw'r gwasanaeth ieuenctid yn derbyn y dyraniad a awgrymwyd ar ei gyfer.

5.5 Mae'r gwasanaeth ieuenctid yn wynebu newidiadau yn y gofyn am waith ieuenctid, ac o'r herwydd mae mudiadau yn aml yn ymateb ar eu liwt eu hunain oherwydd amgylchiadau lleol. Siaradodd gweithwyr ieuenctid yn huawdl am werth eu gwaith i bobl ifanc ac am sut mae'n ymateb i anghenion pobl ifanc yn deillio, er enghhraifft, o iechyd a llesiant, ac o bryderon am ymddygiad gwrth-gymdeithasol.

5.6 Mae ein hymchwil yn dangos fod ystod eang o wahanol fathau o waith ieuenctid yn digwydd, ac mewn cyd-destunau gwahanol, er enghraifft, daethom ar draws waith ieuenctid yn digwydd mewn neuaddau cymunedol, mewn ysgolion, mewn lleoedd chwarae antur, mewn ysbytai, mewn cynwysyddion metel, ar y strydoedd ac mewn canolfannau ieuenctid pwrpasol. Mae amrywiaeth y lleoliadau hyn yn dangos ynddo'i hunan pa mor amlbwrpas a hyblyg yw gwaith ieuenctid. Mae hefyd yn dangos pa mor amrywiol yw'r ffynonellau cyllid ar gyfer y gwaith, o gyllid elusennol, cyllid trwy gynghorau cymuned, arian grant gan lywodraeth ganol a lleol a ffrydiau incwm eraill gan gynnwys taliadau aelodaeth, incwm rhent a ffïoedd trwyddedau.  Mae gwaith ieuenctid yng Nghymru yn ffodus fod ganddo Safonau Galwedigaethol clir a dogfennau polisi sy'n amlinellu ffiniau a chyfyngiadau'r gwaith.

5.7 Mae'r cyd-destun polisi hwn yn ddefnyddiol i ail-adrodd pwrpas sylfaenol gwaith ieuenctid, sef addysg bersonol a chymdeithasol pobl ifanc. Yr hyn sy'n deillio o'n hymchwil yw'r symud at ddatblygu mwy o waith un ac un, yn aml wrth ymateb i'r nifer cynyddol o bobl ifanc sy'n profi gorbryder ac anawsterau ymddygiadol neu emosiynol a llai o ddefnydd o ddulliau cymunedol o ddarparu gwaith ieuenctid. Mae'r tueddiadau newidiol hyn ymhlith pobl ifanc, ynghyd â'r newidiadau yn yr hinsawdd cyllido, yn golygu, yn ein sampl ni, fod rôl y Prif Swyddog Ieuenctid yn aml yn golygu rôl ehangach nac arwain y gwasanaeth ieuenctid cynaledig yn unig.

5.8 Gwelsom fod mudiadau sector gwirfoddol lleol a chenedlaethol yn chwarae rôl allweddol yn arwain a darparu gwaith ieuenctid ledled Cymru, gan gyfrannu at adnabod angen lleol, er enghraifft am weithgareddau corfforol, am gynhwysiant, am addysg gymdeithasol a chwarae rhan flaenllaw yn creu cyfleoedd ar gyfer gwaith ieuenctid yn y Gymraeg. Fodd bynnag, bernir fod agweddau helaeth o'r gwaith hwn yn fregus oherwydd y caiff ei gyllido ar hyn o bryd, trwy grantiau tymor byr. Mae ein hymchwil yn dangos fod lleiafrif o'r ymatebwyr i'r arolwg yn credu fod y model cyllido gwaith ieuenctid presennol yn ddigon ansefydlog ac anragweladwy, a dywedodd nifer o bobl a gymerodd ran yn ein sampl eu bod yn aml yn gorfod newid eu model gwasanaeth i fodloni gofynion cyllidwyr.

5.9 Mae'n amlwg fod y gwasanaeth ieuenctid, fel llawer o wasanaethau cyhoeddus eraill, wedi wynebu heriau yn deillio o lymder cyllidol. Rhwng 2010 a 2021 syrthiodd cyfanswm incwm a threuliau blynyddol y sector statudol gan 2.66 y cant a 3.54 y cant yn eu tro. Felly, mae toriad o £1 mewn incwm yn cyfateb i ostyngiad o £1.33 mewn costau. Wrth i incwm leihau mae hyn yn dangos fod mudiadau'n gwneud toriad mwy fyth yn eu gwariant. Wrth i gyllid incwm leihau'n barhaus yn y sector ieuenctid, mae treuliau'n cael eu torri fwy fyth, a bydd hyn yn ei dro yn effeithio ar gyrhaeddiad mudiadau gwaith ieuenctid. Hefyd, mae ad-drefnu sefydliadol, yr anawsterau yn deillio o'r cynnydd yng

nghostau byw a'r heriau parhaus oherwydd Coronafeirws wedi creu amgylchedd heriol i bobl sydd ynghlwm wrth y gwasanaeth ieuenctid.

5.10 Roedd sefydlu perthnasoedd gwaith da yn thema bwysig a ddaeth allan o'n cyfweliadau, a theimlwyd fod perthnasoedd a rhwydweithiau ymddiriedgar yn bwysig wrth adnabod a chynnig am grantiau. Roedd gwerthfawrogiad o gyd-destun proffesiynol a gwleidyddol yn amlwg lle'r oedd prosiectau yn rhai aeddfed. Roedd pobl a gyfwelwyd yn y sector gwirfoddol yn argyhoeddedig ynghylch pwysigrwydd adeiladu cyweithfeydd, ar draws y sector yn lleol a chenedlaethol.

5.11 Un agwedd bwerus iawn o'r ymchwil oedd clywed storïau gweithwyr ieuenctid, ac mae ein tystiolaeth yn dangos fod gweithwyr ieuenctid yn gallu esbonio'n glir yr angen am eu gwaith a chynnig ymateb creadigol i'r anghenion maen nhw'n eu hadnabod ymhlith pobl ifanc.

5.12 Pan fuom yn edrych ar sut roedd y sector yn asesu anghenion cymdeithasol, gwelsom fod asesiadau o anghenion yn digwydd ar bob lefel o'r gwasanaeth, ac mae hyn yn digwydd yn anffurfiol mewn rhai sefyllfaoedd trwy arfer myfyrgar ymhlith gweithwyr ieuenctid. Mewn lleoliadau eraill mae mudiadau yn asesu anghenion fel rhan o'u rôl yn bwydo gwybodaeth i Fyrddau Partneriaeth Rhanbarthol, ac mewn rhai lleoliadau mae gweithwyr ieuenctid yn cyfrannu at gynnal asesiadau ffurfiol o anghenion gyda phobl ifanc fel rhan o gynllunio fframwaith asesu cyffredin. Roedd rhai mudiadau'n arddangos eu defnydd o fapio yn agos gydag ysgolion, gan edrych ar amrywiaeth poblogaethau mewn ardaloedd penodol ac eraill yn seiliedig ar dargedau asesiadau o anghenion a amlinellwyd mewn polisi Cymreig, er enghraifft cefnogi creu miliwn o siaradwyr Cymraeg erbyn 2050. Yn seiliedig ar ganfyddiadau ein harolwg, gwelsom fod 88 y cant o fudiadau yn y sampl cyfyngedig hwn yn gweithio'n ddwyieithog gyda phobl ifanc, ac mae 100 y cant o'r cyfranogwyr yn cynnig eu gwasanaeth ieuenctid yn y Gymraeg. Caiff yr arsylwad hwn ei archwilio'n genedlaethol yng Ngham 2. Fodd bynnag, roedd ymglymiad mudiadau â gwaith dadansoddi anghenion gwaith ieuenctid trylwyr yn aml yn digwydd

mewn ffordd ad hoc yn hytrach na systematig, a gellid gwella hynny trwy rwydweithiau ar agweddau penodedig o waith ieuenctid a gwaith mwy systematig ar ddadansoddi bylchau, rhannu gwybodaeth a chynllunio cynhwysol.

5.13 Roedd yn ymddangos fod y dull generig, cymunedol, cyffredinol o ddarparu gwaith ieuenctid wedi lleihau, yn rhannol oherwydd yr angen i ail-fodelu gwasanaethau oherwydd llymder. O’r herwydd, mae llawer o weithwyr ieuenctid sy’n gwneud gwaith cyffredinol yn y sector cynaledig yn cael eu cyflogi ar gontractau rhan-amser, yn aml yn ystod tymor ysgol yn unig a heb lawer o amser ar gyfer gwaith datblygu yn eu contractau. Ar lefel gymunedol, mae’n ymddangos y dylai’r asesiad o angen am waith ieuenctid, er mwyn datblygiad holistaidd pobl ifanc, gael ei gryfhau. Yn naturiol, mae goblygiadau adnoddau i hynny, ond mae hyn yn haeddu cael ei archwilio ymhellach, o ran costau a buddion ffyrdd gwahanol o gyflawni’r gwaith yng nghyd-destun y datganiad clir o Egwyddorion a Phwrpasau Gwaith Ieuenctid yng Nghymru.

5.14 Gwerthfawrogwyd fod cyllid ar gyfer gwaith ieuenctid yn cynyddu ers y cyfnod cyn pandemig Coronafeirws. Er gwaetha’r cynnydd derbyniol hwn, mae’r ffaith mai cyllid tymor byr yw hwn yn aml yn effeithio ar staff a phobl ifanc, ac mae hyn yn awgrymu fod angen agwedd fwy hirdymor at gysondeb a dibynadwyedd y cyllido. Mae’r canlyniadau’n amlygu’r ffaith fod 42.7 y cant o’r sawl a gymerodd ran yn yr arolwg yn credu fod sefydlogrwydd cyllidol yn bryder.

5.15 Mae cysyniad arian craidd yn bwysig yn y sectorau gwirfoddol a chynaledig, ond am resymau gwahanol efallai. Yn y sector gwirfoddol roedd yn amlwg mai goroesi yn hytrach na ffynnu y mae’r rhan fwyaf o fudiadau. Cafwyd gostyngiad cyfartalog o 8.77 y cant yn yr arian craidd rhwng 2010 a 2021. Er y cafwyd cydnabyddiaeth fod cyllid ar gael, mewn rhai sefyllfaoedd roedd hynny’n digwydd trwy ôl-daliadau. Er enghraifft, mae 54 y cant o’r Grant Strategol i Fudiadau Gwaith Ieuenctid Gwirfoddol ar gyfer 2022-23 a 2023-24 yn cael ei dalu trwy ôl-daliadau. Mae’n bwysig nodi y gall mudiadau sy’n gwneud ceisiadau i’r

gronfa hon ddewis derbyn y grant ymlaen llaw neu trwy ôl-ddyledion. Roedd yn amlwg hefyd nad oedd unrhyw safon ar gyfer gwneud cais am gostau cyflogi mewn grantiau, megis er enghraifft pan mae ceisiadau grant yn cael eu paratoi. Roedd rhai mudiadau yn cydnabod nad ydynt yn codi tâl, soniodd rhai am bump y cant o gyfanswm y grant, rhai deg y cant ac eraill mwy. Caiff hyn ei archwilio yn fanylach yng Ngham 2.

5.16 Derbyniwyd yn gyffredinol fod hyfforddiant yn digwydd ond ei fod yn aml yn ymateb i bwrpasau eilaidd gwaith ieuenctid fel yr amlygwyd uchod (roedd gweithio gyda dulliau yn seiliedig ar drawma yn un enghraifft). Rhwng 2010 a 2021, mae costau hyfforddiant a datblygiad ar gyfer aelodau staff wedi lleihau ar gyfradd twf blynyddol cyfansawdd real o -9.73 y cant. Fodd bynnag, mae'r cyllid ar gyfer hyfforddiant dros gyfnod y sampl yn amrywio. Fodd bynnag, rhwng 2010 a 2018 roedd y gostyngiad blynyddol yn -17.4 y cant, a rhwng 2019 a 2021 roedd y cynnydd cyfartalog mewn costau hyfforddiant yn 8.1 y cant, oedd yn dangos cynnydd yn y buddsoddiad dros yr ychydig flynyddoedd diwethaf. Fodd bynnag, roedd cyllid ar gyfer hyfforddiant yn gyfyngedig, ac mae hyn yn dangos pa mor dynn yw llawer o gyllidebau. Gwelsom dystiolaeth o'r posibilrwydd fod cyllid yn cael ei ddyrannu ar gyfer hyfforddiant er mwyn ymateb i bwrpas eilaidd y gwaith, a byddwn yn ymchwilio hyn ymhellach. Dywedodd un mudiad y byddent yn gwerthfawrogi ystod ehangach o lwybrau ar gyfer hyfforddi'n weithiwr ieuenctid, yn enwedig felly i bobl ifanc sydd eisiau ymuno â'r proffesiwn.

5.17 Yn ystod ein cyfweliadau roedd yn amlwg fod gweithdrefnau llywodraethu clir ar waith, a hynny yn y sectorau gwirfoddol a chynaledig ac maent yn helpu mudiadau i wneud dewisiadau gwybodus am eu strategaethau codi arian, am fonitro'r gwaith ac am adrodd i randdeiliaid a chyllidwyr.

5.18 Roedd teimlad mewn rhai mudiadau gwirfoddol mwy fod yna ail-adrodd o ran codi arian ac aneffeithlonrwydd o ran codi arian ac adrodd, er

enghraifft, roedd rhai mudiadau gwirfoddol cenedlaethol yn gorfod adrodd ar eu cyllid Grant Cefnogi Ieuenctid i 22 awdurdod lleol ar wahân. Efallai fod dulliau mwy effeithlon o wneud hynny ar gael.

5.19 Roedd cydnabyddiaeth ar bob lefel o'r gwasanaeth fod cynnwys pobl ifanc mewn penderfyniadau yn beth da. Er enghraifft, roedd pobl ifanc yn aml yn cyfrannu at y broses godi arian, gan gynnwys gwneud ceisiadau grant. Mae'n amlwg hefyd ei bod yn ymddangos fod pobl ifanc yn chwarae llai o ran yn y broses gwneud penderfyniadau wrth i faint y cais am grant gynyddu. Roedd enghreifftiau o strategaethau'n cael eu datblygu mewn mudiadau gwirfoddol mawr er mwyn parhau i ddatblygu eu gallu i roi llais ystyrlon i bobl ifanc mewn agweddau ehangach ar wneud penderfyniadau o fewn y mudiad.

5.20 Er y daw'r rhan fwyaf o'r cyllid sydd ar gael o grantiau, mae rhai mudiadau gwaith ieuenctid yn y sector gwirfoddol yn cynhyrchu symiau sylweddol o incwm o ffynonellau heblaw am grantiau. Mae hwn yn gryfder ac mae'n hybu cynaliadwyedd ac yn lliniaru unrhyw risg ac yn creu amrywiol ffrydiau incwm ac yn osgoi gorddibyniaeth ar nifer fechan o ffynonellau grant. Er bod y gwasanaeth ieuenctid ar draws Cymru yn llwyddo i sicrhau ystod eang o grantiau ar gyfer gwaith ieuenctid, sydd yn amlwg yn gryfder, mae'n wir hefyd fod hyn yn golygu y treulir cryn dipyn o amser ar waith gweinyddol i sicrhau, monitro ac adrodd yn llwyddiannus ar y grantiau. Mae systemau monitro'n amrywio'n fawr, gan fod cyllidwyr eisiau adroddiadau ar eu blaenoriaethau eu hunain, ac mae hyn yn aml yn gwneud monitro'n fwy cymhleth er y gobeithir y bydd systemau rheoli gwybodaeth newydd yn gwneud y broses hon yn fwy effeithlon.

5.21 Dywed rhai mudiadau gwirfoddol eu bod yn derbyn grantiau bloc ail-adroddol gan gyrff cyllido cenedlaethol gan gynnwys Chwaraeon Cymru ar gylch pedair blynedd sy'n cael ei ystyried yn ddibynadwy a rhagweladwy, ac efallai y byddai cael rhagor o gyrff cyllido i fabwysiadu strategaeth gyllido debyg yn fuddiol.

5.22 Mae'r gwasanaeth ieuenctid yn dangos hyblygrwydd yn y ffordd y mae'n ymateb i anghenion newidiol cymdeithas a phobl ifanc, ac mae hyn yn gryfder. Gwelsom dystiolaeth o hyn yn ein cyfweliadau ac yn y data meintiol o'r arolwg.

5.23 Er y gwelsom fod y llwyth gwaith gweinyddol sydd ynghlwm wrth gynnig a chyfrif am niferoedd mawr o grantiau bychain yn tynnu ymarferwyr cymwysedig a phrofiadol oddi wrth waith wyneb yn wyneb gyda phobl ifanc, mae cael amrywiaeth o ffynonellau cyllido yn lliniaru'r perygl na fydd grant unigol yn cael ei adnewyddu. Mae hyn yn dangos y gall cyllido fod yn gryfder a gwendid ar lefelau gwahanol.

5.24 Mae'r canfyddiadau ansoddol a meintiol o'r astudiaeth ddichonoldeb gychwynnol hon yn dangos ei bod yn bosib casglu data i ddechrau rhoi sylw i nodau ac amcanion yr astudiaeth, sef yn benodol:

- Cynnal adolygiad cyllid/dadansoddiad o gost a budd cyllid gwaith ieuenctid ledled Cymru. Dylai'r adolygiad gynnwys tystiolaeth o'r sectorau cynaledig a gwirfoddol.
- Ystyried sut mae'r cyllido'n effeithio ar wasanaethau gwaith ieuenctid ledled Cymru a sut mae unrhyw amrywiadau yn effeithio ar hygyrchedd a hawliau.

5.25 Yn ogystal â mynd i'r afael â nodau/amcanion arfaethedig yr astudiaeth, mae'r data ansoddol a meintiol a gasglwyd wedi galluogi gwell dealltwriaeth o ffynonellau'r cyllid, sut mae'n cael ei sicrhau ac ar beth gaiff yr arian ei wario. Mae'r astudiaeth ddichonoldeb yn dangos pa ddata sydd ar gael a sut fydd yn galluogi'r tîm ymchwil i fynd i'r afael â nod cyntaf yr ymchwil; hefyd, cafodd rhwystrau a heriau wrth geisio sicrhau cyllid yn y sectorau gwirfoddol a chynaledig eu hadnabod.

5.26 Cryfder y ffordd hon o weithio oedd defnyddio technegau ansoddol a meintiol i sefydlu sut mae'r cyllid ar gyfer gwaith ieuenctid yn cael ei ddefnyddio ar draws y sectorau gwirfoddol a chynaledig a sut mae hyn yn amrywio o ardal i ardal. Mae'r ymchwil hwn wedi dechrau amlygu tystiolaeth o effeithiolrwydd economaidd gwaith ieuenctid i helpu llywio

camau dilynol y prosiect, gan gydnabod yr angen i deilwra'r ffordd o weithio i amgylchiadau gwaith ieuenctid yng Nghymru fel yr amlygwyd yn yr ACD.

## 6 Argymhellion

6.1 Cyngir tri argymhelliad, sy’n adlewyrchu nod yr astudiaeth ddichonoldeb. Bydd yr argymhellion hyn yn dylanwadu ar gamau dilynol yr ymchwil a rhagwelir y bydd rhagor o argymhellion yn dilyn.

6.2 **Argymhelliad 1:** Creda’r tîm ymchwil ei bod yn amlwg o’r ymchwil a gynhaliwyd fod digon o ddata ar gael i fynd i’r afael â gofynion camau nesaf yr ymchwil. **Rydym felly’n argymell y dylai Llywodraeth Cymru gytuno y gellir parhau â chamau 2 a 3 yr ymchwil.**

6.3 **Argymhelliad 2:** Parhau i gasglu data fel yr amlinellwyd yn y camau ymchwil a gytunwyd gyda mudiadau sector gwirfoddol ac awdurdodau lleol ledled Cymru er mwyn gallu cadarnhau a thriongli’r dystiolaeth ddangosol a gasglwyd yn yr astudiaeth ddichonoldeb hon. Bydd hyn yn cynnwys rhagor o waith ar ganfyddiadau o gam 1 ac unrhyw ganfyddiadau newydd all ymddangos ar draws Cymru.

6.4 **Argymhelliad 3**: Dylai’r tîm ymchwil weithio gyda swyddogion Llywodraeth Cymru a grŵp llywio’r ymchwil i gytuno ar ragor o ddulliau casglu data a strategaeth samplo priodol ar gyfer camau dilynol yr ymchwil.

6.5 Hoffem gydnabod cefnogaeth ac anogaeth y mudiadau a’r unigolion a gymerodd ran yn yr ymchwil hwn a chynnig gair o ddiolch iddynt. Rydym wedi ymgysylltu â’r sector ar adeg brysur ond er hynny casglwyd data pwysig a pherthnasol o gyfweliadau a grwpiau ffocws, trwy ein harolwg, a data o’r llenyddiaeth, rydym yn hyderus fod gennym ystod gyfoethog o dystiolaeth sy’n cyfrannu at yr argymhellion amlinellwn uchod.

**Adran gyfeiriol**


BERA, (2018). Statement on Close-to-Practice Research. Available from: https://www.bera.ac.uk/publication/bera-statement-on-close-to-practice-research. Darllenwyd Awst, 2022.

Braun, V. and Clarke, V. (2006). Using thematic analysis in psychology. Qualitative Research in Psychology, 3, 77-101.

Braun, V. and Clarke, V. (2022). *Thematic analysis: A practical guide*. Sage: Llundain

Braun, V. and Clarke, V.  (2023). Toward good practice in thematic analysis: Avoiding common problems and be(com)ing a *knowing* researcher. *International Journal of Transgender Health*, 24:1, 1-6.

Creswell. J.W. (2017). Research Design: Qualitative, quantitative and mixed Methods approaches. London: Sage. 5th ed.

Community Learning and Development Scotland (2019). Youth Work National Occupational Standards. Ar gael [ar-lein] yn: https://cldstandardscouncil.org.uk/wp-content/uploads/YouthWorkNOS2019Intro.pdf

Dahlberg, G. and Moss, P. (2004). Ethics and politics in early childhood education. New York: Routledge Falmer

De St Croix, T. (2018). Youth Work, performativity and the new youth impact agenda: Getting paid for numbers? Journal of Education Policy, 33 : 3, 414-438 .

Devlin, M. and Gunning, A. (2009). The Purpose and Outcomes of Youth Work. Report of the Youth Services Interagency Group, Mehefin 2009.

Duffy, D.N. (2017). Scientism, governance and evaluation: Challenging the ‘good science’ of the UK evaluation agenda for Youth Work in Youth and Policy 2017, 116. Ar gael o Issue 116 – Youth & Policy (youthandpolicy.org) Darllenwyd Rhagfyr 2022.

Estyn, (2006). Canllawiau ar Arolygu Gwasanaethau Cefnogi Ieuenctid. Caerdydd, Estyn.

Estyn, (2018). Gwasanaethau Cefnogi Ieuenctid yng Nghymru, Gwerth Gwaith Ieuenctid. [Ar-lein] ar gael yn: https://www.estyn.gov.wales/system/files/2021-08/Youth%2520Support%2520Services%2520in%2520Wales.pdf

European Commission (2014). Working with young people: The value of Youth Work in the European Union. https://ec.europa.eu/assets/eac/youth/library/study/youth-work-report_en.pd

Feilzer, M. (2010). Doing mixed methods research pragmatically: Implications for the rediscovery of pragmatism as a research paradigm. Journal of Mixed Methods Research, 4, 6-16.

Fyfe, I., and Moir, S. (2013). Standing at the crossroads - What future for Youth Work? Concept, , 13. http://concept.lib.ed.ac.uk/article/view/2362.

Hardiker, P. Exton, K. and Barker, M. (1991). Policies and Practice in Preventive Child Care. Aldershot: Avebury.

Hammersley, M. (2015). Research ethics and the concept of children's rights. Children and Society. 29: 6, 569-582.

Hoyla, S. (2012). Youth Work in Finland. HUMAK publications, 4:12.

Bwrdd Gwaith Ieuenctid Interim, (2021). Mae'n Bryd Cyflawni dros Bobl Ifanc yng Nghymru: Sicrhau Model Cyflawni Cynaliadwy ar gyfer Gwasanaethau Gwaith Ieuenctid yng Nghymru. Caerdydd, Llywodraeth Cymru.

Jeffs, T. and Smith, M. K. (2008). Valuing Youth Work, Youth and Policy, 100: pp. 277- 302.

Kaushik. V. and Walsh C.A. (2019). Pragmatism as a research paradigm and its implications for social work. Research Social Sciences, 8: 9, 225. https://www.mdpi.com/2076-0760/8/9/255.

Knapp, M., McDaid, D. and Parsonage, M. (2011). Mental health promotion and mental illness. London: Department of Health. Lifelong Learning UK (2008). National Occupational Standards for Youth Work. Llundain, LLUK.

Learning and Skills Improvement Service (2012). National Occupational Standards for Youth Work. Coventry: LSIS.

Ministry of Education (1944). Education Act 1944. Llundain: Her Majesty's Stationery Office.

Marshall, T., O'Prey, L., Parkinson, A., Grunhut, S., Teifi, I., Usher, S. and Knight, E. (2021). Research to inform development of the Youth Work strategy. Caerdydd: L;l;ywodraeth Cymru, GSR report number 01/2021. https://gov.wales/research-inform-development-youth-work-strategy

McNeil, B. and Stuart, K. (2022). A Framework of Outcomes for Young People 2.1: Socio-emotional skills updates for informal and non-formal learning. https://www.youthimpact.uk/sites/default/files/202205/Outcomes%20Framework%202.1%20FINAL1.pdf

Murphy, C. (2010). From Justice to Welfare: The Case for investment in Prevention and Early intervention, CM Advice Ltd., Dulyn: Irish Penal Reform Trust, Barnardos and the Irish Association of Young People in Care.

Murphy, S. (2020). The Social Value of Youth Work: Social Return on Investment (SROI) Report 2020. https://www.linxyouthproject.co.uk/wp-content/uploads/2020/06/Linx-SROI-Analysis-Report-FINAL-180620.pdf

National Youth Council of Ireland (2012). Assessment of the Economic Value of Youth Work in Ireland. https://www.youth.ie/wp-content/uploads/2019/01/Economic-Beneifit-Youthwork-2012.pdf

National Youth Agency (2020). National Youth Work Curriculum. https://www.nya.org.uk/quality/curriculum/

National Youth Agency (2021). Initial Summary of Findings from the National Youth Sector Census. https://www.nya.org.uk/wp-content/uploads/Summary-Report-v5.pdf.

Ord, J., Carletti, M., Cooper, S., Dansac, C., Morciano, D., Siurala, L., and Taru, M. (2018). The impact of Youth Work in Europe: A study of five European Countries. https://www.humak.fi/wp-content/uploads/2018/09/The-Impact-OfYouth-Work.pdf.

Ord, J., Carletti, M., Morciano, D., Siurala, L., Dansac, C., Cooper, S., ... and Zentner, M. (2022). European Youth Work policy and young people's experience of open access Youth Work. Journal of Social Policy, 51(2), 303-323.

Prince's Trust (2016). Impact Report: 40 Life-Changing Years. https://www.princes-trust.org.uk/about-thetrust/research-policies-reports/40-years-impact

Public Health England (2017). Mental health services: cost-effective commissioning. https://www.gov.uk/government/publications/mental-health-services-cost-effective-commissioning

PWC/Youth Futures Foundation (2022). Youth Employment Index 2022: Building a resilient workforce for the future. https://www.pwc.co.uk/economic-services/YWI/youth-employment-index-2022.pdf

Social-Impact-Navigator (2021). Ar gael o : http://www.social-impact-navigator.org/planning-impact/defining-social-impact/ Darllenwyd: Chwefror 2021.

Understanding Society, The UK Household Longitudinal Study (2018/19). ypfythclub go to youth clubs, scouts, girl guides or other organised activities. https://www.understandingsociety.ac.uk/documentation/mainstage/datasetdocumentation/variable/ypfythclub

Llywodraeth Cynulliad Cymru (2002). Ymestyn Hawliau: Cymorth I blant a phobl ifanc 11 i 25 oed yng Nghymru Cyfeiriad a Chanllawiau. Caerdydd: Llywodraeth Cynulliad Cymru.

Llywodraeth Cynulliad Cymru (2007). Pobl Ifanc, Gwaith Ieuenctid, Gwasanaeth Ieuenctid. Strategaeth Gwasanaeth Ieuenctid Cenedlaethol i Gymru. Caerdydd: Llywodraeth Cynulliad Cymru.

Llywodraeth Cymru (2016). Safonau cyfranogi plant a phobl ifanc. Caerdydd: Llywodraeth Cymru.

Llywodraeth Cymru (2022) Gwaith Ieuenctid yng Nghymru, 2021-22, Cyhoeddiad Ystadegol Cyntaf [Ar-lein]. Ar gael yn: Gwaith ieuenctid yng Nghymru, 2019-20 (gov.wales) Darllenwyd 11.05.23.

Cymdeithas Llywodraeth Leol Cymru (dim dyddiad). Gwasanaeth Ieuenctid [Ar-lein]. Ar gael yn: https://www.wlga.wales/youth-service

Cynghorau Sir Wrecsam a Sir y Fflint (2021) *Inspire Project Evaluation.* Cyngor Sir Wrecsam.

YMCA (2022). Devalued. A decade of cuts to youth services. A report examining local authority expenditure on youth services in England & Wales. https://www.ymca.org.uk/wp-content/uploads/2022/02/ymca-devalued-2022.pdf

Grŵp Adolygu Gwaith Ieuenctid yng Nghymru (2018). EGWYDDORION A PHWRPASAU GWAITH IEUENCTID YNG NGHYMRU.  [Ar-lein] ar gael yn: https://www.cwvys.org.uk/wp-conteAr-leinoads/2018/11/YOUTH-WORK-IN-WALES-PRINCIPLES-AND-PURPOSES.pdf

Youth Link Scotland: National Youth Agency for Scotland (2016). Social and Economic value of Youth Work in Scotland: initial assessment. Glasgow: Hall Aitken

## Atodiad A Rhanddeiliaid

| Ardal Awdurdod Lleol | Mudiad Sector Gwirfoddol | Darpariaeth Gwasanaeth Ieuenctid Statudol |
|---|---|---|
| **Powys** | Cyfwelwyd mudiadau cenedlaethol oherwydd yr heriau y byddai mudiadau MSG llai yn eu hwynebu wrth geisio cymryd rhan yn yr ymchwil. | - Tîm cyffredinol ALl Powys<br>- Rheolaeth a chyllid ALl Powys<br>- Uwch reolwyr ALl Powys<br>- Tîm cynhwysiant Powys |
| **Wrecsam** | - Cyfweliad MSG Wrecsam: The Venture<br>- Partneriaeth Ieuenctid a Chwarae MSG Wrecsam<br>- EYST Wrecsam | - Rheolwyr gwasanaeth ieuenctid ALl Wrecsam<br>- Gweithwyr ieuenctid ALl Wrecsam |
| **Abertawe** | - Cyfweliad MAD Abertawe<br>- YMCA Abertawe<br>- Mixtup Abertawe<br>- EYST Abertawe | - Hwb ALl Abertawe (gweithredol)<br>- Rheolydd Hwb ALl Abertawe<br>- Rheolydd Hwb Cymorth Cynnar ALl Abertawe<br>- Swyddogion cyllid ALl Abertawe<br>- Tîm arweinyddiaeth ALl Abertawe |
| **Casnewydd** | - Casnewydd Byw<br>- Mind Casnewydd<br>- Casnewydd Maindee House<br>- EYST Casnewydd | - ALl Casnewydd (Tîm arweinyddiaeth)<br>- ALl Casnewydd (Tîm gweithredol) |
| **Cyfansymiau** | **11** | **13** |

| **Cyfweliadau Ychwanegol N=7** |
|---|
| Gweision Sifil Llywodraeth Cymru |
| Cynrychiolwyr y WLGA |
| Cyfweliad VSO Cenedlaethol CWVYS |
| Urdd Gobaith Cymru yn Genedlaethol |
| Gwobr Dug Caeredin |
| Boys and Girls Clubs of Wales |
| EYST |

**Atodiad B Cwestiynau'r Arolwg**

Darparwyd y cwestiynau arolwg canlynol yn y Gymraeg a'r Saesneg i'r sawl a gymerodd ran. Roedd pedair adran i'r arolwg, cwestiynau am y mudiad, cwestiynau am gyllid y mudiad, cwestiwn am dîm y mudiad, a chwestiynau am y bobl ifanc mae'r mudiad yn gweithio â nhw. Rhoddwyd cyfnod o dair wythnos i bobl lenwi'r arolwg a chynigiwyd cyfleoedd i gyfarfod ag aelod o'r tîm ymchwil i egluro unrhyw faterion neu gwestiynau oedd ganddynt am yr arolwg.

Cwestiwn math 1 - Cwestiynau am y mudiad.

| | |
|---|---|
| C1 | Beth yw enw eich mudiad? |
| C2 | Ym mha flwyddyn ddechreuodd eich mudiad? |
| C3 | A yw eich mudiad yn gweithio yn (dewiswch bob un perthnasol)<br>- Lleol<br>- Rhanbarthol<br>- Cenedlaethol |
| C4 | Pa wasanaethau ieuenctid ydych chi'n eu darparu? (dewiswch bob un perthnasol)<br>- Gwasanaeth ieuenctid symudol<br>- Gwasanaeth datgysylltiedig neu allgymorth<br>- Mewn ysgolion a/neu golegau<br>- Canolfan Ieuenctid<br>- Siop Wybodaeth<br>- Clwb Ieuenctid<br>1. Arall (rhowch fanylion) |
| C5 | Beth yw nod neu bwrpas eich gwasanaethau gwaith ieuenctid? |

| | |
|---|---|
| C6 | A yw eich mudiad yn cynnig unrhyw ddarpariaeth arbenigol a chanddynt nodau ac amcanion gwahanol e.e. prosiect gofalwyr ifanc. Rhestrwch nhw yma os gwelwch yn dda |

| | |
|---|---|
| C7 | Ym mha feysydd mae eich mudiad yn gweithio gyda phobl ifanc?<br><br>- Teulu a pherthnasoedd<br>- Yr amgylchedd<br>- Addysg<br>- Gwaith a/neu hyfforddiant<br>- Iechyd a llesiant<br>- Tai<br>- Cyfiawnder a chydraddoldeb<br>- Arian a chyllid<br>- Chwaraeon/hamdden<br>- Arall (rhowch fanylion) |
| C8 | Ydych chi'n darparu eich gwasanaeth yn?<br>- Saesneg yn unig<br>- Cymraeg yn unig<br>1. Cymraeg a Saesneg |

Cwestiwn math 2 – Cwestiynau Cyllido

| | |
|---|---|
| C9 | Dewiswch gyfanswm y cyllid mae eich mudiad yn ei dderbyn ar gyfer gwaith ieuenctid bob blwyddyn?<br><br>Dewiswch o blith gyfanswm y cyllid a gawsoch yn 2011-2021. Mae'r ystodau cyllidol yn cynnwys<br>- Cyllideb hyd at £5,000<br>- Cyllideb rhwng £5,001-10,000<br>- Cyllideb rhwng,001-25,000<br>- Cyllideb rhwng £25,001-100,000<br>• Mwy na £100,000 |
| C10-21 | Yn 2011 o ble ddaeth eich cyllid, a faint o gyllid ddaeth o bob ffynhonnell (rhestrwch eich ffynonellau cyllidol e.e., awdurdod lleol, loteri ac ati)<br><br>Ail-adroddir y cwestiwn hwn ar gyfer pob blwyddyn (h.y. 2012, 2013, …, i 2021). |
| C22 | Tua faint o oriau'r mis ydych chi'n eu treulio ar geisiadau am grantiau/cyllid? |
| C23 | A yw eich mudiad yn derbyn unrhyw gyllid gan yr awdurdod lleol?<br>- Ydy<br>• Nac ydy |
| C24 | Pa Gyfarwyddiaethau yn yr Awdurdod Lleol sy'n darparu grantiau?<br>- Addysg<br>- Gwasanaethau Plant |

| | |
|---|---|
| | - Adfywio<br>- Hamdden<br>- Diogelwch Cymunedol<br>• Arall (rhowch fanylion) |
| C25 | Pa mor sefydlog yw eich cyllid o flwyddyn i flwyddyn?<br><br>- Rhagweladwy/Sefydlog Iawn<br>- Gweddol Ragweladwy/Sefydlog<br>- Cyson<br>- Gweddol Anwadal/Ansefydlog<br>A) Anwadal/Ansefydlog Iawn |
| C26 | Esboniwch eich dewis o ateb i'r cwestiwn blaenorol. |
| C27 | Beth ellid ei newid i wneud ffynonellau cyllido eich mudiad yn fwy rhagweladwy neu sefydlog? |
| C28 | A oes newidiadau tymhorol yn eich cyllidebau? H.y. Ydych chi'n cyllidebu mwy yn y gaeaf nac yn yr haf? Esboniwch eich ateb os gwelwch yn dda. |
| C29 | Pa ffynonellau sy'n rhoi gwybodaeth ichi am ffynonellau cyllido posib. Mae'r rhain yn cynnwys gwefannau, pobl, mudiadau eraill ac ati. Rhestrwch yr holl ffynonellau os gwelwch yn dda. |
| C30 | Pa rwystrau ariannol sy'n effeithio ar eich gwaith? |

Cwestiwn math 3 – Cwestiynau Tîm

| | |
|---|---|
| C31 | Faint o staff unigol sydd ar eich cyflogres? |
| C32 | Faint o'r bobl hyn sy'n meddu ar gymwysterau JNC? |
| C33 | Faint o'r bobl hyn sy'n meddu ar gymwysterau gwaith ieuenctid heblaw am JNC? |
| C34 | Faint o staff cyfwerth ag amser llawn sydd ar eich cyflogres? |
| C35 | Faint o wirfoddolwyr sy'n cyfrannu'n rheolaidd (o leiaf ddwywaith y mis) i'ch mudiad? |
| C36 | Faint o'r unigolion hyn sy'n meddu ar gymwysterau JNC? |
| C37 | Faint o'r unigolion hyn sy'n meddu ar gymwysterau gwaith ieuenctid heblaw am JNC? |
| C38 | Faint o staff cyfwerth ag amser llawn sydd mewn swyddi rheoli/strategol, a faint sydd mewn swyddi rheng flaen/llawr gwlad. Gofalwch, yn eich is-adran, fod cyfanswm y staff cyfwerth ag amser llawn yr un ag a roddwyd ar gyfer C34. |
| C39 | Faint o unigolion yn eich mudiad sy'n gweithio ar geisiadau am grantiau/cyllid? |

Cwestiwn math 4 – Pobl ifanc a chwestiynau eraill

| | |
|---|---|
| C40 | Yn flynyddol, dros y 10 mlynedd diwethaf gyda faint o bobl ifanc mae eich mudiad wedi gweithio?<br><br>Dewiswch o blith y bwcedi canlynol<br>- Llai nac 20<br>- 21-40<br>- 41-60<br>- 61-80<br>- 81-100<br>• Mwy na 101 (rhowch fanylion |
| C41 | Sut mae pobl ifanc yn cyfrannu at wneud penderfyniadau? |
| C42 | A oes unrhyw beth arall yr hoffech ddweud wrthym am eich mudiad |

**Atodiad C - Cwestiynau Ansoddol ar gyfer Cyfweliadau / Grwpiau Ffocws**

Ymchwil Adolygiad Cyllido Gwaith Ieuenctid yng Nghymru: Cyfweliad / Grŵp Ffocws y Sector Gwirfoddol

Teitl y prosiect ymchwil:

Ymchwil Adolygiad Cyllido Gwaith Ieuenctid yng Nghymru

Ymchwilydd ymchwil:

Enw'r person sy'n cymryd rhan yn yr ymchwil:

Cyflwyniadau

Rydym yn cynnal ymchwil ar ran Llywodraeth Cymru Mae'r tîm ymchwil yn cynnwys uwch academyddion o'r Drindod Dewi Sant (PCYDDS), Wrecsam Glyndŵr (PWG) a Met Caerdydd (MC).

Cefndir

Mae adolygiad o gyllido gwaith ieuenctid yng Nghymru yn ymateb i argymhellion y Bwrdd Gwaith Ieuenctid Interim ar yr angen am adolygiad cyllid er mwyn cael gwell dealltwriaeth o sut mae cyllid ar draws gwaith ieuenctid yng Nghymru o'r **sectorau gwirfoddol a chynaledig** yn cael ei drefnu a'i wario ac effaith y cyllido hwnnw.

Bydd y cyfweliad yn cymryd tuag awr. Nid ydym yn rhagweld y bydd cymryd rhan yn creu unrhyw risgiau ichi, ond mae gennych hawl i ddod â'r cyfweliad i ben neu dynnu allan o'r ymchwil ar unrhyw adeg nes inni ddechrau dadansoddi eich data.

Cydsyniad

Diolch ichi am gytuno cael eich cyfweld fel rhan o'r prosiect ymchwil uchod. Mae gweithdrefnau moesegol ar gyfer ymchwil academaidd a gynhelir o sefydliadau yn y DG yn mynnu fod y sawl sy'n cael eu cyfweld yn cytuno'n glir i gael eu cyfweld ac â'r ffordd y defnyddir y wybodaeth a gynhwysir yn eu cyfweliad. Mae'r ffurflen gydsynio hon yn angenrheidiol er mwyn inni sicrhau eich bod yn deall pwrpas eich cyfraniad a'ch bod yn cytuno ag amodau eich cyfraniad. Gofynnir felly ichi ddarllen y daflen wybodaeth atodedig ac yna llofnodi'r ffurflen gydsynio.

***Dylai pawb sy'n llenwi'r arolwg ddarllen y daflen wybodaeth atodedig a llenwi'r ffurflen gydsynio atodedig.***

Cwestiynau

**Thema 1: Cyd-destun Sefydliadol**

Cwestiwn 1: Beth yw nodau & amcanion lleol, rhanbarthol a chenedlaethol eich mudiad/darpariaeth?

Ail gwestiwn:

**Thema 2: Pobl**

Cwestiwn 1: Faint o staff cyfwerth ag amser llawn sy'n cael eu cyflogi gan eich mudiad i ddarparu gwaith ieuenctid a gwaith cefnogi pobl ifanc? Faint o unigolion? Faint o wirfoddolwyr?

Ail gwestiwn: Faint o staff sy'n strategol / rheoli a faint sydd ar y rheng flaen / wyneb yn wyneb?

Faint o staff a gwirfoddolwyr sy'n darparu gwaith ieuenctid wedi'i dargedu? Faint sy'n darparu gwasanaethau mynediad agored / cyffredinol?

Cwestiwn 2: Beth yw cymwysterau gwirfoddolwyr sy'n cyfrannu at waith ieuenctid?

Ail gwestiwn: Pryd mae pobl yn gweithio yn bennaf, yn ystod y dydd / gyda'r nos / dros y Sul?

Cwestiwn 3: Faint o staff cyfwerth ag amser llawn sy'n darparu gwaith ieuenctid wedi'i dargedu a faint sy'n darparu gwasanaethau mynediad agored / cyffredinol?

Ail gwestiwn: Beth yw lefelau cymwysterau pob unigolyn a gyflogir gan yr awdurdod lleol ei hun i ddarparu gwaith ieuenctid? A oes unrhyw wirfoddolwyr, ac os felly, beth yw eu cymwysterau?

**Thema 3 : Asesiad o anghenion**

Cwestiwn 1 Sut mae anghenion am ddarpariaeth leol / rhanbarthol / cenedlaethol yn cael eu mapio a'u hadnabod?

Ail gwestiwn: Sut mae pobl ifanc yn cyfrannu at adnabod angen am ddarpariaeth?

A oes unrhyw beth yn newid pan welir anghenion neu fylchau?

Cwestiwn 2: Pwy sy'n gyfrifol am fapio anghenion a mapio darpariaeth yn yr ardal?

Ail gwestiwn: A oes unrhyw strwythurau cynllunio gan y sector gwirfoddol yn lleol, unrhyw brosiectau ar y cyd?

Cwestiwn 3: A yw eich mudiad yn cyfrannu at unrhyw asesiadau anghenion neu fapio darpariaeth gan yr awdurdod lleol? Sut?

Ail gwestiwn: Pa drefniadau sy'n galluogi mudiadau sector gwirfoddol i gyfrannu at brosesau mapio ac asesu anghenion yn lleol, rhanbarthol neu genedlaethol? I ba fathau o waith ydych chi'n cyfrannu?

Cwestiwn 4: A yw eich mudiad yn cyfrannu at unrhyw asesiadau anghenion a/neu brosesau mapio darpariaeth ieuenctid lleol, rhanbarthol neu genedlaethol ERAILL? Ym mha ffordd?

**Thema 4: Cyllido Mewnol**

Cwestiwn 1: Ydych chi'n gwybod a yw'r awdurdod lleol neu Lywodraeth Cymru yn cyllido neu gomisiynu unrhyw fudiadau allanol i ddarparu gwaith ieuenctid yn yr ardal?

Ail gwestiwn:

| |
|---|
| |

Cwestiwn 2: A yw'r awdurdod lleol yn cyllido neu'n comisiynu unrhyw waith ieuenctid gan eich mudiad?

Ail gwestiwn: Os felly, ar gyfer beth a faint? Beth yw'r broses gwneud cais/tendro?

| |
|---|
| |

Cwestiwn 3: Disgrifiwch os gwelwch yn dda beth yw manteision a chryfderau'r systemau a'r prosesau cyllido presennol?

Ail gwestiwn: Ydych chi'n credu fod Gwerth am Arian? Pam/pam nad oes? Tystiolaeth?

| |
|---|
| |

**Thema 5. Gwybodaeth Ehangach**

Cwestiwn 1. A yw pobl ifanc yn cael eu cynnwys yn y broses gwneud penderfyniadau ar gyllido? Sut?

Ail gwestiwn: Pa ffynonellau a faint?

Cwestiwn 2.

| **Thema 6: Cyllido Allanol** |
|---|
| |

Cwestiwn 1: Pa gyllid arall mae eich mudiad yn ei dderbyn ac o ba ffynonellau ee cronfeydd elusennol, ESF / cronfeydd amgen? Sut ydych chi'n derbyn gwybodaeth am gyllid allai fod ar gael ar lefelau lleol, rhanbarthol, a chenedlaethol?

Ail gwestiwn: Fel mudiad, sut mae penderfyniadau ar ba botiau/contractau cyllid y dylech gynnig amdanynt yn cael eu gwneud? Pwy sy'n gwneud y penderfyniadau hynny?

| |
|---|

Cwestiwn 2: Ail gwestiwn: Disgrifiwch unrhyw rwystrau neu heriau y mae'r prosesau cyllido presennol yn eu creu?

Cwestiwn 3: Sut ellid gwella'r system o gyllido gwasanaethau ieuenctid yn lleol, rhanbarthol, cenedlaethol?

Ail gwestiwn: Sut mae pobl ifanc yn cael eu cynnwys yn y broses hon?

| **F11** |
|---|

Cwestiwn 1. Beth yw'r amcanion a'r Dangosyddion Perfformiad Allweddol ar gyfer y potiau cyllid gwahanol a dderbyniwch ar gyfer gwaith ieuenctid? Ar gyfer pob un o'r ffynonellau ariannol, beth yw'r gofynion monitro ac adrodd?

Ail gwestiwn:

Cwestiwn 2. I bwy mae darparwyr yn atebol? Pam mor dda mae llywodraethiant yn gweithio yn eich mudiad?

Ail gwestiwn:

Cwestiwn 3. Ydych chi'n credu fod yna Werth am Arian o fewn y trefniadau cyllido yn eich maes gwaith chi? (Pam/pam ddim? Tystiolaeth?)

Ail gwestiwn:

**Thema 8: Cryfderau a Gwendidau**

Cwestiwn 1. Beth yw manteision y system gyllido bresennol?

Ail gwestiwn: Unrhyw dystiolaeth ar gael?

Cwestiwn 2: Beth yw'r rhwystrau neu broblemau/materion a gododd gyda'r system gyllido bresennol?

Ail gwestiwn: Unrhyw dystiolaeth ar gael? Tystiolaeth o newid gydag amser?

Cwestiwn 3: Sut ellid gwella'r system o gyllido gwasanaethau ieuenctid yn lleol, rhanbarthol, cenedlaethol?

Ail gwestiwn:

Cwestiwn 4: A oes unrhyw beth yr hoffech ei ychwanegu am gyllido, darparu gwasanaethau neu ganlyniadau eich gwaith nad ydym wedi'i gynnwys hyd yn hyn?

***Diolchwch i bawb a gymerodd ran am eu hamser a gofynnwch a oes ganddynt unrhyw gwestiynau.***

Ymchwil Adolygiad Cyllido Gwaith Ieuenctid yng Nghymru: Cyfweliad / Grŵp Ffocws y Sector Cynaledig

Teitl y prosiect ymchwil:

Ymchwil Adolygiad Cyllido Gwaith Ieuenctid yng Nghymru

Ymchwilydd ymchwil:

Enw'r person sy'n cymryd rhan yn yr ymchwil:

Cyflwyniadau

Rydym yn cynnal ymchwil ar ran Llywodraeth Cymru Mae'r tîm ymchwil yn cynnwys uwch academyddion o'r Drindod Dewi Sant (PCYDDS), Wrecsam Glyndŵr (PWG) a Met Caerdydd (MC).

Cefndir

Mae adolygiad o gyllido gwaith ieuenctid yng Nghymru yn ymateb i argymhellion y Bwrdd Gwaith Ieuenctid Interim ar yr angen am adolygiad cyllid er mwyn cael gwell dealltwriaeth o sut mae cyllid ar draws gwaith ieuenctid yng Nghymru o'r **sectorau gwirfoddol a chynaledig** yn cael ei drefnu a'i wario ac effaith y cyllido hwnnw.

Bydd y cyfweliad yn cymryd tuag awr. Nid ydym yn rhagweld y bydd cymryd rhan yn creu unrhyw risgiau ichi, ond mae gennych hawl i ddod â'r cyfweliad i ben neu dynnu allan o'r ymchwil ar unrhyw adeg nes inni ddechrau dadansoddi eich data.

Cydsyniad

Diolch ichi am gytuno cael eich cyfweld fel rhan o'r prosiect ymchwil uchod. Mae gweithdrefnau moesegol ar gyfer ymchwil academaidd a gynhelir o sefydliadau yn y DG yn mynnu fod y sawl sy'n cael eu cyfweld yn cytuno'n glir i gael eu cyfweld ac â'r ffordd y defnyddir y wybodaeth a gynhwysir yn eu cyfweliad. Mae'r ffurflen gydsynio hon yn angenrheidiol er mwyn inni sicrhau eich bod yn deall pwrpas eich cyfraniad a'ch bod yn cytuno ag amodau eich cyfraniad. Gofynnir felly ichi ddarllen y daflen wybodaeth atodedig ac yna llofnodi'r ffurflen gydsynio.

Dylai pawb sy'n llenwi'r arolwg ddarllen y daflen wybodaeth atodedig a llenwi'r ffurflen gydsynio atodedig.

Cwestiynau

| **Thema 1: Cyd-destun Sefydliadol** |
|---|

Cwestiwn 1: Ym mha gyfarwyddiaeth mae Gwasanaethau Ieuenctid, a beth yw rôl y Prif Swyddog Ieuenctid?

Ail gwestiwn: A oes gan y Prif Swyddog Ieuenctid gyfrifoldeb am feysydd gwaith eraill?

| |
|---|

Cwestiwn 2: Beth yw Nodau ac Amcanion eich gwaith?

Ail gwestiwn: Pa fathau o waith ydych chi'n eu gwneud?

| |
|---|

**Thema 2: Pobl**

Cwestiwn 1: Faint o staff sy'n strategol / rheoli a faint sydd ar y rheng flaen / wyneb yn wyneb?

Ail gwestiwn: Hefyd, a yw'r gwaith yn cael ei gefnogi gan wirfoddolwyr?

| |
|---|

Cwestiwn 2: Faint o staff cyfwerth ag amser llawn sy'n cael eu cyflogi gan yr awdurdod lleol ei hun i ddarparu gwaith ieuenctid? Faint o unigolion? Faint o wirfoddolwyr?

Ail gwestiwn: Pryd mae pobl yn gweithio yn bennaf, yn ystod y dydd / gyda'r nos / dros y Sul?

| |
|---|

Cwestiwn 3: Faint o staff cyfwerth ag amser llawn sy'n darparu gwaith ieuenctid wedi'i dargedu a faint sy'n darparu gwasanaethau mynediad agored / cyffredinol?

Ail gwestiwn: Beth yw lefelau cymwysterau pob unigolyn a gyflogir gan yr awdurdod ei hun i ddarparu gwaith ieuenctid? A oes unrhyw wirfoddolwyr, ac os felly, beth yw eu cymwysterau?

**Thema 3: Asesiad o anghenion**

Cwestiwn 1 Sut mae anghenion a darpariaeth leol yn cael eu hadnabod, a phwy sy'n gyfrifol am fapio anghenion a mapio darpariaeth yn ardal yr awdurdod lleol?

Ail gwestiwn: Sut mae pobl ifanc yn cyfrannu at adnabod angen am ddarpariaeth?

A oes unrhyw beth yn newid pan welir anghenion neu fylchau?

Cwestiwn 2: Pa drefniadau sydd ar gael er mwyn i'r sector gwirfoddol gyfrannu at y broses asesu anghenion?

Ail gwestiwn: A oes unrhyw strwythurau cynllunio gan y sector gwirfoddol yn lleol, unrhyw brosiectau ar y cyd?

**Thema 4: Cyllido Mewnol**

Cwestiwn 1: Beth yw'r dyraniad Grant Cynnal Refeniw (GCR) bras ar gyfer darpariaeth gwaith ieuenctid yn yr ALl? Ydych chi'n rhan o unrhyw drafodaethau am sut mae'r cyllid yn cael ei ddyrannu?

Ail gwestiwn:

Cwestiwn 2: Pa ganran o'r dyraniad GCR bras sy'n cael ei ddosbarthu/ddyrannu i ddarpariaeth gwaith ieuenctid a'r gwasanaeth ieuenctid mewn gwirionedd?

Ail gwestiwn:

| |
|---|
| Cwestiwn 3. Sut mae cyllideb y gwasanaeth ieuenctid yn cael ei dyrannu o fewn yr ALl, beth yw'r prosesau gwneud penderfyniadau a phwy sy'n rhan o gadarnhau dyraniadau cyllidebol? |
| |

**Thema 5. Gwybodaeth Ehangach**

Cwestiwn 1. Pa gyllid arall mae'r ALl yn ei dderbyn i ddarparu gwaith ieuenctid yn ardal yr awdurdod lleol?

Ail gwestiwn: Pa ffynonellau a faint?

| |
|---|
| |
| Cwestiwn 2. Ydych chi'n teimlo eich bod angen cyllid ychwanegol, ac os felly, sut ydych chi'n derbyn gwybodaeth am gyllid allai fod ar gael ar lefelau lleol, rhanbarthol, a chenedlaethol? |

**Thema 6: Cyllido Allanol**

Cwestiwn 1. A yw'r awdurdod lleol yn cyllido neu'n comisiynu unrhyw fudiadau allanol i ddarparu gwaith ieuenctid yn ardal yr awdurdod lleol?

Ail gwestiwn: Pa fudiadau allanol sy'n cael eu cyllido gan yr awdurdod lleol?

| |
|---|
| |

Cwestiwn 2: Beth yw cyfanswm y cymorth ariannol gan yr awdurdod lleol i bob mudiad/gwasanaeth/darpariaeth gwaith ieuenctid a gomisiynwyd?

Ail gwestiwn:

Cwestiwn 3: Beth yw nodau ac amcanion y mudiadau / prosiectau / gwasanaethau hyn?

Ail gwestiwn: Sut mae pobl ifanc yn cael eu cynnwys yn y broses hon?

**Thema 7: Monitro**

Cwestiwn 1. Pwy sy'n gyfrifol am reoli contractau? (A oes unrhyw adroddiadau blynyddol neu adroddiadau gwerthuso ar gael yn disgrifio'r effeithiau)?

Ail gwestiwn:

Cwestiwn 2. I bwy mae darparwyr yn atebol? Pam mor dda mae llywodraethiant yn gweithio yn eich mudiad?

Ail gwestiwn:

Cwestiwn 3. Sut mae'r deilliannau'n cael eu monitro, eu hadrodd a'u rheoli ar gyfer 'gwaith wedi'i gomisiynu' a gwaith y mae'r ALl yn ei ddarparu'n uniongyrchol?

Ail gwestiwn:

Cwestiwn 4. Ydych chi'n credu fod yna Werth am Arian o fewn y trefniadau cyllido yn eich maes gwaith chi? (Pam/pam ddim? Tystiolaeth?)

**Thema 8: Cryfderau a Gwendidau**

Cwestiwn 1. Beth yw manteision y system gyllido bresennol?

Ail gwestiwn: Unrhyw dystiolaeth ar gael?

Cwestiwn 2: Beth yw’r rhwystrau neu broblemau/materion a gododd gyda’r system gyllido bresennol?

Ail gwestiwn: Unrhyw dystiolaeth ar gael?

Cwestiwn 3: Sut ellid gwella’r system o gyllido gwasanaethau ieuenctid yn lleol, rhanbarthol, cenedlaethol?

Ail gwestiwn:

| |
|---|
| Cwestiwn 4: A oes unrhyw beth yr hoffech ei ychwanegu am gyllido, darparu gwasanaethau neu ganlyniadau eich gwaith nad ydym wedi’i gynnwys hyd yn hyn? |
| |

***Diolchwch i bawb a gymerodd ran am eu hamser a gofynnwch a oes ganddynt unrhyw gwestiynau.***

**Atodiad D - Llyfr Codio Dadansoddiad Ansoddol**

Llyfr cod i'w ddadansoddi:

Datblygwyd llyfr codio, yn seiliedig ar ddogfen manyleb Llywodraeth Cymru (a gytunwyd ac a olygwyd gyda'r tîm ymgysylltu ieuenctid ac wedi ymgynghori â'r grŵp llywio), a chymerwyd y meysydd ffocws o newidynnau a ganfuwyd o Ddata'r Archwiliad Gwaith Ieuenctid Blynyddol, cyllid YSG, a Grantiau Statudol i Fudiadau Gwaith Ieuenctid; cytunwyd ar y themâu a-prior canlynol fel fframwaith ar gyfer dadansoddi:

Dadansoddiad o Themâu'r Sector Cynaledig

***Colours to be used in coding data in text***

| | Thema Allweddol a-prior |
|---|---|
| 1. | **Cyd-destun Sefydliadol**<br>**Insert subthemes that are identified** |
| 2. | **Pobl**<br>**Insert subthemes that are identified** |
| 3. | **Asesiad o Anghenion**<br>**Insert subthemes that are identified** |
| 4. | **Cyllido Mewnol**<br>**Insert subthemes that are identified** |
| 5. | **Gwybodaeth Ehangach**<br>**Insert subthemes that are identified** |
| 6. | **Cyllido Allanol**<br>**Insert subthemes that are identified** |
| 7. | **Monitro**<br>**Insert subthemes that are identified** |
| 8. | **Cryfderau a gwendidau**<br>**Insert subthemes that are identified** |

Themâu'r Sector Gwirfoddol

***Colours to be used in coding data in text***

| | Thema Allweddol a-prior |
|---|---|
| 1. | **Cyd-destun Sefydliadol**<br>**Insert subthemes that are identified** |
| 2. | **Pobl**<br>**Insert subthemes that are identified** |
| 3. | **Asesiad o Anghenion**<br>**Insert subthemes that are identified** |
| 4. | **Cyllido Mewnol**<br>**Insert subthemes that are identified** |
| 5. | **Gwybodaeth Ehangach**<br>**Insert subthemes that are identified** |
| 6. | **Cyllido Allanol**<br>**Insert subthemes that are identified** |
| 7. | **Monitro**<br>**Insert subthemes that are identified** |
| 8. | **Cryfderau a gwendidau**<br>**Insert subthemes that are identified** |

**Atodiad E. Adolygiad Meintiol**

Ffynhonnell ar gyfer pob ffigur: daw’r holl werthoedd a gyfrifwyd o’r cyhoeddiad ystadegol blynyddol a gwnaed y cyfrifiadau gan yr awduron. Mae ffigurau’n seiliedig ar flynyddoedd ariannol. Er enghraifft, mae pwynt data 2021 ar gyfer blwyddyn ariannol 2021-22. Mae’r holl rifau a ddyfynnir yn real, ac fe’u haddaswyd yn ôl CPI ar gyfer 2015.

## Atodiad E.1. Arian Incwm

### E.1.1




### E.1.2



E.1.3


Total National Sources (£)
Real total National Sources (£)
2,500,000
2,000,000
1,500,000
1,000,000
500,000
0
2010
2011
2012
2013
2014
2015
2016
2017
2018
2019
2020
2021
Swansea
Wrexham
Powys
Newport

E.1.4


Any Other Sources (£)
Real any other sources (£)
300,000
250,000
200,000
150,000
100,000
50,000
0
2010
2011
2012
2013
2014
2015
2016
2017
2018
2019
2020
2021
Swansea
Wrexham
Powys
Newport

**E.1.5**



Total Income (£)
Real Total Income (£)
4,000,000
3,500,000
3,000,000
2,500,000
2,000,000
1,500,000
1,000,000
500,000
0
2010
2011
2012
2013
2014
2015
2016
2017
2018
2019
2020
2021
Swansea
Wrexham
Powys
Newport

## Atodiad E.2. Incwm y person

### E.2.1




### E.2.2




Ffynhonnell: Cyfrifwyd yr holl werthoedd gan yr awduron o ddata'r cyhoeddiad ystadegol blynyddol ac maent yn seiliedig ar gyfanswm y boblogaeth yn yr awdurdod lleol yn seiliedig ar ddata'r Cyfrifiad.

## Atodiad E.3. Data Gwariant

Ffynhonnell ar gyfer pob ffigur: daw'r holl werthoedd a gyfrifwyd o'r cyhoeddiad ystadegol blynyddol a gwnaed y cyfrifiadau gan yr awduron. Mae ffigurau'n seiliedig ar flynyddoedd ariannol. Er enghraifft, mae pwynt data 2021 ar gyfer blwyddyn ariannol 2021-22. Mae'r holl rifau a ddyfynnir yn real, ac fe'u haddaswyd yn ôl CPI ar gyfer 2015.

### E.3.1 Gwariant rheolwyr a staff rheng flaen cyfunol




### E.3.2



## E.3.3



Training and Staff Development Expenses (£)
Training and development expenses (£)
90,000
80,000
70,000
60,000
50,000
40,000
30,000
20,000
10,000
0
2010
2011
2012
2013
2014
2015
2016
2017
2018
2019
2020
2021
Swansea
Wrexham
Powys
Newport


## E.3.4



Building Expenditure (£)
Building expenses (£)
600,000
500,000
400,000
300,000
200,000
100,000
0
2010
2011
2012
2013
2014
2015
2016
2017
2018
2019
2020
2021
Swansea
Wrexham
Powys
Newport

## E.3.5


Grant Aid to Voluntary Sector (£)
Grant aid expenses (£)
250,000
200,000
150,000
100,000
50,000
0
2010
2011
2012
2013
2014
2015
2016
2017
2018
2019
2020
2021
Swansea
Wrexham
Powys
Newport

## E.3.6


Total Voluntary Sector Funding (£)
Total Voluntary Sector funding (£)
1,000,000
900,000
800,000
700,000
600,000
500,000
400,000
300,000
200,000
100,000
0
2010
2011
2012
2013
2014
2015
2016
2017
2018
2019
2020
2021
Swansea
Wrexham
Powys
Newport

**E.3.7**


Total Expenditure (£)
Total Expenditure (£)
4,000,000
3,500,000
3,000,000
2,500,000
2,000,000
1,500,000
1,000,000
500,000
0
2010
2011
2012
2013
2014
2015
2016
2017
2018
2019
2020
2021
Swansea
Wrexham
Powys
Newport

## Atodiad E.4. Adolygiad Staffio

### E.4.1



## Atodiad E.5. Incwm Adrannol Segmentedig

### E.5.1




### E.5.2



**E.5.3**




**E.5.4**




Ffynhonnell: Cyfrifwyd yr holl werthoedd gan yr awduron o ddata’r cyhoeddiad ystadegol blynyddol ac maent yn seiliedig ar gydrannau tebyg i’r cyhoeddiad ystadegol blynyddol ac ni fydd unrhyw arian incwm ar gyfer yr incwm adrannol segmentedig yn dangos ar y graff.

## Atodiad E.6. Incwm Segmentedig o ffynonellau eraill yn ôl yr Archwiliad Blynyddol o Waith Ieuenctid

### E.6.1




### E.6.2



**E.6.3**




**E.6.4**




Ffynhonnell ar gyfer pob ffigur: daw'r holl werthoedd a gyfrifwyd o'r cyhoeddiad ystadegol blynyddol a gwnaed y cyfrifiadau gan yr awduron. Mae ffigurau'n seiliedig ar flynyddoedd ariannol. Er enghraifft, mae pwynt data 2021 ar gyfer blwyddyn ariannol 2021-22. Mae'r holl rifau a ddyfynnir yn real, ac fe'u haddaswyd yn ôl CPI ar gyfer 2015.

## Atodiad E.7. Ffracsiwn o gyfanswm yr incwm ffynhonnell genedlaethol fesul Awdurdod Lleol

### E.7.1




### E..7.2



## E.7.3




## E.7.4




Ffynhonnell ar gyfer pob ffigur: daw'r holl werthoedd a gyfrifwyd o'r cyhoeddiad ystadegol blynyddol a gwnaed y cyfrifiadau gan yr awduron. Mae ffigurau'n seiliedig ar flynyddoedd ariannol. Er enghraifft, mae pwynt data 2021 ar gyfer blwyddyn ariannol 2021-22. Mae'r holl rifau a ddyfynnir yn real, ac fe'u haddaswyd yn ôl CPI ar gyfer 2015.

## Atodiad E.8. Canlyniadau’r Arolwg

### E.8.1 Ymatebion i’r arolwg yn ôl ffocws gweithredol sefydliadau




Sylwer: mae rhai sefydliadau’n gweithio yn y tri chyd-destun ac fe’u dangoswyd ymhob un ohonynt.

### E.8.2 Ymatebion i'r arolwg yn ôl y gwasanaethau a ddarperir gan bob sefydliad




### E.8.3



**E.8.4**



Language provided in your youth service
Welsh and English
English only
Welsh only
0
1
2
3
4
5
6
7
8


**E.8.5**



Stability of Youth Work funding
Constant
Very Unstable. Unpredictable
Quite unstable/unpredictable
Quite stable/predictable
Very stable/predictable
0
1
2
3
4
Frequency

**E.8.6**


Information sources of funding opportunities
CWVYS
PYO
Social Media
Welsh Government/LA
PAVO
0
1
2
3

**E.8.7**


Barriers to fundings
Reporting is onerous
Core funding
Communication with funders
Annual grants
Takes to much time to complete form
0
1
2
3
4

## E.8.8


Direcotorate of Local authority funding
Education
Children's Services
Community Safety
0
1
2
3
4
5
Frequency

## E.8.9


Total Funding to Organisation
Funding Recieved (£000's)
600
500
400
300
200
100
0
2011
2012
2013
2014
2015
2016
2017
2018
2019
2020
2021
Year

## E.8.10




## E.8.11




Sylwer: gellir cyfrif canrannau trwy luosi'r y-echel gyda 100. Ffynhonnell: Cyfrifwyd yr holl werthoedd gan yr awduron o'r data a gasglwyd yn yr arolwg.